

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

30/04/2013

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#)
[Urgent Question: The National Library of Wales](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[Statement: Commission on Public Service Governance and Delivery](#)

[Datganiad: Cyflwyno'r Bil Addysg Bellach ac Uwch \(Llywodraethu a Gwybodaeth\) \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of the Further and Higher Education \(Governance and Information\) \(Wales\) Bill](#)

[Datganiad: Diddymu'r Cyrff sy'n Gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol](#)
[Statement: Abolition of the Agricultural Wages Board Associated Statutory Bodies](#)

[Datganiad: Colli Swyddi yn Rowecord yng Nghasnewydd](#)
[Statement: Job Losses at Rowecord in Newport](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

I call the National Assembly for Wales to order.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Statement by the Presiding Officer [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to announce that yesterday, 29 April, Royal Assent was given to the Public Audit (Wales) Act 2013.

Rwy'n falch o gyhoeddi y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ddoe, 29 Ebrill.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Cyn-Filwyr Cymru

Welsh Veterans

13:31 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud wrth weithio gyda Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan i ddarparu triniaeth a chefnogaeth ddigonol ar gyfer cyn-filwyr Cymru sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma? OAQ(4)1017(FM)

1. What progress has the Welsh Government made in working with the All-Wales Veterans Health and Well-being Service to provide adequate support and treatment for Welsh veterans experiencing post-traumatic stress disorder? OAQ(4)1017(FM)

- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister for Health and Social Services reaffirmed our programme for government commitment to veterans' healthcare in the debate on post-traumatic stress disorder last week. Our specialist health and wellbeing service is unique in the UK. More generally, we continue to work with local health boards to ensure that the health needs of veterans are met.
- Ail-gadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymiad ein rhaglen ar gyfer llywodraethu i ofal iechyd cyn-filwyr yn y drafodaeth ar anhwylder straen ôl-drawmatig yr wythnos diwethaf. Mae ein gwasanaeth iechyd a lles arbenigol yn unigryw yn y DU. Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau bod anghenion iechyd cyn-filwyr yn cael eu diwallu.
- 13:31 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, First Minister. Last year, LHBs in Wales were given an extra £0.5 million to ensure that they were employing an experienced clinician to work on helping and treating armed forces veterans in Wales who suffer from mental health problems. Could you provide an update on whether this funding has been, and is being, used to provide this expert care and support to veterans, and, importantly, to their families as well?
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Y flwyddyn diwethaf, rhoddwyd £0.5 miliwn ychwanegol i BILI yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cyflogi clinigydd profiadol i weithio ar helpu a thrin cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r cyllid hwn wedi ei ddefnyddio, ac yn cael ei ddefnyddio, i ddarparu'r gofal a'r cymorth arbenigol hwn i gyn-filwyr, ac, yn bwysig, i'w teuluoedd hefyd?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
That funding now forms part of the mental health ring-fenced LHB allocation. The reports from 2010 to 2012 show that waiting times from assessment to treatment have improved, falling from 151 days in 2010-11 to 126 days in 2011-12. The average referral-to-treatment time is now 71 days. Therefore, the money is part of the mental health ring-fenced moneys, and we can see that the referral-to-treatment times are dropping. That suggests to me that the money is being used as it should.
- Mae'r cyllid hwnnw'n rhan o'r dyraniad BILI sydd wedi'i neilltuo i iechyd meddwl erbyn hyn. Mae'r adroddiadau o 2010 i 2012 yn dangos bod amseroedd aros o asesiad i driniaeth wedi gwella, gan ostwng o 151 diwrnod yn 2010-11 i 126 diwrnod yn 2011-12. 71 diwrnod yw'r amser atgyfeirio-i-driniaeth ar gyfartaledd bellach. Felly, mae'r arian yn rhan o'r arian a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl, a gallwn weld bod yr amseroedd atgyfeirio-i-driniaeth yn gostwng. Mae hynny'n awgrymu i mi bod yr arian yn cael ei ddefnyddio fel y dylai.
- 13:32 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I know that you will agree as First Minister that, in assessing the delivery of any service, you have to assess need, and then assess the effectiveness of delivery. Therefore, what assessment is the Welsh Government undertaking, bearing in mind previous answers from Ministers that the Welsh Government does not hold data on the number of ex-forces personnel who might fall into this category in Wales? I have been able to obtain information from Professor Bisson under the Freedom of Information Act 2000 that shows that only 24 service user feedback forms, I believe, were received by the service. Therefore, what analysis has the Welsh Government undertaken to ensure the effective targeting of that £0.5 million a year?
- Gwn y byddwch yn cytuno, fel y Prif Weinidog, wrth asesu darpariaeth unrhyw wasanaeth, bod yn rhaid i chi asesu angen, ac yna asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Felly, pa asesiad mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal, gan gofio atebion blaenorol gan Weinidogion nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw data ar y nifer o gyn-bersonél y lluoedd a allai fod yn y categori hwn yng Nghymru? Rwyf wedi gallu cael gwybodaeth gan yr Athro Bisson dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n dangos mai dim ond 24 o ffurflenni adborth defnyddwyr gwasanaeth, rwy'n credu, a dderbyniwyd gan y gwasanaeth. Felly, pa ddadansoddiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i sicrhau bod y £0.5 miliwn hwnnw y flwyddyn yn cael ei dargedu'n effeithiol?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
There is a need to ensure that there is referral down the line in terms of accessing services. However, as I mentioned in my answer to Lindsay Whittle, our specialist health and wellbeing service is unique in the UK, and the commitment that we have made—which was reiterated by the Minister for health last week—remains as strong as ever.
- Mae angen sicrhau bod atgyfeirio yn digwydd ar hyd y ffordd o ran cael mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, fel y soniais yn fy ateb i Lindsay Whittle, mae ein gwasanaeth iechyd a lles arbenigol yn unigryw yn y DU, ac mae'r ymrwymiad yr ydym ni wedi ei wneud—a ail-gadarnhawyd gan y Gweinidog Iechyd yr wythnos diwethaf—yn parhau i fod mor gryf ag erioed.

13:33 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rai wythnosau yn ôl, bu i mi gyfarfod â Healing the Wounds, sydd wedi ei lleoli ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, yn ein hardal ni. Mae wedi creu cynllun gyda gwahanol asiantaethau, gan gynnwys iechyd, gofal ac addysg, er mwyn ei rhoi gerbron y Llywodraeth ac er mwyn hwyluso pobl yn y sefyllfa hon. A fydddech yn barod i gwrdd â'r elusen hon i drafod sut y gall ymwneud â'r hyn y mae'r Llywodraeth eisoes yn ei wneud yn y sector pwysig hwn?

First Minister, a few weeks ago, I met Healing the Wounds, which is based in Bridgend, in our area. It has come up with a scheme with various agencies, including health, social care and education, in order to put it before the Government and to facilitate and help people in this situation. Would you be willing to meet this charity to discuss how it can involve itself in what the Government is already doing in this important sector?

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'n dibynnu pwy ydynt fel elusen. Mae sawl elusen yn yr ardal, ac mae tua 400 o elusennau ar hyn o bryd yn delio â'r rhai sydd wedi bod yn y fyddin. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried pwy yw er mwyn gallu rhoi ateb cadarn o ran a allaf gwrdd â'r elusen.

It depends who it is as a charity. I know that there are number of charities in the area, and there are approximately 400 charities at present dealing with those who have been in the military. It is very important that we consider who it is in order to give a firm answer as to whether I can meet the charity.

Cydsyniadau Ynni

13:34 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch rhoi ystyriaeth bellach i ddatganoli cydsyniadau ynni yng Nghymru? OAQ(4)1026(FM)

2. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding further consideration of the devolution of energy consents in Wales? OAQ(4)1026(FM)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Many. I repeated my call to the UK Government for further devolution of consenting powers in February.

Llawer. Ailadroddais fy ngalwad i Lywodraeth y DU am ddatganoli pellach o bwerau cydsynio ym mis Chwefror.

13:34 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer. Over the past two weeks, I have had meetings with the developers of marine-based energy schemes—the Atlantic Array and Swansea bay tidal lagoon are examples. Both those schemes are over 1 MW, and that 1 MW figure is applicable to offshore projects. Therefore, they would be considered by the Department of Energy and Climate Change in Westminster. This variation creates uncertainty among developers and can lead to many not investing in Wales. What discussions have you had with UK Ministers to provide at least an equal footing between onshore and offshore schemes in Wales, and to consider the transfer of all energy development applications in Welsh waters to the Welsh Government?

Diolch i chi am yr ateb yna. Dros y bythefnos ddiwethaf, rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda datblygwyr cynlluniau ynni'r môr—mae Arae'r Iwerydd a morlyn llanw bae Abertawe yn enghreifftiau. Mae'r ddau gynllun hwnnw dros 1 MW, ac mae'r ffigur 1 MW hwnnw'n berthnasol i brosiectau ar y môr. Felly, byddent yn cael eu hystyried gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn San Steffan. Mae'r amrywiad hwn yn creu ansicrwydd ymhlith datblygwyr a gall arwain at i lawer beidio â buddsoddi yng Nghymru. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Gweinidogion y DU i sicrhau bod sefyllfa gyfartal, o leiaf, rhwng cynlluniau ar y tir ac ar y môr yng Nghymru, ac i ystyried trosglwyddo'r holl geisiadau datblygu ynni yn nyfroedd Cymru i Lywodraeth Cymru?

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have made this point ad nauseam to the UK Government. The response that we have consistently received is that this is a matter for the Silk commission. We have provided our evidence to part 2 of the Silk commission and its work and we look forward to there being a sensible outcome.

Rydym ni wedi gwneud y pwynt hwn drosodd a throsodd i Lywodraeth y DU. Yr ymateb yr ydym ni wedi ei dderbyn yn gyson yw mai mater i gomisiwn Silk yw hwn. Rydym ni wedi darparu ein tystiolaeth i ran 2 comisiwn Silk a'i waith ac edrychwn ymlaen at gael canlyniad synhwyrol.

- 13:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If the Welsh Government is looking to centralise energy power, I am interested in the issue of capacity. Stephen Lovegrove, the new permanent secretary to DECC, is very conscious about the real need to develop skills within his department, particularly commercial skills in law, energy, economics, project management and contract negotiations. He is also piloting outsourcing DECC's policy-making work. What aspects of capacity have you examined in developing your business case, and how much will developing that capacity cost?
- Os mai nod Llywodraeth Cymru yw canoli pŵer o ynni, mae gen i ddiddordeb yn y mater o allu. Mae Stephen Lovegrove, ysgrifennydd parhaol newydd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, yn ymwybodol iawn o'r angen gwirioneddol i ddatblygu sgiliau yn ei adran, yn enwedig sgiliau masnachol ym meysydd y gyfraith, ynni, economeg, rheoli prosiectau a thrafodaethau contract. Mae hefyd yn treialu rhoi gwaith llunio polisï'r Adran i gontractau allanol. Pa agweddau ar allu ydych chi wedi eu harchwilio wrth ddatblygu eich achos busnes, a faint fydd datblygu'r gallu hwnnw yn ei gostio?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We already have the capacity; we already have the officials in place. I do not follow what the Member says when he talks about centralising powers that are already centralised in London. The reality is that we need to have a level playing field with Scotland at least; we see that Scotland is in a situation where it has proper executive control over energy consenting, particularly over the renewables obligation certificates, which give it a financial advantage. That situation, whereby Wales is at a disadvantage compared to Scotland and, indeed, Northern Ireland, cannot be allowed to continue.
- Mae'r gallu gennym eisoes; mae'r swyddogion ar gael gennym eisoes. Nid wyf yn dilyn yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud pan ei fod yn sôn am ganoli pwerau sydd wedi'u canoli yn Llundain eisoes. Y gwir amdani yw bod angen i ni gael yr un chwarae teg â'r Alban o leiaf; rydym yn gweld bod yr Alban mewn sefyllfa lle mae ganddi reolaeth weithredol go iawn dros gysynio ynni, yn enwedig dros y tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy, sy'n rhoi mantais ariannol iddi. Ni ellir caniatáu i'r sefyllfa honno, lle mae Cymru dan anfantais o'i chymharu â'r Alban ac, yn wir, Gogledd Iwerddon, barhau.
- 13:36 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae Plaid Cymru wedi bod yn galw am y pwerau hyn ers blynyddoedd ac felly'n cefnogi'ch cais i'r Llywodraeth i ddatganoli'r pwerau hyn. Rydych yn dweud eich bod wedi gwneud ceisiadau ad nauseam i'r Llywodraeth yma. A allwch esbonio pa un ai y gwnaethoch geisiadau ad nauseam i'r Llywodraeth Lafur diwethaf, a pham felly na ddatganolwyd y pwerau hyn bryd hynny?
- Plaid Cymru has been calling for these powers for years and therefore supports your bid to the Government for these powers to be devolved. You have said that you have made bids ad nauseam to this Government. Can you explain whether you made the same bids ad nauseam to the last Labour Government, and why, therefore, were these powers not devolved at that point?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Do. Mae hynny'n wir. Gwnaethpwyd y cais hwn i Lywodraethau o bob lliw, os caf ddweud hynny. Nawr, wrth gwrs, mae proses ffurfiol gyda ni o dan rhan 2 o Silk, a gobeithiwn y bydd comisiwn Silk yn ystyried y sefyllfa a sicrhau bod Cymru yn yr yn sefyllfa â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- We did. That is true. That bid has been made to Governments of all hues, if I can say that. Now, of course, we have a formal process under part 2 of Silk, and we hope that the Silk commission will consider the situation and ensure that Wales is in the same situation as England, Scotland and Northern Ireland.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- First Minister, I spoke to a recently retired, experienced former chief ambulance worker, who joined the service in 1977. He said that staff are overstretched and do not have time to train, and that was confirmed by the McClelland report this morning. This has been highlighted as an issue on the ambulance service's own risk register for quite some time. First Minister, will you now agree with Plaid Cymru that better workforce planning would improve the patient experience and save lives?
- Brif Weinidog, siaradais â chyn-brif weithiwr ambiwlans profiadol a oedd wedi ymdeol yn ddiweddar, a ymunodd â'r gwasanaeth yn 1977. Dywedodd fod aelodau staff dan bwysau ac nad oes ganddynt amser i hyfforddi, a chadarnhawyd hynny gan adroddiad McClelland y bore yma. Amlygwyd hyn fel problem ar gofrestr risg y gwasanaeth ambiwlans ei hun ers cryn amser. Brif Weinidog, a wnewch chi gytuno nawr â Phlaid Cymru y byddai cynllunio gweithlu gwell yn gwella profiad y claf ac yn achub bywydau?

- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We have the McClelland review, which has only just reported, and the Minister will be taking that review into account in terms of assessing and pointing the way forward.
Mae adolygiad McClelland gennym, sydd ddim ond newydd gael ei gyhoeddi, a bydd y Gweinidog yn cymryd yr adolygiad hwnnw i ystyriaeth o ran asesu a dangos y ffordd ymlaen.
- 13:38 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Another reason why our ambulance service underperforms is a lack of communication and accountability between different parts of the health service. Much could be improved in my view by separating patient transport from emergency services and by improving integration. Real integration would involve a national emergency service that was locally or regionally delivered, including the police and the fire services. Is that a model that you would be prepared to consider?
Un rheswm arall pam mae ein gwasanaeth ambiwlans yn tanberfformio yw diffyg cyfathrebu ac atebolrwydd rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd. Yn fy marn i, gellid gwella llawer o bethau trwy wahanu cludiant cleifion oddi wrth y gwasanaethau brys a thrwy wella integreiddio. Byddai integreiddio go iawn yn golygu gwasanaeth brys cenedlaethol a ddarperir yn lleol neu'n rhanbarthol, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau tân. A yw hwnnw'n fodel y byddech yn barod i'w ystyried?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The ambulance service already follows that model. With the police and fire service, there would need to be a national fire service in that regard, and, following the devolution of the police, a national police service in Wales, rather than four different police services. That would certainly take some planning, but, in principle, it would make sense for there to be a nationally-provided service that is integrated. We see an example of it in the control centre in St Asaph, where there is that level of integration between emergency services.
Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn dilyn y model yna eisoes. O ran gwasanaeth yr heddlu a'r gwasanaeth tân, byddai angen gwasanaeth tân cenedlaethol yn hynny o beth, ac, ar ôl datganoli'r heddlu, byddai angen gwasanaeth heddlu cenedlaethol yng Nghymru, yn hytrach na phedwar gwahanol wasanaeth heddlu. Byddai hynny'n sicr yn golygu cryn dipyn o waith cynllunio, ond, mewn egwyddor, byddai'n gwneud synnwyr i gael gwasanaeth a ddarperir yn genedlaethol sydd wedi'i integreiddio. Rydym yn gweld enghraifft o hynny yn y ganolfan reoli yn Llanellwyr, lle ceir y lefel honno o integreiddio rhwng gwasanaethau brys.
- 13:39 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer; I welcome that thinking, First Minister. While the eight-minute ambulance arrival target might not be a perfect measure, it was missed quite substantially in March. Not one single local authority area reached the 65% target. Where I live, in Rhondda Cynon Taf, just 42.1% of ambulances arrived within the target time. These figures are worse, not in rural areas, but across the Valleys, with Merthyr at 43%, Caerphilly at 46% and Bridgend at 45%. First Minister, targets are one thing, but outcomes are, of course, much more important. Can you tell us, therefore, how you can say that ambulance response times will be improved by removing A&E services that are serving the Valleys?
Diolch i chi am yr ateb yna; rwy'n croesawu'r meddylfryd yna, Brif Weinidog. Er efallai nad yw'r targed cyrraedd o wyth munud i ambiwlansys yn fesur perffaith, fe'i methwyd o gryn bellter ym mis Mawrth. Ni chyrrhaeddodd yr un ardal awdurdod lleol y targed o 65%. Ble rydw i'n byw, yn Rhondda Cynon Taf, dim ond 42.1% o ambiwlansys gyrrhaeddodd o fewn yr amser targed. Mae'r ffigurau hyn yn waeth, nid mewn ardaloedd gwledig, ond ar draws y Cymoedd, gan fod y ffigur ar gyfer Merthyr yn 43%, Caerffili yn 46% a Phen-y-bont ar Ogwr yn 45%. Brif Weinidog, mae targedau yn un peth, ond mae canlyniadau, wrth gwrs, yn llawer pwysicach. A allwch chi ddweud wrthym, felly, sut y gallwch chi ddweud y bydd amseroedd ymateb ambiwlansys yn cael eu gwella trwy gael gwared ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys sy'n gwasanaethu'r Cymoedd?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
A&E services are provided in different ways, of course. If someone has a problem with a head injury, they will be taken to the Heath hospital. If someone has a problem with burns, they are taken straight to Morriston Hospital. They are not necessarily taken to the nearest A&E unit; they are taken to where the best treatment is available. In terms of ambulance response times, clearly there is a need for significant improvement, and I know that the Minister is examining a number of options as to how that might be done.
Darperir gwasanaethau damweiniau ac achosion brys mewn gwahanol ffyrdd, wrth gwrs. Os oes gan rywun broblem gydag anaf i'r pen, byddant yn cael eu cludo i ysbyty'r Mynydd Bychan. Os oes gan rywun broblem gyda llosgiadau, cânt eu cludo'n syth i Ysbyty Treforys. Nid ydynt yn cael eu cludo i'r uned damweiniau ac achosion brys agosaf o reidrwydd; cânt eu cludo i ble mae'r driniaeth orau ar gael. O ran amseroedd ymateb ambiwlansys, mae'n amlwg bod angen gwella'n sylweddol, a gwn fod y Gweinidog yn archwilio nifer o opsiynau o ran sut y gellid gwneud hynny.

13:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, before I ask you a question, I am sure you would like to join me in congratulating the excellent Welsh representation in the British and Irish Lions team, which was announced this morning. For a small country to have 15 players and the captaincy, as well as the Welsh coach provided, will make a really exciting summer of sport for everyone on these shores. I am sure that we send our congratulations to them.

Turning to my first question, could you indicate what importance you attach, as First Minister, to the setting of Government targets, and, in particular, to the organisations providing the services meeting those targets?

Brif Weinidog, cyn i mi ofyn cwestiwn i chi, rwy'n siŵr yr hoffech chi ymuno â mi i longyfarch y gynrychiolaeth wych o Gymru yn nhîm Llewod Prydain ac Iwerddon, a gyhoeddwyd y bore yma. Bydd y ffaith bod gan wlad fach 15 o chwaraewyr a'r capten, yn ogystal â hyfforddwr Cymru, yn ei gwneud yn haf cyffrous o chwaraeon i bawb ar y glannau hyn. Rwy'n siŵr ein bod yn anfon ein llongyfarchiadau atynt.

Gan droi at fy nghwestiwn cyntaf, a allech chi nodi pa mor bwysig, yn eich barn chi fel y Prif Weinidog, yw bod y Llywodraeth yn gosod targedau, ac, yn enwedig, sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n darparu'r gwasanaethau yn bodloni'r targedau hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

I join the leader of the opposition in wishing the best of luck to the Lions as they go to Australia. It is marvellous to see such a large Welsh contingent. History shows that the Lions tend to do better when there is a larger Welsh contingent.

With regard to his question about targets, we have our indicators, of course, in the programme for government, and the report will be made available to Members shortly.

Ymunaf ag arweinydd yr wrthblaid i ddymuno pob lwc i'r Llewod wrth iddynt fynd i Awstralia. Mae'n wych gweld mintai mor fawr o Gymru. Mae hanes yn dangos bod y Llewod yn tueddu i wneud yn well pan fydd mintai fwy o Gymru.

O ran ei gwestiwn am dargedau, mae ein dangosyddion gennym, wrth gwrs, yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, a bydd yr adroddiad ar gael i'r Aelodau'n fuan.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:41

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. One of the issues is that all of the Government's targets, or the key targets that were released last week, for cancer treatment, A&E and ambulance services, were missed, and by a country mile, I might add. If you take access to cancer treatment, that target has not been hit once since 2008. If you take access to A&E treatment within four hours, that has not been hit since 2009. We are now coming up to your second anniversary in Government. In fairness to you, you outlined that the fourth Assembly, and your Government in particular, would be about delivery. Yet, on these key indicators, your own Government indicators, you are not meeting the targets. Does that mean that the first two years of your Government have been a failure in delivery?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r problemau yw bod holl dargedau'r Llywodraeth, neu'r targedau allweddol a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, ar gyfer trin canser, gwasanaethau damweiniau ac achosion brys ac ambiwlans wedi eu methu, a hynny o gryn bellter, dylwn ddweud. Os ystyriwch chi fynediad at driniaeth canser, nid yw'r targed wedi ei gyflawni unwaith ers 2008. Os ystyriwch chi fynediad at driniaeth damweiniau ac achosion brys o fewn pedair awr, ni chyrrhaeddwyd y targed hwnnw ers 2009. Rydym yn agosáu at ddwy flynedd ers i chi fod mewn Llywodraeth. Er tegwch i chi, amlinellwyd gennych y byddai'r pedwerydd Cynulliad, a'ch Llywodraeth chi yn benodol, yn ymwneud â chyflawni. Eto i gyd, yn ôl y dangosyddion allweddol, dangosyddion eich Llywodraeth eich hun, nid ydych yn cyflawni'r targedau. A yw hynny'n golygu bod dwy flynedd gyntaf eich Llywodraeth wedi bod yn fethiant o ran cyflawni?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

No indeed. The targets speak for themselves, but it is also right to say that there have been financial pressures that have been imposed on the Welsh Government by the UK Government. As a result, there have been difficulties in delivering to the level that we would want. Nevertheless, the Minister for Health and Social Services is carefully examining the current health budget to see what could be done to improve the figures.

Nac ydy yn wir. Mae'r targedau yn siarad drostynt eu hunain, ond mae hefyd yn iawn i ddweud y bu pwysau ariannol a roddwyd ar Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, bu anawsterau o ran cyflawni i'r lefel y byddem yn dymuno ei weld. Serch hynny, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych yn ofalus ar y gyllideb iechyd gyfredol i weld beth y gellid ei wneud i wella'r ffigurau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, on 14 occasions when I have asked you questions on health issues specifically, you have referred to the UK Government as an excuse for failure to deliver. That cannot be an acceptable way to respond on issues over which you have direct control. These are your own Government targets, set by yourself. In fairness, and I paid credit to you, at the start of the fourth Assembly, you said that your Government was going to be about delivery, and you set up a delivery unit that you were responsible for. I gave you three key targets set by your Government. At least two of those targets have not been hit in the last four to five years. I put it to you again: if you cannot hit those targets, how can you say that your Government has been a success? If you are not hitting those targets, is it not time for you to re-evaluate your delivery, so that, going forward, for the next 12 months, the people of Wales can have the services that they depend on and rightly demand?

Brif Weinidog, ar 14 achlysur pan rwyf wedi gofyn cwestiynau am faterion iechyd yn benodol i chi, rydych chi wedi cyfeirio at Lywodraeth y DU fel esgus am fethu â chyflawni. Ni all hynny fod yn ffordd dderbyniol o ymateb ar faterion y mae gennych reolaeth uniongyrchol drostynt. Targedau eich Llywodraeth eich hun yw'r rhain, a bennwyd gennych chi eich hun. I fod yn deg, ac rwy'n eich canmol am hyn, nodwyd gennych ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad bod eich Llywodraeth yn mynd i ymwneud â chyflawni, a sefydlwyd uned gyflawni gennych yr oeddech chi'n gyfrifol amdani. Rhoddais dri tharged allweddol a bennwyd gan eich Llywodraeth i chi. Ni chyflawnwyd o leiaf dau o'r targedau hynny yn ystod y pedair i bum mlynedd diwethaf. Gofynnaf i chi eto: os nad ydych yn gallu cyflawni'r targedau hynny, sut allwch chi ddweud bod eich Llywodraeth wedi bod yn llwyddiant? Os nad ydych yn cyflawni'r targedau hynny, onid yw'n bryd i chi ail-werthuso eich darpariaeth, fel y gall pobl Cymru, wrth symud ymlaen yn ystod y flwyddyn nesaf, dderbyn y gwasanaethau y maen nhw'n dibynnu arnynt ac y maen nhw'n iawn i fynnu eu bod yn eu cael?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I did listen to the speakers at the Conservative party conference at the weekend. They talked about nothing but Wales, even though they came from elsewhere in the UK. The Prime Minister talked about nothing but Wales. The Secretary of State for Wales talked about nothing but Wales, about matters that have nothing to do with him. They spent a lot of their time criticising the Welsh Government. Well, that is fair, it is a free country, but, equally, they are going to get it back in criticism of what the UK Government has done. You cannot have it both ways. We ask people to judge us on our programme for government, and a report on that will be published over the course of the next few weeks. Then we will see the progress that has been made across the board.

Gwrandawais ar y siaradwyr yng nghynhadledd y blaid Geidwadol dros y penwythnos. Nid oedden nhw'n siarad am unrhyw beth ond Cymru, er eu bod yn dod o fannau eraill yn y DU. Siaradodd y Prif Weinidog am ddim byd ond Cymru. Siaradodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ddim byd ond Cymru, am faterion sydd â dim i'w wneud ag ef. Treuliodd llawer o'u hamser yn beirniadu Llywodraeth Cymru. Wel, mae hynny'n deg, mae'n wlad rydd, ond, yn yr un modd, maen nhw'n mynd i'w chael hi yn ôl mewn beirniadaeth o'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi ei wneud. Ni allwch chi ei chael hi'r ddwy ffordd. Rydym yn gofyn i bobl ein barnu ni ar ein rhaglen ar gyfer llywodraethu, a bydd adroddiad ar hynny'n cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Yna, byddwn yn gweld y cynnydd sydd wedi ei wneud ar draws y bwrdd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, in 2011 your then Minister for local government introduced a law to improve scrutiny in local government, saying that good governance comes about through good scrutiny. Your Government is issuing guidance to improve scrutiny at a local level because it does not think that councils do that well enough. First Minister, how can you justify removing three of your party members from a committee just because they disagreed with your Government?

Brif Weinidog, yn 2011 cyflwynodd eich Gweinidog llywodraeth leol ar y pryd gyfraith i wella craffu mewn llywodraeth leol, gan ddweud bod llywodraethu da yn digwydd trwy graffu da. Mae eich Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau i wella craffu ar lefel leol gan nad yw'n credu bod cynghorau'n gwneud hynny'n ddigon da. Brif Weinidog, sut allwch chi gyfiawnhau tynnu tri o aelodau eich plaid oddi ar bwyllgor dim ond oherwydd eu bod wedi anghytuno â'ch Llywodraeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

These are not matters for me as First Minister.

Nid yw'r rhain yn faterion i mi fel y Prif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>The BBC is reporting that these three Members were removed from that committee by these mysterious sources because of their views on smacking. It said that it is difficult to think of another explanation for why there would be a whole-scale change of personnel at such short notice. Could you give an explanation as to who removed them from that committee, and why?</p>	<p>Mae'r BBC yn adrodd bod y tri Aelod hyn wedi cael eu tynnu oddi ar y pwyllgor hwnnw gan y ffynonellau dirgel hyn oherwydd eu barn ar daro plant. Dywedodd ei bod yn anodd meddwl am esboniad arall pam y byddai newid llwyr o bersonél ar gymaint o fyr rybudd. A allech chi roi esboniad o bwy a'i tynnodd nhw o'r pwyllgor hwnnw, a pham?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Now the leader of the Welsh Liberal Democrats is saying that, because the BBC has said it, it must be right. Has she no original ideas of her own? I have just given her the answer. It is not my job as First Minister to organise who sits on committees.</p>	<p>Mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dweud nawr, oherwydd bod y BBC wedi ei ddweud, mae'n rhaid ei fod yn iawn. Oes ganddi unrhyw syniadau gwreiddiol ei hun? Rwyf newydd roi'r ateb iddi. Nid fy swydd i fel y Prif Weinidog yw trefnu pwy sy'n eistedd ar bwyllgorau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>If I am wrong, and the BBC is wrong, maybe you would tell the Chamber who removed those Members from that committee, and why. What they were doing was scrutinising the biggest piece of legislation this Assembly term—one that is making fundamental changes to children's social services and children's rights. The point is that that legislation is flawed, and the Children's Commissioner for Wales has said this:</p> <p>'What I expected to see on the Bill—which I am not seeing—is how children and young people's best interests are being protected'.</p> <p>You cannot remove the children's commissioner, First Minister, so how are you going to address his concerns?</p>	<p>Os wyf i'n anghywir, a bod y BBC yn anghywir, efallai yr hoffech ddweud wrth y Siambr pwy dynnodd yr Aelodau hynny oddi ar y pwyllgor hwnnw, a pham. Yr hyn roedden nhw'n ei wneud oedd craffu ar y darn mwyaf o ddeddfwriaeth y tymor Cynulliad hwn—un sy'n gwneud newidiadau sylfaenol i wasanaethau cymdeithasol i blant a hawliau plant. Y pwynt yw bod y ddeddfwriaeth yn ddiffygiol, ac mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud hyn:</p> <p>Yr hyn yr oeddwn yn disgwyl ei weld ar y Bil—ac nad wyf yn ei weld—yw sut y mae lles plant a phobl ifanc yn cael ei ddiogelu.</p> <p>Ni allwch chi gael gwared ar y comisiynydd plant, Prif Weinidog, felly sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'i bryderon?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Now she is a mouthpiece for the BBC and for the children's commissioner; she has no original ideas of her own. What a waste of three questions. Three questions could have been asked of the First Minister, and she has asked questions that are of no relevance at all to the role of First Minister. I would have thought that the leader of the Welsh Liberal Democrats, after 14 years in this place, would have learned that by now.</p>	<p>Mae hi'n llefarydd ar ran y BBC a'r comisiynydd plant nawr; nid oes ganddi unrhyw syniadau gwreiddiol ei hun. Am wastraff o dri chwestiwn. Ceir gofyn tri chwestiwn i'r Prif Weinidog, ac mae hi wedi gofyn cwestiynau nad ydynt yn berthnasol o gwbl i swyddogaeth y Prif Weinidog. Byddwn wedi meddwl y byddai arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ar ôl 14 mlynedd yn y lle hwn, wedi dysgu hynny erbyn hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Busnesau Bach a Chanolig</p>		<p>Small and Medium-sized Enterprises</p>	
13:47	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1015(FM)</i></p>	<p><i>3. What actions are being taken by the Welsh Government to support SMEs in South Wales Central? OAQ(4)1015(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We offer a wide range of support to small and medium-sized enterprises to actively support sustainability and growth. That support includes access through the new Business Wales helpline.
- 13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer, First Minister. One of the things that the Welsh Government has done, in fairness, is bring forward two enterprise zones for South Wales Central. However, when you look at the outcomes that those enterprise zones have achieved to date, you will see that it is impossible to find out how many jobs have been created, how much Government money has gone into those enterprise zones, and more importantly, how many businesses have re-located to those enterprise zones. Will you please commit, First Minister, to marking out those clear indicators so that businesses can have confidence that, when these enterprise zones get up and running to their full capacity, they are achieving the outcomes that we support on this side of the Chamber, which are about having vibrant enterprise zones rather than just window dressing?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I noticed the comments that were made over the weekend—that the enterprise zones in Wales are Soviet-style bodies, apparently. Would you believe that? A politburo chaired by Nick Bourne runs one of the enterprise zones. We have no problem with the examination of the enterprise zones' success. How far have they gone in England, in reality? We are working hard, as is the Minister, to make sure that enterprise zones are a success in Wales, and of course the outcomes of those enterprise zones in terms of jobs created will be there for all to see.
- 13:48 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, I wonder whether you are encouraged by the recent quarterly growth statistics, which show that Wales is outperforming the UK in production. The last quarter saw almost a 1% fall in the UK, but a rise of 2.7% in Wales. In construction, contrary to what the Secretary of State for Wales was indicating over the weekend, whereas the UK saw a fall of 2.6%, Wales grew by 8.9%. Does he think that it might be appropriate to remind the Secretary of State for Wales of the true situation within Wales?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member has just done that. The Secretary of State was fond, over the weekend, of interfering in matters that the people of Wales decided in two referendums he should not. However, nevertheless, it is absolutely right to say that the construction sector in Wales is doing far better than in the UK as a whole, which of course shows that the comments that were made over the weekend about some kind of extra-regulatory burden were way off the mark.
- Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint i gefnogi cynaliadwyedd a thwf yn ymarferol. Mae'r gefnogaeth honno'n cynnwys mynediad trwy linell gymorth newydd Busnes Cymru.
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r pethau y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud, a bod yn deg, yw cyflwyno dwy ardal fenter ar gyfer Canol De Cymru. Fodd bynnag, pan fyddwch yn edrych ar y canlyniadau y mae'r ardaloedd menter hynny wedi eu cyflawni hyd yn hyn, byddwch yn gweld ei bod yn amhosibl darganfod faint o swyddi sydd wedi eu creu, faint o arian y Llywodraeth a roddwyd i'r ardaloedd menter hynny, ac yn bwysicach, faint o fusnesau sydd wedi adleoli i'r ardaloedd menter hynny. A wnewch chi ymrwymo, os gwelwch yn dda Brif Weinidog, i nodi'r dangosyddion eglur hynny fel y gall busnesau fod yn hyderus, pan fydd yr ardaloedd menter hyn yn cael eu sefydlu a'u rhedeg i'w gallu llawn, eu bod yn cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu cefnogi ar yr ochr hon i'r Siambur, sy'n golygu cael ardaloedd menter bywiog yn hytrach na dim ond sioe?
- Sylwais ar y sylwadau a wnaed dros y penwythnos—mai cyrff ar ffurf rhai Sofietaidd, mae'n debyg, yw'r ardaloedd menter yng Nghymru. A fydddech chi'n credu hynny? Politbiwro a gadeirir gan Nick Bourne sy'n rhedeg un o'r ardaloedd menter. Nid oes gennym unrhyw broblem gydag archwilio llwyddiant yr ardaloedd menter. Pa mor bell maen nhw wedi mynd yn Lloegr, mewn gwirionedd? Rydym ni'n gweithio'n galed, fel y mae'r Gweinidog, i sicrhau bod ardaloedd menter yn llwyddiant yng Nghymru, ac wrth gwrs bydd canlyniadau'r ardaloedd menter hynny o ran y swyddi sy'n cael eu creu yno i bawb eu gweld.
- Brif Weinidog, roeddwn i'n meddwl tybed a ydych chi'n cael eich calonogi gan yr ystadegau twf chwarterol diweddar, sy'n dangos bod Cymru'n perfformio'n well na'r DU o ran cynhyrchu. Bu gostyngiad o bron i 1% yn y DU yn ystod y chwarter diwethaf, ond cynnydd o 2.7% yng Nghymru. Ym maes adeiladu, yn groes i'r hyn roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei ddweud dros y penwythnos, tyfodd Cymru o 8.9% tra bu gostyngiad o 2.6% yn y DU. A yw'n credu y gallai fod yn briodol atgoffa Ysgrifennydd Gwladol Cymru o'r sefyllfa wirioneddol yng Nghymru?
- Mae'r Aelod newydd wneud yn union hynny. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hoff, dros y penwythnos, o ymyrryd mewn materion y mae pobl Cymru wedi penderfynu mewn dau refferendwm na ddylai ymyrryd ynddynt. Fodd bynnag, serch hynny, mae'n gwbl gywir i ddweud bod y sector adeiladu yng Nghymru yn gwneud yn llawer gwell nag yn y DU yn gyffredinol, sydd wrth gwrs yn dangos bod y sylwadau a wnaed dros y penwythnos am ryw fath o faich reoleiddio ychwanegol ymhell iawn o'u lle.

13:49 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Figures released by Finance Wales have shown that investment has fallen by £10 million compared with three years ago. In meetings with the Federation of Small Businesses and with individual conversations with small business owners, the difficulty of accessing small loans crops up time and again. Do you therefore agree with Plaid Cymru and also with Laurence Kahn, the owner of the Welsh Soup Company who was quoted in the 'Western Mail' this morning, that a publicly owned bank of Wales is much needed to provide loans at competitive rates to small businesses?

Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Gyllid Cymru wedi dangos bod buddsoddiad wedi gostwng o £10 miliwn o'i gymharu â thair blynedd yn ôl. Mewn cyfarfodydd gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach ac yn ystod sgysrsiau unigol gyda pherchnogion busnesau bach, mae'r anhawster o gael mynediad at fenthyciadau bach yn codi dro ar ôl tro. A ydych chi'n cytuno felly â Phlaid Cymru a hefyd gyda Laurence Kahn, perchennog y Cwmni Cawl Cymreig a ddyfynnwyd yn y 'Western Mail' y bore yma, bod wir angen banc Cymru sy'n eiddo cyhoeddus er mwyn darparu benthyciadau ar gyfraddau cystadleuol i fusnesau bach?

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The idea of a bank-of-Wales-type model is superficially attractive. It is something that the previous Government looked at with Plaid Cymru. There are, of course, obstacles that would need to be overcome. Obstacles in terms of competition and the fact that any bank, I think that I am right in saying, needs about £100 million in reserves before it could even be set up. Those are difficult things to take forward. In terms of Finance Wales, one of the difficulties is that businesses are perhaps not looking for finance at the moment; they are looking to consolidate. We know that some £16 billion of funding is being kept in reserve by SMEs across Britain at the moment. I do not see how a bank along the lines of the model outlined by the leader of Plaid Cymru would particularly help at this time, particularly given the large number of obstacles that would have to be overcome in order to set up such a bank, particularly in terms of its capital reserves.

Mae'r syniad o fodel ar ffurf banc Cymru yn ddeniadol ar yr wyneb. Mae'n rhywbeth yr ystyriodd y Llywodraeth flaenorol gyda Phlaid Cymru. Ceir rhwystrau, wrth gwrs, y byddai angen eu goresgyn. Rhwystrau o ran cystadleuaeth a'r ffaith fod angen tua £100 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ar unrhyw fanc, rwy'n meddwl fy mod yn iawn yn dweud, cyn y gellid ei sefydlu hyd yn oed. Mae'r rheini'n bethau anodd i fwrw ymlaen â nhw. O ran Cyllid Cymru, un o'r anawsterau yw efallai nad yw busnesau yn chwilio am gyllid ar hyn o bryd; maen nhw'n ceisio atgyfnerthu. Rydym yn gwybod bod tua £16 biliwn o gyllid yn cael ei gadw wrth gefn gan fusnesau bach a chanolig ledled Prydain ar hyn o bryd. Nid wyf yn gweld sut y byddai banc ar ffurf y model a amlinellwyd gan arweinydd Plaid Cymru yn helpu ar yr adeg hon, yn enwedig o ystyried y nifer fawr o rwystrau y byddai'n rhaid eu goresgyn er mwyn sefydlu banc o'r fath, yn enwedig o ran ei gronfeydd cyfalaf wrth gefn.

Amgylchedd

13:51 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. Beth yw cynlluniau'r Prif Weinidog i wella'r amgylchedd yn ardal Gogledd Caerdydd? OAQ(4)1027(FM)

4. What plans does the Minister have to enhance the environment in the Cardiff North area? OAQ(4)1027(FM)

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Enhancement of the environment is a key element of our programme for government. Our goal is to ensure that we make the best possible use of, and protect, our valuable resources.

Mae gwella'r amgylchedd yn elfen allweddol o'n rhaglen ar gyfer llywodraethu. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau gwerthfawr, ac yn eu diogelu.

13:51 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The First Minister will be aware of the announcement by the Minister for Housing and Regeneration that Llanishen reservoir in my constituency has been saved from development. The banks are being protected and traffic access has been refused following a long community and cross-party campaign for over 10 years. Does the First Minister agree that the next step forward is for all interested parties to get together to start talking to ensure that this part of Cardiff is restored and preserved for the future?

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol o'r cyhoeddiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio bod cronfa ddŵr Llanisien yn fy etholaeth i wedi cael ei hachub rhag datblygiad. Mae'r glannau'n cael eu diogelu ac mae mynediad i draffig wedi ei wrthod yn dilyn ymgyrch gymunedol a thrawsbleidiol hir am dros 10 mlynedd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai'r cam nesaf ymlaen i'r holl bartion â budd yw dod at ei gilydd i ddechrau siarad er mwyn sicrhau bod y rhan hon o Gaerdydd yn cael ei hadfer a'i diogelu ar gyfer y dyfodol?

- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member will forgive me for not being able, legally, to comment on the application. However, I know that, as a Member, and as somebody who has represented her constituency for many years, she has been more involved than anybody else in representing the views of her constituents on the Llanishen reservoir. It is now important to ensure that the council develops and adopts a local development plans so that the future plans for the site can be set down as early and quickly as possible.
- Bydd yr Aelod yn maddau i mi nad wyf yn gallu rhoi sylwadau ar y cais yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, rwy'n gwybod, fel Aelod, ac fel rhywun sydd wedi cynrychioli ei hetholaeth ers blynyddoedd lawer, ei bod wedi cymryd mwy o ran nag unrhyw un arall mewn cyflwyno sylwadau ei hetholwyr ar gronfa ddŵr Llanisien. Mae'n bwysig sicrhau bellach bod y cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu cynllun datblygu lleol fel y gall cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol gael eu nodi mor gynnar a chyflym â phosibl.
- 13:52 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, would you agree with me that, given the proximity of Cardiff North to the M4 and the limited amount of green space that exists between the two, it is vital, particularly in the Lisvane and Pontprennau areas, that green spaces there are protected and that urban sprawl does not damage the valuable and limited amount of green space in that part of Cardiff? Any plans for additional residential dwellings need to be sensitive to maintaining those green spaces.
- Brif Weinidog, a fydddech chi'n cytuno â mi, o ystyried agosrwydd Gogledd Caerdydd i'r M4 a'r prinder manau gwyrdd sy'n bodoli rhwng y ddau, ei bod yn hanfodol, yn enwedig yn ardaloedd Llysfaen a Phontprennau, bod y manau gwyrdd sydd yno'n cael eu diogelu ac nad yw blderdfw trefol yn difrodi'r manau gwyrdd gwerthfawr a phrin yn y rhan honno o Gaerdydd? Mae angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer anheddau preswyl ychwanegol fod yn ystyriol o gynnal y manau gwyrdd hynny.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Those are all factors that would need to be taken into account by the planning authority. That is why it is so important to ensure that a local development plan is adopted as quickly as possible so that there can be certainty over the course of the next decade.
- Mae'r rhain i gyd yn ffactorau y byddai angen i'r awdurdod cynllunio eu cymryd i ystyriaeth. Dyna pam mae hi mor bwysig sicrhau bod cynllun datblygu lleol yn cael ei fabwysiadu cyn gynted â phosibl fel y gellir cael sicrwydd yn ystod y degawd nesaf.
- 13:53 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I am sure we all welcome the announcement that Llanishen reservoir will be safe. However, do you agree that it is an anomaly that, while we can protect the built part of a reservoir, we cannot actually protect the water in it? Will your Government look at that when it brings forward its planning White Paper in due course?
- Brif Weinidog, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd cronfa ddŵr Llanisien yn ddiogel. Fodd bynnag, a ydych chi'n cytuno ei fod yn anghysondeb, er ein bod yn gallu diogelu'r rhan adeiledig o gronfa ddŵr, na allwn ddiogelu'r dŵr ynddi mewn gwirionedd? A wnaiff eich Llywodraeth ystyried hynny pan fydd yn cyflwyno ei Phapur Gwyn cynllunio maes o law?
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
That is a factor that could be looked at. As I said, I cannot comment on the actual planning issue because it is still within the period of time where the matter might be referred to court for judicial review. Nevertheless, I am aware of what happened there in terms of the water levels, if I can put it that way. It is certainly something that we can give consideration to as we proceed towards the planning Bill.
- Mae hwn yn ffactor y gellid edrych arno. Fel y dywedais, ni allaf wneud sylw ar y mater cynllunio ei hun gan ei fod yn dal i fod o fewn y cyfnod o amser lle gallai'r mater gael ei atgyfeirio i'r llys ar gyfer adolygiad barnwrol. Serch hynny, rwy'n ymwybodol o'r hyn a ddigwyddodd yno o ran y lefelau dŵr, os caf ei roi felly. Mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ei ystyried wrth i ni fwrw ymlaen tuag at y Bil cynllunio.
- Asbestos mewn Ysgolion**
- Abestos in Schools**
- 13:54 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
5. Beth yw barn y Prif Weinidog ynghylch hawl plant a'u rhieni i gael gwybodaeth am asbestos mewn ysgolion a sut mae'r asbestos hynny yn cael ei reoli?
OAQ(4)1020(FM)
- 5. What is the First Minister's position on the right of children and their parents to receive information about the management of asbestos in schools?* OAQ(4)1020(FM)

- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rwy'n nodi pryderon rhieni ac athrawon ynghylch asbestos mewn ysgolion. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o leoliad a chyflwr asbestos ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolygon asbestos ar eu safleoedd i'w galluogi i ymdrin â'r mater hwn.
I recognise the concerns of parents and teachers regarding the presence of asbestos in schools. It is important to be aware of the location and condition of asbestos and local authorities are required to have asbestos surveys undertaken on their premises to enable them to manage this issue.
- 13:54 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Rwyf wedi derbyn ymatebion gan nifer o awdurdodau yn esbonio nad ydynt wedi gwneud unrhyw arolwg ers rhyw ddegawd neu fwy. Gwn fod y Gweinidog addysg wedi mynd i'r afael â'r broblem honno, ond a oes perygl, wrth feddwl bod yr Adran Addysg yn Lloegr wedi cyhoeddi canllawiau newydd ym mis Hydref 2012 sy'n dweud nad ydynt yn briodol i Gymru, bod y newid o ran yr Adran Addysg a'r adran iechyd a diogelwch yn creu problemau ynglŷn â'r sefyllfa yr ydym yn delio â hi yng Nghymru?
I have received responses from a number of authorities explaining that they have not undertaken any surveys for a decade or more. I know that the Minister for education has tackled this problem, but is there a risk, given that the Department for Education in England published new guidelines in October 2012 stating that they are not appropriate for Wales, that the change in terms of the education department and the health and safety department would create problems for us here in Wales?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae'n bwysig dros ben bod yr awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn gwneud asesiad. Os nad ydynt wedi gwneud asesiad ers dros ddegawd, byddai'n werth gwneud asesiad yn awr. Mae'r Gweinidog wedi atgoffa awdurdodau yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud asesiadau cyn gynted â phosibl.
It is extremely important that local authorities ensure that they carry out surveys. If they have done that for a decade or more, then it would certainly be worthwhile doing so now. The Minister has reminded authorities in Wales to ensure that they do undertake these surveys as soon as possible.
- 13:55 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, some surveys have been undertaken, as my colleague has said. However, this has certainly not been communicated to parents. I wonder whether you would agree with the comments of the international expert Professor Julian Peto, who appeared before Westminster's Education Committee and said:
Brif Weinidog, mae rhai arolygon wedi eu cynnal, fel mae fy nghydweithiwr wedi ei ddweud. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw hyn wedi cael ei gyfathrebu i rieni. Tybed a fydddech chi'n cytuno â sylwadau'r arbenigwr rhyngwladol yr Athro Julian Peto, a ymddangosodd gerbron Pwyllgor Addysg San Steffan, ac a ddywedodd:
'all that matters is whether or not kids are breathing in asbestos and, until you find that out, everything else is hot air.'
y cwbl sy'n bwysig yw a yw plant yn anadlu asbestos ai peidio a, tan y byddwch yn darganfod hynny, malu awyr yw popeth arall.
I happen to agree with him completely. As First Minister, will you please oversee this matter so that we ensure that parents know that schools understand the different types of asbestos that they have so that local authorities get on and deal with it?
Digwydd bod, rwyf yn cytuno ag ef yn llwyr. Fel y Prif Weinidog, a wnewch chi oruchwylio'r mater hwn os gwelwch yn dda, fel y gallwn sicrhau bod rhieni yn gwybod bod ysgolion yn deall y gwahanol fathau o asbestos sydd ganddynt fel bod awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen ag yn ymdrin ag ef?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Local authorities have already been reminded of this issue. It should be pointed out that there is no suggestion that there is any danger to children in schools in Wales. It is known that if asbestos is undisturbed, it is safe. It is the dust, especially when asbestos is cut, that causes problems such as mesothelioma, particularly over time. However, it is important that local authorities, if asked by parents about the condition of school buildings, are able to answer and give an assurance that if asbestos is present it is safely contained.
Mae awdurdodau lleol wedi cael eu hatgoffa o'r mater hwn eisoes. Dylid nodi nad oes unrhyw awgrym bod unrhyw berygl i blant mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n hysbys bod asbestos yn ddiogel os nad ymyrrir ag ef. Y llwch, yn enwedig pan fydd asbestos yn cael ei dorri, sy'n achosi problemau fel mesothelioma, yn enwedig dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, os bydd rhieni yn gofyn iddynt am gyflwr adeiladau ysgol, yn gallu ateb a rhoi sicrwydd, os oes asbestos yn bresennol, ei fod yn cael ei reoli'n ddiogel.

13:56

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, a ydych yn cytuno mai un ffordd o leddfu pryderon rhieni yn y cyd-destun hwn, a hefyd osgoi codi bwganod, yw sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael i bawb? Yr wythnos hon, er enghraifft, rwyf wedi cael darn o wybodaeth gan Gyngor Sir Powys, ar ôl apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n dangos bod cyngor Powys wedi cynnal arolwg o bob ysgol, sy'n beth braf i wybod. Pam nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi i bawb yng Nghymru, ar yr un lefel i bob rhiant a phob plentyn, fel ein bod i gyd yn gallu deall y sefyllfa'n well ac wedyn cymryd y camau priodol i ddelio â'r sefyllfa?

First Minister, do you agree that one way of easing the concerns of parents in this context, and to avoid scaremongering, is to make sure that as much information as possible is available to all? For example, this week, I have received a piece of information from Powys County Council, having appealed to the Information Commission under the Freedom of Information Act 2000, that shows that Powys council has conducted a survey of every school, which is good to know. Why is such information not disseminated to everyone in Wales, on the same level for every parent and child, so that we can all understand the situation better and take the appropriate steps to deal with it?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwy'n credu bod hynny'n hollol resymol. Nid wyf yn gweld pam y dylid cwato unrhyw arolygon sy'n cael eu cynnal mewn unrhyw ffordd, felly yr hyn yr ydym yn ei ddweud wrth awdurdodau lleol yw os yw arolygon wedi cael eu cynnal, mae'n bwysig dros ben fod pobl yn deall beth yw canlyniadau'r arolygon hynny er mwyn i rieni allu gwybod beth yw cyflwr yr ysgolion.

I believe that that is completely reasonable. I do not see why they should try to hide in any way any surveys that are undertaken, so what we say to local authorities is that if surveys have been undertaken, it is exceptionally important that people understand the outcomes of those surveys so that parents can know what the state of the schools is.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Manteision Economaidd

Economic Benefits

13:58

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa fanteision economaidd i Gymru y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl eu gweld o ganlyniad i bresenoldeb Dinas Abertawe a Dinas Caerdydd yn Uwchgynghrir Lloegr? OAQ(4)1018(FM)

6. What economic benefits for Wales does the First Minister expect to see as a result of Swansea City and Cardiff City's presence in the Premier League? OAQ(4)1018(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As well as the direct economic benefit from the number of visitors and travelling fans coming to both cities, Swansea, Cardiff and Wales will benefit from the raised profile that the global coverage of the Premier League brings.

Yn ogystal â'r budd economaidd uniongyrchol o nifer yr ymwelwyr a'r cefnogwyr a fydd yn teithio i'r ddwy ddinas, bydd Abertawe, Caerdydd a Chymru yn elwa ar broffil uwch y mae'r sylw byd-eang i Uwch Gynghrair Lloegr yn ei gynnig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope that you are right, First Minister. Swansea City Association Football Club's arrival in the Premier League generated about £58 million for Wales. Although welcome, only £8 million of that was generated in non-football-club activity. With Cardiff City Football Club now facing similar challenges, how can your Government help to improve the wider economic spin-off of both clubs' good news?

Rwy'n gobeithio eich bod yn iawn, Brif Weinidog. Cynhyrchodd dyrchafiad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe i Uwch Gynghrair Lloegr tua £58 miliwn i Gymru. Er bod hyn i'w goesawu, dim ond £8 miliwn o hynny a gynhyrchwyd o ran gweithgarwch nad oedd yn ymwneud â'r clwb pêl-droed. Wrth i Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd wynebu heriau tebyg bellach, sut all eich Llywodraeth helpu i wella'r lles economaidd ehangach yn sgil newyddion da'r ddau glwb?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

You are right to say that £58 has been generated in the Welsh economy by Swansea City, which has created or protected 400 jobs. There has also been a surge in the numbers of students applying to Swansea University as a spin-off of that; I think that we can expect the same in Cardiff. When she visits the Liberty Stadium, no doubt the Member will see that a great deal of advertising exists in the stadium encouraging people to visit Wales; that is something that the Welsh Government supports. We will be looking to see how we can maximise the advantage for Cardiff in future, particularly in terms of improving Wales's visibility in the stadium.

Rydych yn gywir wrth ddweud y cynhyrchwyd £58 miliwn gan glwb Dinas Abertawe i economi Cymru, ac mae hyn wedi creu neu ddiogelu 400 o swyddi. Bu ymchwydd hefyd yn nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais i Brifysgol Abertawe yn sgil hynny; rwy'n meddwl y gallwn ddisgwyl i'r un peth ddiogwydd yng Nghaerdydd. Pan fydd hi'n ymweld â Stadiwm Liberty, mae'n siŵr y bydd yr Aelod yn gweld bod llawer iawn o hysbysebu yn bodoli yn y stadiwm yn annog pobl i ymweld â Chymru; mae hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi. Byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau'r fantais fwyaf posibl i Gaerdydd yn y dyfodol, yn enwedig o ran gwella amlygrwydd Cymru yn y stadiwm.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, do you also welcome Swansea City going into European football through the Europa League and the opportunity that that gives to promote Wales? Do you also welcome the fact that the Premier League is a high-wage business? We should also congratulate Newport County Association Football Club and Wrexham Football Club on getting to the Conference play-off final, but I will not ask you to choose between them.

Brif Weinidog, a ydych chi hefyd yn croesawu'r ffaith fod clwb Dinas Abertawe yn mynd i chwarae pêl-droed Ewropeaidd yng Nghynghrair Europa a'r cyfle y mae hynny'n ei gynnig i hyrwyddo Cymru? A ydych chi hefyd yn croesawu'r ffaith fod yr Uwch Gynghrair yn fusnes cyflog uchel? Dylem hefyd longyfarch Clwb Pêl-droed Casnewydd a Chlwb Pêl-droed Wrecsam ar gyrraedd rownd derfynol gemau ail-gyfle'r Conference, ond nid wyf am ofyn i chi ddewis rhyngddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Please do not do that. [Laughter.] Last week, at a lunch in Swansea, I was asked who I would support if Swansea played Cardiff; I said that I hoped that the football would be the winner. I will be very glad to see a Welsh club playing in league 2 next year. That would be important for Welsh football, and I am sure that the Member will forgive me for not declaring which one I think should be the successful club.

Peidiwch â gwneud hynny da chi. [Chwerthin.] Yr wythnos diwethaf, mewn cinio yn Abertawe, gofynnwyd i mi pwy fyddwn i'n ei gefnogi pe byddai Abertawe yn chwarae yn erbyn Caerdydd; dywedais y byddwn yn gobeithio mai pêl-droed fyddai'n fuddugol. Byddaf yn falch iawn o weld clwb o Gymru yn chwarae yng nghynghrair 2 Lloegr y flwyddyn nesaf. Byddai hynny'n bwysig i bêl-droed Cymru, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn maddau i mi am beidio datgan pa un rwy'n meddwl y dylai fod y clwb llwyddiannus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an exciting time for Welsh sport, and I am sure that we are all looking forward to the forthcoming years. I hope that the loyal fans of Cardiff, both from the city and the Valleys, will carry on with their loyalty to a great football team. However, will you tell us whether your Government has learned anything from the experiences of Swansea, and whether there is an exciting venture that you, your party or your officials have in mind to ensure that we really promote football in Wales?

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i chwaraeon Cymru, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn edrych ymlaen at y blynyddoedd nesaf. Rwy'n gobeithio y bydd cefnogwyr ffyddlon Caerdydd, o'r ddinas ac o'r Cymoedd, yn parhau i fod yn deyrngar i dîm pêl-droed gwych. Fodd bynnag, a wnech chi ddweud wrthym a yw eich Llywodraeth wedi dysgu unrhyw beth o brofiadau Abertawe, ac a oes menter gyffrous y mae gennych chi, eich plaid neu eich swyddogion mewn golwg i sicrhau ein bod yn gwir hybu pêl-droed yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think that we do. I have mentioned that we have advertising in the stadium. Also, I opened the national football centre in Newport; that is a tremendous step forward considering that the Football Association of Wales, at one time, had no facilities and football was a poor relation. That will be important in promoting not only elite or men's football, but all football, including women's football and football across the ages and across different levels. We work with clubs such as Swansea, and we will work with Cardiff to help it promote what it does. They are showpieces for Wales and they help to promote Wales on a world stage.</p>	<p>Rwy'n credu bod gennym. Rwyf wedi sôn bod gennym hysbysebion yn y stadiwm. Hefyd, agorais y ganolfan bêl-droed genedlaethol yng Nghasnewydd; mae hwnnw'n gam aruthrol ymlaen o ystyried nad oedd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru unrhyw gyfleusterau ar un adeg, pan oedd pêl-droed yn gymharol ddinod. Bydd hynny'n bwysig o ran hyrwyddo nid yn unig pêl-droed elitaidd neu bêl-droed dynion, ond pob math o bêl-droed, gan gynnwys pêl-droed menywod a phêl-droed ar draws gwahanol oedrannau a lefelau. Rydym yn gweithio gyda chlybiau fel Abertawe, a byddwn yn gweithio gyda Chaerdydd i'w helpu i hyrwyddo'r hyn y mae'n ei wneud. Maen nhw'n llwyfan i arddangos Cymru ac yn helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, you have referred already to the sponsorship at the Liberty Stadium by Visit Wales and the money that the Welsh Government put into Swansea once the team won promotion. That money was very welcome. Now that we have two premiership teams in Wales, do you intend to continue that sponsorship of Swansea or are you looking to split that money between the two teams? Will more money be available to ensure that we promote Wales in both stadiums at an equal level?</p>	<p>Brif Weinidog, rydych wedi cyfeirio eisoes at y nawdd yn Stadiwm Liberty gan Croeso Cymru a'r arian a roddwyd i Abertawe gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r tîm ennill dyrchafiad. Roedd yr arian hwnnw'n sicr i'w groesawu. Nawr fod gennym ddau dîm yng Nghymru yn uwch gynghrair Lloegr, a ydych chi'n bwriadu parhau â'r nawdd yna i Abertawe neu a fyddwch chi'n rhannu'r arian hwnnw rhwng y ddau dîm? A fydd mwy o arian ar gael i sicrhau ein bod yn hyrwyddo Cymru yn y ddau stadiwm ar lefel gyfartal?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>There is no intention to reduce the amount of money being spent in Swansea. We would look to treat both clubs equally and fairly—let me declare that now—but we want to make sure that there is extra money available to promote Wales when Cardiff City plays in the Premier League next year.</p>	<p>Nid oes unrhyw fwriad i leihau faint o arian sy'n cael ei wario yn Abertawe. Ein nod fyddai trin y ddau glwb yn gyfartal ac yn deg—gadewch i mi ddatgan hynny nawr—ond rydym yn dymuno sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i hyrwyddo Cymru pan fydd clwb Caerdydd yn chwarae yn Uwch Gynghrair Lloegr y flwyddyn nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 7, OAQ(4)1030(FM), has been withdrawn.</p>	<p>Tynnwyd Cwestiwn 7, OAQ(4)1030(FM), yn ôl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Trwydded Sianel 3 i Gymru</p>		<p>Channel 3 Licence for Wales</p>	
14:02	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch trwydded Sianel 3 ar wahân i Gymru? OAQ(4)1029(FM)</p>	<p>8. Will the First Minister outline the Welsh Government's position on a separate Channel 3 licence for Wales? OAQ(4)1029(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We very much welcome the proposal to create a separate channel 3 licence for Wales.</p>	<p>Rydym yn croesawu'n fawr y cynnig i greu trwydded sianel 3 ar wahân ar gyfer Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:02

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I support the possibility of a Wales-only licence and believe that now is the time to have this debate, instead of waiting for the next opportunity in 2024. If a separate licence was awarded, it is important that we look further afield and consider bids from independent producers upon relicensing the franchise. Independent producers operate in Scotland and Northern Ireland. It is important, in the light of devolution, that we in Wales have culturally relevant programming to reflect our distinct identity. Given that ITV views this as being commercially viable, do you agree with me that it is timely to reinvigorate this debate by considering bids from independent producers?

Rwy'n cefnogi'r posibilrwydd o drwydded ar gyfer Cymru yn unig ac yn credu mai nawr yw'r amser i gael y drafodaeth hon, yn hytrach nag aros am y cyfle nesaf yn 2024. Pe byddai trwydded ar wahân yn cael ei dyfarnu, mae'n bwysig ein bod yn edrych ymhellach ac yn ystyried ceisiadau gan gynhyrchwyr annibynnol wrth ail-drwyddedu'r fasnachfaint. Mae cynhyrchwyr annibynnol yn gweithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n bwysig, yng ngoleuni datganoli, bod gennym ni yng Nghymru raglenni sy'n berthnasol yn ddiwylliannol i adlewyrchu ein hunaniaeth unigryw. O ystyried bod ITV o'r farn bod hyn yn fasnachol hyfyw, a ydych chi'n cytuno â mi ei bod yn amser adfywio'r drafodaeth hon trwy ystyried ceisiadau gan gynhyrchwyr annibynnol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If it is a model that is used in Scotland and Northern Ireland, there is no reason why that model should not be used in Wales. It is important that commercial television reflects the devolved nature of Wales. Ulster Television is a separate franchise, but Northern Ireland is half the size of Wales. You have ITV Channel Television, and there are others that are smaller than Wales as a nation. The time has come to move away from the old 'Wales and the West' description that we have had for so many years, but I look forward to there being a separate and discrete channel 3 licence for Wales that properly reflects Wales's needs and raises Wales's profile.

Os yw'n fodel sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai'r model hwnnw gael ei ddefnyddio yng Nghymru. Mae'n bwysig bod teledu masnachol yn adlewyrchu natur ddatganoledig Cymru. Mae Ulster Television yn fasnachfaint ar wahân, ond hanner maint Cymru yw Gogledd Iwerddon. Mae gennych chi ITV Channel Television, ac mae eraill sy'n llai na Chymru fel cenedl. Mae'r amser wedi dod i symud oddi wrth yr hen ddisgrifiad 'Wales and the West' a fu gennym ers cymaint o flynyddoedd, ond rwy'n edrych ymlaen at gael un drwydded sianel 3 annibynnol ac ar wahân ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru yn briodol ac yn codi proffil Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, a fydd trwydded sianel 3 ar wahân yn ei gwneud yn haws neu'n anoddach i chi hyrwyddo barn eich Llywodraeth mewn unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol ynglŷn â datganoli darlledu?

First Minister, will a separate channel 3 licence make it easier or more difficult for you to promote your Government's views in any inter-governmental debates on the devolution of broadcasting?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Na. Nid wyf yn meddwl y bydd yn cael effaith y naill ffordd neu'r llall. Beth sy'n bwysig yw bod gennym sefyllfa yng Nghymru lle mae gennym drwydded Gymreig, yn yr un ffordd ag y mae trwydded i'r Alban a thrwydded i Ogledd Iwerddon. Mae'r amser hwnnw wedi dod ac mae'n bwysig y bydd y system drwyddedu newydd yn sicrhau bod hynny'n digwydd yng Nghymru.

No. I do not believe that it will have an impact one way or the other. What is important is that we have a situation in Wales where we have a Welsh licence, in the same manner as there is a Scottish licence and one for Northern Ireland. The time has come and therefore it is vital that the new licensing system ensures that that happens here in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Economi Gogledd Cymru

North Wales Economy

14:04

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru am gefnogi economi gogledd Cymru yn 2013? OAQ(4)1022(FM)

9. Will the First Minister outline how the Welsh Government plans to support the North Wales economy in 2013? OAQ(4)1022(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are continuing our efforts to support the economy, which includes dedicated enterprise zones in north Wales. Rydym yn parhau â'n hymdrechion i gefnogi'r economi, sy'n cynnwys ardaloedd menter penodol yng ngogledd Cymru.
- 14:04 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, First Minister. On top of the excellent economic figures already quoted by my friend and colleague, Mick Antoniw, 50% of the £4.3 billion annual public procurement spend in Wales now goes to small and medium-sized enterprises, which is up from 35% in 2003. First Minister, will you outline how procurement practices in areas like north-east Wales can make greater use of the community-benefit clause approach to benefit the regional economy in the area? Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yn ogystal â'r ffigurau economaidd ardderchog a ddyfynnwyd eisoes gan fy ffrind a'm cydweithiwr, Mick Antoniw, mae 50% o'r £4.3 biliwn o wariant caffael cyhoeddus blynyddol yng Nghymru yn mynd i fentrau bach a chanolig eu maint bellach, ac mae wedi cynyddu o 35% yn 2003. Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu sut y gall arferion caffael mewn ardaloedd fel gogledd-ddwyrain Cymru wneud mwy o ddefnydd o'r dull cymal manteision cymunedol er lles yr economi ranbarthol yn yr ardal?
- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister for Finance has made it clear, in the Wales procurement policy statement, that we expect contracting authorities to adopt the community-benefits approach in all contracts where benefits can be realised and also, of course, to approach those contracts utilising our measurement tool for all contracts over £2 million. I can say to the Member that, last May, the six local authorities in the north and the NHS confirmed their commitment to adopt the community-benefits approach and this is included in the local government compact commitments. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi ei gwneud yn glir, yn natganiad polisi caffael Cymru, ein bod yn disgwyl i awdurdodau contractio fabwysiadu'r dull manteision cymunedol yn yr holl gontractau lle gellir sicrhau manteision a hefyd, wrth gwrs, i fynd i'r afael â'r contractau hynny gan ddefnyddio ein dull mesur ar gyfer pob contract dros £2 filiwn. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod y chwe awdurdod lleol yn y gogledd a'r GIG, fis Mai diwethaf, wedi cadarnhau eu hymrwymiad i fabwysiadu'r dull manteision cymunedol ac mae hyn wedi ei gynnwys yn yr ymrwymadau llywodraeth leol cryno.
- 14:05 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, the A55 expressway is vital to the north Wales economy, yet businesses and residents face what appear to be never-ending roadworks and congestion, which make travelling and doing business a misery. Can you confirm what plans your Government has to assess the economic impact that these constant roadworks and the accompanying congestion is having on the north Wales economy? What targets will you be setting to reduce the number of days affected by roadworks so that north Wales has the best chance to attract inward investment and generate economic growth? Brif Weinidog, mae gwibffordd yr A55 yn hanfodol i economi gogledd Cymru, ond mae busnesau a thrigolion yn wynebu'r hyn sy'n ymddangos fel gwaith ffordd a thagfeydd parhaus, sy'n gwneud teithio a chyflawni busnes yn ddiffas tu hwnt. A allwch chi gadarnhau pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i asesu'r effaith economaidd y mae'r gwaith cyson hwn a'r tagfeydd ategol yn ei chael ar economi gogledd Cymru? Pa dargedau fyddwch chi'n eu pennu i leihau nifer y diwrnodau sy'n cael eu heffeithio gan waith ffordd fel bod gan ogledd Cymru'r cyfle gorau i ddenu buddsoddiad o'r tu allan a chreu twf economaidd?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I do not see the A55 as a barrier; it is very welcome, I know, along the northern coast. Occasionally, of course, there will be a need for roadworks and sometimes those roadworks can be substantial. There are occasions when unforeseen works have to be carried out. However, the A55 is in good condition, is well-used and is one of our major arteries. It is one of the reasons why such roads should remain in the control of the Welsh Government. I have seen some suggestions that, somehow, they should be pinched away from us. What is important is that we are able to control and maintain those arteries that are important to us as a nation. Nid wyf yn gweld yr A55 fel rhwystr; gwn ei bod yn cael ei chrosawu'n fawr ar hyd arfordir y gogledd. Bydd angen gwaith ffordd o bryd i'w gilydd, wrth gwrs, a gall y gwaith ffordd hwnnw fod yn sylweddol weithiau. Ceir adegau pan fydd yn rhaid gwneud gwaith nas rhagwelyd. Fodd bynnag, mae'r A55 mewn cyflwr da, yn cael llawer o ddefnydd ac mae'n un o'n prif wythiennau. Mae'n un o'r rhesymau pam y dylai ffyrdd o'r fath aros dan reolaeth Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi gweld rhai awgrymiadau y dylent gael eu bachu oddi wrthym rywsut. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn gallu rheoli a chynnal y gwythiennau hynny sy'n bwysig i ni fel cenedl.

14:07 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydych yn dweud nad yw diffygion yr A55 yn rhwystr, ond, yn aml iawn, mae eich Llywodraeth chi wedi ein hatgoffa bod diffygion ar yr M4 yn ardal Casnewydd yn rhwystr i economi de Cymru. Mae buddsoddi mewn isadeiledd yn allweddol i hybu'r economi. Mae pawb yn cydnabod hynny. Yn y de, mae biliynau yn cael eu gwario ar drydaneiddio'r rheilffyrdd a £1 biliwn neu fwy, o bosibl, yn cael ei wario ar uwchraddio'r M4 o gwmpas Casnewydd. Yn fwyaf diweddar, wrth gwrs, mae £52 miliwn wedi cael ei wario ar y maes awyr yng Nghaerdydd. Pryd y cawn ni weld buddsoddiad o'r lefel honno yn yr isadeiledd yng ngogledd Cymru?

You say that the deficiencies of the A55 are not a barrier, but your Government regularly reminds us that problems on the M4 in the Newport area are a problem for the Welsh economy. Investment in infrastructure is crucial to boosting the economy. Everyone recognises that. In south Wales, billions are being spent on the electrification of the railway line and £1 billion or more, possibly, spent on upgrading the M4 in the Newport area. Most recently, of course, £52 million has been spent on the airport in Cardiff. When will we see investment of that level in the north wales infrastructure?

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'r ffaith bod gwaith yn cael ei wneud yn dangos bod buddsoddiad yn yr heol. Petai dim byd yn digwydd a bod yr heol yn dirywio, efallai y gallai pobl ddweud nad oes dim yn cael ei wario. Gwn ei bod yn broblem i bobl pan na fyddant yn gallu teithio mor gyflym ag y maent yn dymuno'i wneud, ond mae'r ffaith bod cymaint o waith yn cael ei wneud ar yr A55 yn dangos bod buddsoddiad yn yr heol.

The fact that work is taking place shows that there is investment in the road. If nothing was being done and the road was to decline, then perhaps it would be possible to say that nothing was being spent. I know that it is a problem for people when they cannot travel as quickly as they would hope to, but the fact that so much work is being done on the A55 shows that there is investment in that road.

Sglerosis Ymledol

Multiple Sclerosis

14:08 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau i gefnogi pobl sy'n dioddef o Sglerosis Ymledol? OAQ(4)1021(FM)

10. Will the First Minister make a statement on services to support people with Multiple Sclerosis? OAQ(4)1021(FM)

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Minister for Health and Social Services has given his commitment to develop a delivery plan for neurological conditions, including MS.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi ei ymrwymiad i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau niwrolegol, gan gynnwys sglerosis ymledol.

14:08 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. I know that the Minister for health's commitment, which he gave today, was very warmly received at an event I sponsored, namely the launch of a very hard-hitting and challenging report by the MS Society Cymru. The report showed how the UK-wide shortage of neurologists is particularly acute in Wales, with all four of the specialists being based along the M4 corridor, which means that only half of my constituents get to see a neurologist when they need one. How will the Welsh Government address this inequality?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Gwn fod ymrwymiad y Gweinidog iechyd, a roddwyd ganddo heddiw, wedi cael croeso brwd iawn mewn digwyddiad a noddwyd gennyf i, sef lansiad adroddiad hynod feirniadol a heriol gan MS Society Cymru. Dangosodd yr adroddiad sut mae'r prinder niwrolegwyr ledled y DU yn arbennig o ddifrifol yng Nghymru, ac mae pob un o'r pedwar arbenigwr wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4, sy'n golygu mai dim ond hanner fy etholwyr i sy'n cael gweld niwrolegydd pan fydd angen un arnynt. Sut fydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn?

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The fact that the MS specialists are based along the M4 corridor does not mean that people outside that corridor do not have access to those specialists. I know that Hywel Dda Local Health Board is working to implement the recommendations of the neurosciences review, including ensuring that services are accessible to patients wherever they live.

In terms of the delivery plan that I mentioned earlier, we expect that to be available for consultation this summer. Then, there will be an opportunity for responses to that consultation on how we take that plan forward.

Nid yw'r ffaith fod yr arbenigwyr sglerosis ymledol wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4 yn golygu nad oes gan bobl y tu allan i'r coridor hwnnw fynediad at yr arbenigwyr hynny. Gwn fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gweithio i weithredu argymhellion yr adolygiad niwrowyddorau, gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gleifion ble bynnag y maen nhw'n byw.

O ran y cynllun cyflawni a grybwyllais yn gynharach, rydym yn disgwyl i hwnnw fod ar gael ar gyfer ymgynghoriad yr haf hwn. Yna, bydd cyfle i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw ar sut y dylem ni fwrw ymlaen â'r cynllun hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, do you agree with me that to have such differences in accessibility to the services that people need is unacceptable? Given that north Wales is much further away from the M4 than even the Member for Mid and West Wales's region, do you not agree that, as a matter of priority, there ought to be an appointment of a specialist neurologist in north Wales? Also, what consideration will the review give to the need for specialist therapy services for people with MS?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi fod cael gwahaniaethau o'r fath o ran mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn annerbyniol? O gofio bod gogledd Cymru yn llawer pellach i ffwrdd o'r M4 na rhanbarth yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru hyd yn oed, onid ydych yn cytuno y dylid, fel mater o flaenoriaeth, penodi niwrolegydd arbenigol yng ngogledd Cymru? Hefyd, pa ystyriaeth fydd yr adolygiad yn ei rhoi i'r angen am wasanaethau therapi arbenigol ar gyfer pobl â sglerosis ymledol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

My understanding is that the north has substantial cover in terms of neurologists. It is certainly not the case that people living in the north do not have access to neurologists; they do. When it comes to consultant neurologists, there are not many of them either in the UK or elsewhere. It is not possible to provide the same level of service in every hospital around Wales, but, nevertheless, we want to make sure that a reasonable level of service is available across Wales, and that is what the delivery plan will address.

Fy nealltwriaeth i yw bod nifer sylweddol o niwrolegwyr ar gael i'r gogledd. Yn sicr, nid yw'n wir nad oes gan bobl sy'n byw yn y gogledd fynediad at niwrolegwyr; mae ganddyn nhw. Wrth ystyried niwrolegwyr ymgynghorol, nid oes llawer ohonynt yn y DU nac yn unman arall. Nid yw'n bosibl darparu'r un lefel o wasanaeth ym mhob ysbyty ledled Cymru, ond, serch hynny, ein nod yw gwneud yn siŵr bod lefel resymol o wasanaeth ar gael ledled Cymru, a dyna fydd y cynllun cyflawni'n mynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, yn ystod y digwyddiad amser cinio cwrddais ag Aled Evans, sy'n byw yng Nghaerdydd. Mae'n dioddef o MS ac mae Aled yn gweld ei niwrolegydd arbenigol bob chwech mis, mae o dan feddyginiaeth fodern ac mae'n gweld nyrsys arbenigol yn gyson. Mae ei dad, Ieuan Evans, sy'n byw yn Aberteifi, hefyd yn dioddef o MS ac mae wedi gweld niwrolegydd unwaith yn yr 20 mlynedd diwethaf. Nid oes nyrsys arbenigol yn lleol iddo ef. Fe wnaethoch chi ddweud bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gweithio ar ei gynllun. A wnewch chi sicrhau bod bwrdd iechyd Hywel Dda yn cyflymu ei waith yn y maes hwn fel bod pobl sy'n byw yn fy etholaeth i, fel Ieuan Evans, yn cael yr un mynediad i gefnogaeth MS ag unrhyw un sy'n byw ar hyd goridor yr M4?

First Minister, during the event at lunch time I met Aled Evans who lives in Cardiff. Aled suffers with MS and he sees his specialist neurologist every six months, he receives modern medication and he sees specialist nurses regularly. His father, Ieuan Evans, who lives in Cardigan, also suffers with MS and he has seen a neurologist once in the past 20 years. There are no specialist nurses locally for him. You said that Hywel Dda Local Health Board is working on its plan. Will you ensure that Hywel Dda health board hastens its work in this field so that the people who live in my constituency, such as Ieuan Evans, have the same access to MS support as anyone who lives along the M4 corridor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Fe ddarllenais i am gyflwr Mr Evans. Lle mae arbenigwyr mewn ysbyty fel Ysbyty Treforys, mae'n bwysig bod ffordd iddynt deithio i roi gwasanaethau i bobl sy'n byw yn y gorllewin. Mae hwn yn fodel sy'n cael ei ddefnyddio yn weddol gyffredin ar draws Cymru. Fel rhan o'r cynllun, efallai y gall bwrdd iechyd edrych ar hyn er mwyn sicrhau bod arbenigwr yn dod i weld cleifion mewn ysbytai nawr ac yn y man, ond mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cael gwasanaeth, yn hytrach na'u bod yn gorfod teithio i Abertawe bob tro.
I read about Mr Evans's condition. Where there are specialists in hospitals such as Morriston Hospital, it is important that a way is found to enable them to travel to provide services to people living in west Wales. This is a model that is common across Wales. As part of the plan, this may be something that the health board could look at in order to ensure that specialists come to see patients in hospital from time to time, but in a way that means that they receive a service, rather than them having to travel to Swansea each time.

14:12 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, one of the consequences of having so few specialists is the number of people with MS who are able to take disease-remitting treatments. Fewer people in Wales are on these medications than in any other country in Europe, with the exception of Romania and Poland. What specific steps will your Government take to ensure that suitable patients with MS have access to the latest medical interventions?
Brif Weinidog, un o ganlyniadau'r ffaith fod cyn lleied o arbenigwyr ar gael yw nifer y bobl â sglerosis ymledol sy'n gallu cymryd triniaethau defyd-ysbeidiol. Mae llai o bobl yng Nghymru yn derbyn y meddyginiaethau hyn nag mewn unrhyw wlad arall yn Ewrop, ac eithrio Romania a Gwlad Pwyl. Pa gamau penodol y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod cleifion priodol sydd â sglerosis ymledol yn cael mynediad at yr ymyriadau meddygol diweddaraf?

14:12 That is a matter for their consultants, but disease-modifying antirheumatic drugs have been used as drugs for some years to control MS. The difficulty with them is that they are unfortunately not always effective for many people; they tend to be effective for some but not for others. It is a matter for consultants to decide what medication should be made available for their patients. For some people, that may include DMARDs, while, for others, alternative therapies will have to be found.
Mae hwnnw'n fater i'w hymgyngorwyr, ond mae cyffuriau gwrth-riwmatig sy'n addasu clefydau wedi cael eu defnyddio fel cyffuriau i reoli sglerosis ymledol ers rhai blynyddoedd. Yr anhawster gyda nhw yw nad ydynt bob amser yn effeithiol i lawer o bobl yn anffodus; maen nhw'n tueddu i fod yn effeithiol i rai ond nid i eraill. Mater i ymgynghorwyr yw penderfynu pa feddyginiaeth ddylai fod ar gael i'w cleifion. I rai pobl, gallai hynny gynnwys DMARDau, ond, i eraill, bydd yn rhaid dod o hyd i therapïau amgen.

Recriwtio Staff Meddygol

Recruiting Medical Staff

14:13 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sefyllfa o ran recriwtio staff meddygol i'r gwasanaeth iechyd yn ardal bwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr?
OAQ(4)1019(FM)
11. Will the First Minister make a statement on the situation regarding recruiting medical staff to the health service in the Betsi Cadwaladr local health board area?
OAQ(4)1019(FM)

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae'r bwrdd wedi recriwtio yn llwyddiannus dros y blynyddoedd. Mae nifer sylweddol o ddoctoriaid ychwanegol wedi cael eu recriwtio. Yn genedlaethol, mae ein hymgyrch Gweithio dros Gymru yn cefnogi byrddau iechyd ledled Cymru i recriwtio hefyd.
The board has successfully recruited over the years. A significant number of additional doctors have been recruited. Nationally, our Work for Wales campaign is also supporting health boards across Wales with recruitment.

- 14:13 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y prif rheswm dros benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr dros gau gofal lefel 3 i fabanod newyddanedig oedd y ffaith ei fod yn methu recriwtio staff profiadol. Mae'n ffaith hefyd fod un o ysbytai cyffredinol y gogledd bron iawn â chau ei ddrwsau y llynedd oherwydd diffyg arbenigwyr ar un diwrnod penodol. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i wella'r broses o hyfforddi staff meddygol yn y gogledd er mwyn osgoi argyfyngau fel hyn a rhag i ni golli rhagor o wasanaethau pwysig o'r ardal?
- The main reason for the Betsi Cadwaladr University Local Health Board decision to close the level 3 neonatal care was the fact that it could not recruit experienced staff. Also, it is a fact that one of the general hospitals in north Wales almost had to close its doors last year because of a lack of specialists on that particular day. What plans does the Government have to improve the process of training medical staff in north Wales in order to avoid such crises and so that we do not lose any more important services from the area?
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n rhaid cael yr arbenigwyr yn y lle cyntaf er mwyn iddynt hyfforddi pobl. Os allwch wneud hynny, rydych yn creu lleoedd hyfforddi i'r rheini sy'n dod i mewn ar y lefel isaf yn y maes. Felly, mae'n bwysig dros ben bod yr arbenigwyr hynny yno ar y dechrau. Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu gan y coleg brenhinol ar hyn o bryd, fel y soniais yr wythnos diwethaf, ac rwy'n edrych ymlaen at weld beth fydd ei gasgliadau unwaith y daw'r arolwg i ben.
- You must have those specialists in place so that they are able to train other staff. You have to achieve that first of all, and then you create training places for those coming in at the bottom rung of medicine. It is very important that those specialists are in place from the outset. There is evidence that is being gathered at present by the royal college, as I mentioned last week, and I look forward to hearing what its conclusions will be once that review is concluded.
- 14:14 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, missed patient appointments between April and December 2012 led to a cost of nearly £6 million, which came out of hospitals' budgets. These funds could have been used to recruit future staff. Do you believe that you could do more as a Government to work with Betsi Cadwaladr University Local Health Board to ensure that those failure rates are addressed, so that this money could go towards recruiting much-needed front-line staff in the health service?
- Brif Weinidog, arweiniodd cleifion yn colli apwyntiadau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2012 at gost o bron i £6 miliwn, a ddaeth allan o gyllidebau ysbytai. Gellid bod wedi defnyddio'r arian hwn i recriwtio aelodau staff yn y dyfodol. A ydych chi'n credu y gallech chi wneud mwy fel Llywodraeth i weithio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau y rhoddir sylw i'r cyfraddau methiant hynny, fel y gallai'r arian hwn fynd tuag at recriwtio aelodau staff rheng flaen y mae wir eu hangen yn y gwasanaeth iechyd?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- When people do not turn up for appointments—sometimes they forget, and sometimes they just do not bother—it costs money to the health service, and people should be reminded of that. That said, it is incumbent on local health boards to ensure that they use every means possible to remind people of appointments, which includes not just sending out letters in this day and age, but using methods such as text messages, although there are security considerations around that, and e-mails. It is important, as we are in the twenty-first century, that methods of communication are appropriate to that.
- Pan na fydd pobl yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau—weithiau maen nhw'n anghofio, ac weithiau nid ydynt yn trafferthu—mae'n costio arian i'r gwasanaeth iechyd, a dylid atgoffa pobl o hynny. Wedi dweud hynny, mae'n ddyletswydd ar fyrrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn defnyddio pob modd posibl i atgoffa pobl am apwyntiadau, sydd nid yn unig yn golygu anfon llythyrau, yn yr oes sydd ohoni, ond hefyd defnyddio dulliau fel negeseuon testun, er bod ystyriaethau diogelwch ynghylch hynny, ac e-byst. Mae'n bwysig, gan ein bod yn yr unfed ganrif ar hugain, bod dulliau cyfathrebu yn briodol i'r oes.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister.
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog.
- 14:16 **Cwestiwn Brys: Llyfrgell Genedlaethol Cymru** **Y** [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Elin Jones to ask the urgent question.
- Urgent Question: The National Library of Wales**
- Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Elin Jones i ofyn y cwestiwn brys.

Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnis i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn sgîl y tân diweddar?
EAQ(4)0014(CS)

What support can the Welsh Government offer to the National Library of Wales following the recent fire?
EAQ(4)0014(CS)

14:16

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport

Members will be aware that I issued a written statement on this matter earlier today setting out the information that is available. I will visit the library on Thursday and will provide a further update to Members in due course.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y mater hwn yn gynharach heddiw yn nodi'r wybodaeth sydd ar gael. Byddaf yn ymweld â'r llyfrgell ddydd lau a byddaf yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau maes o law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:16

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog am eich datganiad heddiw. Mae'r tân yn y llyfrgell genedlaethol wedi'n hatgoffa pa mor fregus a pha mor werthfawr yw'r trysorau cenedlaethol o fewn muriau'r adeilad hwnnw.

Thank you, Minister, for your statement today. The fire in the national library has reminded us of the fragility and value of the national treasures held within that building.

Gofynnaf yn gyntaf i chi ganmol gweithwyr y frigâd dân, a arbedodd yr adeilad rhag mwy o ddiffrod, a staff y llyfrgell genedlaethol, a weithiodd yn galed drwy'r penwythnos i sicrhau bod y llyfrgell yn ail-agor i'r cyhoedd heddiw. Mae difrod sydd werth miliynau o bunnoedd, o bosibl, wedi'i achosi i'r adeilad. A wnewch chi roi sicrwydd i'r Cynulliad heddiw y byddwch chi, fel Llywodraeth, yn gefn ariannol i'r llyfrgell genedlaethol wrth iddi wynebu'r gost o adfer yr adeilad?

I ask you, first, to praise the fire service personnel who saved the building from more damage, and the national library staff who worked so hard over the weekend to ensure that the library re-opens to the public today. Damage running to millions of pounds, possibly, has been caused to the building. Will you give the Assembly an assurance today that you, as a Government, will provide the national library with financial backing as it faces the cost of rebuilding?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:17

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Elin. As I made clear in my written statement, we are grateful to the fire service and the library staff for their prompt reaction to the fire, putting in place established emergency procedures. We are also grateful that there was no loss of life or injury and that evacuation took place efficiently and effectively.

Diolch, Elin. Fel y gwnaed yn eglur gennyf yn fy natganiad ysgrifenedig, rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaeth tân ac aelodau staff y llyfrgell am eu hymateb cyflym i'r tân, gan sefydlu gweithdrefnau argyfwng sefydledig. Rydym hefyd yn ddiolchgar na fu unrhyw golli bywydau nac anafiadau a bod yr adeilad wedi ei wacau yn effeithlon ac yn effeithiol.

This is a valued cultural institution in Wales—a national institution. That is why, when I visit on Thursday, I will want to see, at first-hand, the damage caused and have discussions with the library staff as to the consequences and implications, discussing how we can best work together to deal with the aftermath and take the library forward.

Mae hwn yn sefydliad diwylliannol gwerthfawr yng Nghymru—sefydliad cenedlaethol. Dyna pam, pan fyddaf yn ymweld ddydd lau, y byddaf eisiau gweld, drosof fy hun, y difrod a achoswyd a chael trafodaethau ag aelodau staff y llyfrgell ar y canlyniadau a'r goblygiadau, gan drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd orau i ymdrin â'r canlyniadau a symud y llyfrgell yn ei blaen.

At this stage, it is premature to say much in terms of detail about that cost and support, because a lot of work is still taking place and a lot of information is yet to be compiled.

Mae'n rhy gynnar i ddweud llawer ar hyn o bryd o ran manylion y gost a'r cymorth a fydd eu hangen, gan fod llawer o waith yn dal i gael ei wneud a llawer o wybodaeth i'w chasglu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:18

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for updating Members on the ongoing situation. It is hugely reassuring, as has been said, that the national library has reopened to the public today. Like others, when news of the fire broke out on Friday afternoon, I feared devastation. Do we know, at this point, how the fire procedures were performed, in terms of safeguarding staff first and items secondly? Has the programme of digitalising archives and records of importance to the nation helped to maintain those records that may otherwise have been lost to the nation?

Diolch i chi, Weinidog, am ddiweddarau'r Aelodau ar y sefyllfa barhaus. Mae'n hynod galonogol, fel y dywedwyd, fod y llyfrgell genedlaethol wedi ailagor i'r cyhoedd heddiw. Fel eraill, pan glywais y newyddion am y tân brynhawn dydd Gwener, roeddwn i'n ofni dinistr. A ydym yn gwybod, ar hyn o bryd, sut y cyflawnwyd y gweithdrefnau tân, o ran diogelu aelodau staff yn gyntaf ac eitemau yn ail? A yw'r rhaglen o ddigidoleiddio archifau a chofnodion o bwysigrwydd i'r genedl wedi helpu i gynnal y cofnodion hynny a allai fod wedi cael eu colli i'r genedl fel arall?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:19

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for that question. I am informed that the emergency procedures in terms of safeguarding the collection and staff and minimising damage to the collection were implemented effectively and efficiently. As I said earlier, we are grateful to all involved in that effort. The library does have a digital preservation policy and strategy, which addresses issues regarding archiving and back-up of digital material in the event of disasters, which includes recovery plans. Again, I am informed that those plans were implemented and, despite some disruption to online services, no digital material has been compromised.

Diolch i Joyce Watson am y cwestiwn yna. Fe'm hysbyswyd bod y gweithdrefnau brys o ran diogelu'r casgliad ac aelodau'r staff a sicrhau bod y difrod i'r casgliad cyn lleied â phosibl wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn effeithlon. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n rhan o'r ymdrech honno. Mae gan y llyfrgell bolisi a strategaeth cadwraeth ddigidol, sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag archifo a chopio deunydd digidol rhag ofn y bydd trychinebau yn digwydd, sy'n cynnwys cynlluniau adfer. Unwaith eto, fe'm hysbyswyd y rhoddwyd y cynlluniau hynny ar waith ac, er gwaethaf rhywfaint o darfu ar wasanaethau ar-lein, ni pheryglwyd unrhyw ddeunydd digidol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your comments, Minister. I think that all our hearts skipped a beat when we heard the news, and it was a great relief that no-one was hurt. It was also a relief that the damage to the building and the collections was minimal, but it has been quite difficult to ascertain the level of damage. Do you expect, on your visit on Thursday, to be able to establish an inventory of the items and the level of damage to those items? Will that be available? Will you also have an inventory of items damaged due to water, because I understand that water used during the process of saving the library filtered through other floors and may have damaged perhaps more significant collections? Perhaps I can press you a bit on what Elin Jones asked. If there is not sufficient insurance cover on those collections, will you commit today, in principle, to offering financial support?

Diolch i chi am eich sylwadau, Weinidog. Rwy'n credu bod calonnau pob hyn ohonom wedi llamu pan glywsom y newyddion, ac roedd yn rhyddhad mawr na chafodd unrhyw un ei anafu. Roedd hefyd yn rhyddhad nad oedd llawer o ddifrod i'r adeilad a'r casgliadau, ond mae wedi bod yn eithaf anodd canfod lefel y difrod. A ydych chi'n disgwyl, yn ystod eich ymweliad ddydd lau, gallu llunio rhestr o'r eitemau a lefel y difrod i'r eitemau hynny? A fydd hynny ar gael? A fydd gennych restr hefyd o eitemau a ddifrodwyd o ganlyniad i ddŵr, gan fy mod yn deall bod dŵr a ddefnyddir yn ystod y broses o achub y llyfrgell wedi llifo trwy lorïau eraill ac efallai wedi difrodi casgliadau sydd efallai'n fwy arwyddocaol? Efallai y gallaf bwyso rhywfaint arnoch ar yr hyn a ofynnwyd gan Elin Jones. Os nad oes digon o yswiriant ar gael ar gyfer y casgliadau hynny, a wnewch chi ymrwymo heddiw, mewn egwyddor, i gynnig cymorth ariannol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Suzy Davies for that question. It is important to understand that work is ongoing and that that work will take some time. Investigations are being undertaken by the fire service and by library staff, and they will report in due course, so we have to await those assessments of the cause of the fire and the damage that resulted. There is water damage; we know that. The damage was to the third library building, which is mainly offices, but some of the collection is stored there while work is being carried out to it, if it is in need of such work. There has been some damage to the building and the collection, and water damage seeped down to the lower floors as a result of putting out the fire on the roof. When I visit on Thursday, I will see at first hand the damage that was caused and discuss all relevant matters with the library staff and others. However, it will not be possible at that stage to provide an inventory of all the damage that has occurred. That will take some time. However, we will have ongoing discussions with library staff. Our CyMAL division is based partly in Aberystwyth and there has been close contact between our officials and library staff up to now, which will continue.

Diolch i Suzy Davies am y cwestiwn yna. Mae'n bwysig deall bod gwaith yn mynd rhagddo ac y bydd y gwaith hwnnw'n cymryd cryn amser. Mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan y gwasanaeth tân a chan aelodau staff y llyfrgell, a byddant yn adrodd maes o law, felly mae'n rhaid i ni aros am yr asesiadau hynny o achos y tân a'r difrod a ddilynodd. Cafwyd difrod dŵr; rydym yn gwybod hynny. Roedd y difrod hwnnw i drydydd adeilad y llyfrgell, sy'n cynnwys swyddfeydd yn bennaf, ond caiff rhywfaint o'r casgliad ei storio yno tra bod gwaith yn cael ei wneud arno, os oes angen gwneud gwaith o'r fath. Bu rhywfaint o ddifrod i'r adeilad a'r casgliad, a llifodd difrod dŵr i lawr i'r llorïau is o ganlyniad i ddiffodd y tân ar y to. Pan fyddaf yn ymweld ddydd lau, byddaf yn gweld drosof fy hun y difrod a achoswyd ac yn trafod yr holl faterion perthnasol gydag aelodau staff y llyfrgell ac eraill. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl bryd hynny i ddarparu rhestr o'r holl ddifrod sydd wedi digwydd. Bydd hynny'n cymryd cryn amser. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal trafodaethau parhaus gydag aelodau staff y llyfrgell. Mae ein hisadran CyMAL wedi ei lleoli'n rhannol yn Aberystwyth, a bu cysylltiad agos rhwng ein swyddogion ac aelodau staff y llyfrgell hyd yn hyn, a bydd hynny'n parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I first associate myself with the remarks of Elin Jones in relation to the firefighters and the staff at the library who worked very hard to protect an amazing and treasured national asset? Minister, in response to your answer to the question from Suzy Davies, can you give an undertaking to give us an update as information becomes available in relation to the damage to the archives and what action is being taken to put it right? Will a review now be carried out in relation to the storage of archives in the national library in the light of the lessons learned from this incident, to try to ensure that if, God forbid, any future incidents happen, the archives will be particularly protected?

A gaf i yn gyntaf ymgysylltu fy hun â sylwadau Elin Jones ar y diffoddwyr tân ac aelodau staff y llyfrgell a weithiodd yn galed iawn i ddiogelu ased cenedlaethol anhygoel a gwerthfawr? Weinidog, gan ymateb i'ch ateb i'r cwestiwn gan Suzy Davies, a allwch chi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni pan fydd gwybodaeth ar gael am y difrod i'r archifau a pha gamau sy'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa? A fydd adolygiad yn cael ei gynnal nawr o ran storio archifau yn y llyfrgell genedlaethol yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn, er mwyn ceisio sicrhau, pe byddai, Duw a'n gwaredo, unrhyw ddiwyddiadau yn y dyfodol, y bydd yr archifau yn cael eu diogelu yn benodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for those comments and questions. We are lucky to have the sort of professionalism and commitment that we have in our fire service in Wales and among the dedicated library staff, that stood us in good stead with regard to this fire, in terms of limiting the consequences and the damage. We in the Welsh Government very much pay tribute to the individuals and organisations involved. We will, in due course, reflect on the reports of the fire service and the library staff and seek to learn any lessons that should be learned as to any enhancement of systems of protection for the collection and the building, but it is premature to make any comments in terms of those lessons at this stage. However, we would be keen to work with the library staff, the fire service and all others involved to make sure that the lessons to be learned safeguard us for the future, because you are absolutely right that the treasures stored in the National Library of Wales are very great indeed and have tremendous significance and importance to all of Wales.

Diolchaf i Peter Black am y sylwadau a'r cwestiynau yna. Rydym yn ffodus o gael y math o broffesiynoldeb ac ymrwymiad sydd gennym yn ein gwasanaeth tân yng Nghymru ac ymhlith aelodau staff ymroddedig y llyfrgell; rhoddodd hyn ni mewn sefyllfa dda o ran y tân hwn, o ran cyfyngu ar y canlyniadau a'r difrod. Rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn talu teyrnged fawr iawn i'r unigolion a'r sefydliadau dan sylw. Byddwn, maes o law, yn myfyrio ar adroddiadau'r gwasanaeth tân ac aelodau staff y llyfrgell ac yn ceisio dysgu unrhyw wersi y dylid eu dysgu o ran unrhyw welliant i systemau diogelu ar gyfer y casgliad a'r adeilad, ond mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw sylwadau o ran y gwersi hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn awyddus i weithio gydag aelodau staff y llyfrgell, y gwasanaeth tân a phawb arall dan sylw i wneud yn siŵr bod y gwersi sydd i'w dysgu yn ein diogelu ni ar gyfer y dyfodol, oherwydd rydych chi yn llygad eich lle wrth ddweud bod y trysorau sy'n cael eu storio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn hynod iawn yn wir ac mae ganddynt arwyddocâd a phwysigrwydd aruthrol i Gymru gyfan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf ddatgan buddiant, gan fod gennyf bensiwn gyda'r llyfrgell, er nad wyf yn meddwl ei fod wedi llosgi? Rwy'n hynod o falch bod pawb, yn ddarllenwyr ac yn staff, wedi dianc yn ddiogel. Diolchaf i bawb a weithiodd i sicrhau na drodd y sefyllfa hon yn drychineb go iawn.

May I declare an interest, as I have a pension with the library, although I do not think that that burned? I am exceptionally pleased that everyone both readers and staff, managed to vacate the library safely on the day. I wish to thank everyone who worked to ensure that this did not turn into a very real disaster.

A wnewch chi gadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol sydd wedi bodoli ers blynnyddoedd, sef mai'r Llywodraeth sy'n rhoi 'indemnity' i'r llyfrgell genedlaethol? Er bod gwahanol gynlluniau yswiriant yn bodoli, y Llywodraeth, yn y pen draw, sy'n rhoi 'indemnity'. Wrth symud ymlaen i'r wythnosau nesaf, bydd costau ychwanegol yn codi o symud deunydd i gael ei sychu yn Rhydychen ac ati, ac efallai y bydd costau ychwanegol o ran y ffordd mae'n rhaid i'r llyfrgell weithio, gyda swyddfeydd yn methu â chael eu defnyddio. A fyddwch yn trafod â'r llyfrgell unrhyw gymorth ariannol y gellwch ei roi er mwyn sicrhau nad oes effaith ar y gwasanaeth i ddarllenwyr yn ystod yr wythnosau i ddod?

Will you confirm the long-standing legal situation that it is the Government that stands as indemnity for the national library? Although there are different insurance schemes in place, it is the Government that ultimately stands as indemnity. In moving forward to the next few weeks, there will be additional costs in moving material to be dried in Oxford and so on, and there may be additional costs in the way that the library might have to work, with offices being out of use. Will you be discussing with the library any financial assistance that you can extend to make sure that the service to library users is not affected during the coming weeks?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch yn fawr, Simon Thomas. Again, it is premature to talk about the level of support that will be necessary from Welsh Government. We know that Harwell Document Restoration Services—a specialist company with a great deal of expertise in the work that will be necessary as far as the collection at the national library is concerned, and the damage to that collection is concerned—was on site very quickly, has been working, and will work, with the library staff to deal with the damage caused. It is the case that Crown immunity does apply. It is well established at a UK Government and Welsh Government level as far as these incidents are concerned, which is the case regarding the fire at the national library. I know that Geldards is providing specialist legal advice to the national library, but, again, it would be premature to make any comment on the issues involved or on what the final resolutions will be.</p>	<p>Diolch yn fawr, Simon Thomas. Unwaith eto, mae'n rhy gynnar i siarad am lefel y cymorth y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwybod bod Harwell Document Restoration Services—cwmni arbenigol â llawer iawn o arbenigedd yn y gwaith a fydd yn angenrheidiol o ran y casgliad yn y llyfrgell genedlaethol, ac o ran y difrod i'r casgliad hwnnw—ar y safle yn gyflym iawn, ac wedi bod yn gweithio, ac yn parhau i weithio, gydag aelodau staff y llyfrgell i ymdrin â'r difrod a achoswyd. Mae'n wir fod imiwnedd y Goron yn berthnasol. Mae wedi ei hen sefydlu ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn belled ag y mae'r digwyddiadau hyn yn y cwestiwn, a dyma'r sefyllfa o ran y tân yn y llyfrgell genedlaethol. Gwn fod Geldards yn darparu cyngor cyfreithiol arbenigol i'r llyfrgell genedlaethol, ond, unwaith eto, byddai'n rhy gynnar i wneud unrhyw sylw ar y materion dan sylw, neu ar beth fydd y penderfyniadau terfynol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. We now move to the questions that have been tabled for you.</p>	<p>Diolch, Weinidog. Symudwn yn awr at y cwestiynau sydd wedi'u cyflwyno ar eich cyfer.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon</p>	<p>Questions to the Minister for Culture and Sport</p>	
	<p>Chwaraeon</p>	<p>Sport</p>	
14:27	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon?</i> OAQ(4)0006(CS)</p>	<p><i>1. What is the Welsh Government doing to encourage more young women to participate in sport?</i> OAQ(4)0006(CS)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:27	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport</i></p> <p>I thank Ann Jones for that question. The Welsh Government is committed to increasing the number of young women who participate in sport. Sport Wales regards the need for sustained growth in sports participation by women and girls as a priority and encourages girls to take part in sport through programmes such as 5X60 and Dragon Sport.</p>	<p>Diolch i Ann Jones am y cwestiwn yna. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y menywod ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn ystyried bod yr angen am dwf parhaus o ran menywod a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn flaenoriaeth, ac maent yn annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon drwy raglenni megis 5X60 a Champau'r Ddraig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:27	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much for that, Minister. I welcome you to your new ministerial portfolio. I look forward very much to working with you.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am hynna, Weinidog. Rwyf yn eich croesawu i'ch portffolio gweinidogol newydd. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at gael gweithio gyda chi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Last weekend, Rhyl Football Club were crowned champions of the Huws Gray Alliance and now take us back where we rightly belong—in Welsh premier football's top flight. Also, Rhyl Reserves were champions of their league, dedicating their win to their late manager, who sadly died 12 months ago, at the end of last season. If Rhyl FC had had a girls team, I have no doubt that Rhyl girls would also have been lifting that trophy. [Interruption.] It is alright—I am getting to the question. [Laughter.] How do we make sure that girls are aware that participation in sport has the same benefits to their health and to how they can put forward skills on their CVs? How do we make sure that communities can take part in sport irrespective of gender, disability or creed?

Y penwythnos diwethaf, cafodd Clwb Pêl-droed y Rhyl eu coronio'n bencampwyr Cynghrair Huws Gray sy'n mynd â ni'n ôl i'r lle y dylem fod—yng nghynghrair uchaf pêl-droed Cymru. Hefyd, roedd ail dîm Rhyl yn bencampwyr eu cynghrair hwy, gan gyflwyno eu buddugoliaeth i'w diweddar reolwr, a fu farw 12 mis yn ôl, ar ddiwedd y tymor diwethaf. Pe byddai gan Glwb Pêl-droed y Rhyl dîm merched, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai merched y Rhyl wedi codi'r tlws hwnnw hefyd. [Torri ar draws.] Mae'n iawn—rwyf yn dod at y cwestiwn. [Chwerthin.] Sut yr ydym yn gwneud yn siŵr bod merched yn ymwybodol y gall cymryd rhan mewn chwaraeon greu'r un manteision i'w hiechyd ac i sut y gallant gyflwyno sgiliau ar eu CV? Sut yr ydym yn gwneud yn siŵr y gall cymunedau gymryd rhan mewn chwaraeon waeth beth fo'u rhyw, eu hanabledd neu eu cred?

14:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for that supplementary question. Ann's passion for Rhyl Football Club is very well known to Members across the Chamber and far beyond. I congratulate Rhyl FC on its return to the Premier League in the league of Wales. By the way, as the Minister for sport, I thank you for your welcome. It has been a great season and time for Welsh football, with the success of Cardiff City getting to the Premier League, Swansea City becoming an established team in the Premier League, and Newport County and Wrexham getting to the play-off final to join the Football League. There has also been some success by our national sides. It is a great time, and we need to capitalise on that.

Diolch i Ann Jones am y cwestiwn atodol yna. Mae Aelodau ar draws y Siambr ac eraill ymhell y tu hwnt iddo yn ymwybodol iawn o angerdd Ann dros Glwb Pêl-droed y Rhyl. Rwyf yn llongyfarch Clwb Pêl-droed y Rhyl am ddychwelyd i'r Uwch Gynghrair yng nghynghrair Cymru. Gyda llaw, fel Gweinidog chwaraeon, diolchaf i chi am eich croeso. Mae wedi bod yn dymor ac yn gyfnod gwych i bêl-droed Cymru, gyda llwyddiant Dinas Caerdydd yn cyrraedd yr Uwch Gynghrair, Dinas Abertawe yn dod yn dîm sefydlog yn yr Uwch Gynghrair, a Chasnewydd a Wrecsam yn cyrraedd rownd derfynol y gemau ail gyfle i ymuno â'r Gynghrair Bêl-droed. Mae ein tîm cenedlaethol hefyd wedi cael rhywfaint o lwyddiant. Mae'n amser gwych, ac mae angen inni fanteisio ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am keen to encourage greater participation by women and girls in sport, in general, and football in Wales. I know that we have the UEFA under-19 women's football championship in west Wales this year. I was recently in Newport watching some women's cricket matches between Newport and Bristol. There is a great deal going on. We have had much better rates of participation in women's and girls' football in recent times. To build on that, the Sport Wales community strategy prioritises the sporting participation of women and girls. That is crucial in making the links with disadvantage and community development.

Rwyf yn awyddus i annog mwy o gyfranogiad gan fenywod a merched mewn chwaraeon, yn gyffredinol, ac mewn pêl-droed yng Nghymru. Gwn ein bod yn cynnal pencampwriaeth pêl-droed merched dan-19 UEFA yn y gorllewin eleni. Roeddwn yng Nghasnewydd yn ddiweddar yn gwyllo gemau criced merched rhwng Casnewydd a Bryste. Mae llawer iawn yn digwydd. Rydym wedi cael llawer gwell cyfraddau cyfranogi mewn pêl-droed i fenywod a merched yn ddiweddar. Er mwyn adeiladu ar hynny, mae strategaeth gymunedol Chwaraeon Cymru yn blaenoriaethu cyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon. Mae hynny'n hanfodol i greu'r cysylltiadau ag anfantais a datblygu cymunedol.

14:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, congratulations on your new portfolio. I know that you are a keen cricketer. Many young Muslim women have been prevented from participating, or have not felt able to participate, in sport due to the fear of discrimination, or of facing negative attitudes from service providers in relation to their religious and cultural needs. Will the Minister consider the need for specific intervention to be developed, to ensure that Muslim women have the opportunity to participate in sports in Wales?

Weinidog, llongyfarchiadau ar eich portffolio newydd. Rwyf yn gwybod eich bod yn gricedwr brwd. Mae llawer o fenywod ifanc Mwslimaidd wedi cael eu hatal rhag cymryd rhan, neu wedi teimlo na allant gymryd rhan, mewn chwaraeon oherwydd ofn gwahaniaethu, neu wynebu agweddau negyddol gan ddarparwyr gwasanaethau ynglŷn â'u hanghenion crefyddol a diwylliannol. A wnaiff y Gweinidog ystyried yr angen i ddatblygu ymyrraeth benodol, i sicrhau bod menywod Mwslimaidd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mohammad Asghar for his welcome, and for his question. The Welsh Government is committed to widening participation in sport and physical activity. It has many beneficial aspects for health and quality of life in Wales, and we are committed to this agenda. All parts of our communities should enjoy and get those benefits from sport and fitness. I am familiar with some swimming schemes that local authorities run for Muslim women, for example in terms of recognising particular issues. Furthermore, we have an inclusion officer in post since, I think, 2008, to make sure that ethnic minorities in the south Wales area benefit from the opportunities to get involved in sport. There is training and coaching provision around that initiative. Therefore, there are particular measures in place, but I think that we need to strengthen this effort.

Diolch i Mohammad Asghar am ei groeso, ac am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hynny'n creu llawer o fudd i iechyd ac ansawdd bywyd yng Nghymru, ac rydym yn ymroddedig i'r agenda hon. Dylai pob rhan o'n cymunedau fwynhau chwaraeon a ffitrwydd a chael y buddion ohonynt. Rwyf yn gyfarwydd â rhai cynlluniau nofio sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol ar gyfer merched Mwslimaidd, er enghraifft, o ran cydnabod materion penodol. Ar ben hynny, mae gennym swyddog cynhwysiant yn ei swydd ers 2008, rwyf yn meddwl, i sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig yn y de yn elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hyfforddiant a darpariaeth hyfforddi'n gysylltiedig â'r fenter honno. Felly, mae mesurau penodol ar waith, ond rwyf yn credu bod angen inni gryfhau'r ymdrech hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my daughter is one of your 5x60 coaches, so she spends a great deal of her working day encouraging young people, especially girls, to take up physical activity. As Minister, what do you think is the main reason that girls drop out of sport? Furthermore, will you undertake to find out from young people themselves what the barriers are?

Weinidog, mae fy merch yn un o'ch hyfforddwyr 5x60, felly mae hi'n treulio llawer iawn o'i diwrnod gwaith yn annog pobl ifanc, yn enwedig merched, i ymgymryd â gweithgarwch corfforol. Fel Gweinidog, beth yn eich barn chi yw'r prif reswm pam mae merched yn rhoi'r gorau i chwaraeon? Ar ben hynny, a wnewch chi ymrwymo i gael gywybod gan y bobl ifanc eu hunain beth yw'r rhwystrau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much intend to take an evidence-based approach to these matters. I thank Jocelyn Davies for her question and, indeed, the efforts of her daughter. I think that our coaches and volunteers across Wales do an amazing job. Without them, we would be in extreme difficulty. There are many reasons why we do not have the participation level from young women and girls that we would wish to see. I think that we are all familiar with the drop-off at around 14 or 15 years of age in our schools. As Jocelyn Davies suggests, we need to listen to the girls themselves. If, for example, they tell us that they want particular activities available to them, such as dance, then we need to listen to them, rather than going down the road of making available only the sports that we think that they should be doing. I know that Sport Wales very much takes that approach.

Rwyf yn sicr yn bwriadu defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymdrin â'r materion hyn. Diolch i Jocelyn Davies am ei chwestiwn ac, yn wir, am ymdrechion ei merch. Rwyf yn credu bod ein hyfforddwyr a'n gwirfoddolwyr ledled Cymru yn gwneud gwaith anhygoel. Hebddynt, byddem mewn helbul difrifol. Mae llawer o resymau pam nad ydym yn cael y lefel cyfranogiad gan fenywod ifanc a merched y byddem yn dymuno ei weld. Credaf ein bod i gyd yn gyfarwydd â'r gostyngiad mewn cymryd rhan yn ein hysgolion pan fo merched tua 14 neu 15 mlwydd oed. Fel yr awgryma Jocelyn Davies, mae angen inni wrando ar y merched eu hunain. Os ydynt yn dweud wrthym, er enghraifft, yr hoffent i weithgareddau penodol fod ar gael iddynt, megis dawnns, mae angen inni wrando arnynt, yn hytrach na darparu dim ond y chwaraeon yr ydym yn credu y dylent fod yn eu gwneud. Gwn fod Chwaraeon Cymru yn sicr yn defnyddio'r dull hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is very appropriate, Minister, because, spurred on by the success of Nicola Adams, Brecon Amateur Boxing Club has a large contingent of girls and women who train at the facility. The club is run entirely by volunteers, and, as you said, we owe them a great debt. However, the club has become the victim of its own success, and cannot expand any further, or offer any more opportunities to new members, because of restrictions on size. Will you come with me to meet the volunteers and the members of Brecon boxing club, and discuss with them what help the Welsh Government can give, so that the club can look perhaps to enhance its facilities and offer more opportunities to men and women in that community?

Mae hynny'n briodol iawn, Weinidog, oherwydd, diolch i lwyddiant Nicola Adams, mae gan Glwb Bocsio Amatur Aberhonddu fintai fawr o ferched a menywod sy'n hyfforddi yn y cyfleuster. Mae'r clwb yn cael ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, ac, fel y dywedaso, rydym yn ddyledus iawn iddynt. Fodd bynnag, mae'r clwb wedi dechrau dioddef oherwydd ei lwyddiant ei hun, ac ni all ehangu ymhellach, na chynnig mwy o gyfleoedd i aelodau newydd, oherwydd cyfyngiadau o ran maint. A wnewch chi ddod gyda mi i gwrdd â gwirfoddolwyr ac aelodau clwb bocsio Aberhonddu, a thrafod gyda hwy pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi, fel y gall y clwb efallai geisio gwella ei gyfleusterau a chynnig mwy o gyfleoedd i ddynion a menywod yn y gymuned honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34	John Griffiths Bywgraffiad Biography I am happy, again, to join Kirsty Williams in paying tribute to that voluntary effort, and to those community facilities. I very much intend to get all around Wales, and to see as much as I can at first-hand what facilities are available and what the members of our communities would like to see available. I very much appreciate Kirsty Williams's offer, and look forward to visiting.	Rwyf yn hapus, unwaith eto, i ymuno â Kirsty Williams i dalu teyrnged i'r ymdrech wirfoddol honno, ac i'r cyfeusterau cymunedol hynny. Rwyf yn sicr yn bwriadu teithio i bob rhan o Gymru, a gweld yn uniongyrchol gymaint ag y gallaf o'r cyfeusterau sydd ar gael a chael gwybod beth fyddai aelodau ein cymunedau yn dymuno ei weld ar gael. Rwyf yn gwerthfawrogi cynnig Kirsty Williams yn fawr iawn, ac edrychaf ymlaen at ymweld.	Senedd.tv Fideo Video
Adeiladau Hanesyddol		Historic Buildings	
14:34	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography <i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau hanesyddol mewn ardaloedd cadwraeth yng Nghymru? OAQ(4)0013(CS)</i>	<i>2. Will the Minister make a statement on the preservation of historic buildings in conservation areas in Wales? OAQ(4)0013(CS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:34	John Griffiths Bywgraffiad Biography I thank Janet Finch-Saunders for her question. The Welsh Government's policies for conservation areas are set out in 'Planning Policy Wales'. That explains the need to ensure that conservation areas are protected or enhanced, while at the same time remaining alive and prosperous, avoiding unnecessary detailed controls over businesses and householders.	Diolch i Janet Finch-Saunders am ei chwestiwn. Mae polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd cadwraeth i'w gweld yn 'Polisi Cynllunio Cymru'. Mae hwnnw'n egluro bod angen sicrhau bod ardaloedd cadwraeth yn cael eu gwarchod neu eu gwella, a'u bod ar yr un pryd yn parhau'n fyw ac yn ffyniannus, gan osgoi rheolaeth fanwl ddiangen dros fusnesau a deiliaid tai.	Senedd.tv Fideo Video
14:35	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Thank you, Minister; I was pleased to hear you say that. However, you are aware that there has been huge concern in Llandudno among many property owners in relation to the fitting of UPVC double-glazed windows to properties that fall within conservation areas. Recently, we have seen one unlisted and one listed property having appeals dismissed, which leaves the property owners having to spend thousands of pounds removing the UPVC double-glazing and reverting back to single-glazed wooden sash windows. Will you consider providing some guidance to local authorities, and to Conwy in particular, so that they can strike a balance and adopt a sensible approach that recognises the importance of sustainable economic regeneration, whilst also seeking to preserve the historical heritage of our seaside towns?	Diolch, Weinidog; roeddwn yn falch o'ch clywed yn dweud hynna. Fodd bynnag, rydych yn ymwybodol bod pryder mawr wedi bod yn Llandudno ymhlith llawer o berchnogion eiddo ynglŷn â gosod ffenestri gwydr dwbl UPVC ar eiddo sydd mewn ardaloedd cadwraeth. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld apeladau'n cael eu gwrthod ar gyfer un eiddo rhestredig ac un heb ei restru, gan olygu bod rhaid i berchnogion yr eiddo wario miloedd o bunnoedd yn cael gwared ar y ffenestri dwbl UPVC a throï'n ôl at ffenestri codi pren â gwydr sengl. A wnewch chi ystyried darparu rhywfaint o arweiniad i awdurdodau lleol, ac i Gonwy yn arbennig, er mwyn iddynt allu cael cydbwysedd a mabwysiadu ymagwedd synhwyrol sy'n cydnabod pwysigrwydd adfywio economaidd cynaliadwy, a cheisio cadw treftadaeth hanesyddol ein trefi glan môr ar yr un pryd?	Senedd.tv Fideo Video
14:36	John Griffiths Bywgraffiad Biography 'Planning Policy Wales' and associated guidance does deal with these matters. I am aware of the matters that the Member refers to, but these are essentially matters for the local authority, and given the appeal position with regard to the Welsh Government, it would not be appropriate for me to make any comment.	Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' a chanllawiau cysylltiedig yn ymdrin â'r materion hyn. Rwyf yn ymwybodol o'r materion y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt, ond materion i'r awdurdod lleol yw'r rhain yn eu hanfod; ac o ystyried y sefyllfa apelio o ran Llywodraeth Cymru, ni fyddai'n briodol imi wneud unrhyw sylw.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	David Rees Bywgraffiad Biography Heritage skills play an important part in the preservation of historical buildings, whether in conservation areas or not. What actions will you take to ensure that Wales develops those heritage skills, particularly with reference to the inclusion in apprenticeships of traditional crafts and trades?	Mae sgiliau treftadaeth yn chwarae rhan bwysig yng nghadwraeth adeiladau hanesyddol, boed mewn ardaloedd cadwraeth neu beidio. Pa gamau a fyddwch yn eu cymryd i sicrhau bod Cymru yn datblygu'r sgiliau treftadaeth hynny, yn enwedig o ran cynnwys medrau a chrefftau traddodiadol mewn prentisiaethau?	Senedd.tv Fideo Video

14:36	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank David Rees for that question and very much recognise the importance of these issues. Working in partnership with the Heritage Lottery Fund, Construction Skills Wales, and colleagues of mine in education and skills in the Welsh Government, Cadw is developing a pilot programme for on-site training for crafts and traditional skills. I think that that is very important indeed. So, I look to Cadw, and indeed to National Museum Wales and other key partners, to develop a historic environment, lifelong learning framework, so that we can properly join up and adequately address these important matters.</p>	<p>Diolch i David Rees am y cwestiwn yna; rwyf yn sicr yn cydnabod pwysigrwydd y materion hyn. Mae Cadw, gan weithio mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, Sgiliau Adeiladu Cymru, a chydweithwyr i mi ym meysydd addysg a sgiliau yn Llywodraeth Cymru, wrthi'n datblygu rhaglen arbrofol ar gyfer hyfforddiant ar y safle ar gyfer crefftau a sgiliau traddodiadol. Rwyf yn meddwl bod hynny'n hynod o bwysig. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd Cadw, ac yn wir Amgueddfa Genedlaethol Cymru a phartneriaid allweddol eraill, yn datblygu fframwaith dysgu gydol oes ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, fel y gallwn gyfuno'r materion hyn yn briodol, a rhoi sylw digonol iddynt.</p>
14:37	Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Pa drafodaethau a ydych wedi eu cael gyda'r Gweinidog cynllunio ar unrhyw ddiwygiadau neu oblygiadau posibl i'r drefn o warchod adeiladau hanesyddol yn sgîl cyflwyno'r Bil cynllunio arfaethedig?</p>	<p>What discussions have you had with the Minister for planning on any amendments to, or possible implications for, the system of protecting historic buildings in light of the introduction of the proposed planning Bill?</p>
14:37	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank Llyr for that question. I have regular discussions with my ministerial colleagues, and among those will be discussions on the planning Bill, which obviously is of direct relevance to these matters.</p>	<p>Diolch i Llyr am y cwestiwn yna. Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda fy nghyd-Weinidogion, a bydd y rhein i'n cynnwys trafodaethau am y Mesur cynllunio, sy'n amlwg yn uniongyrchol berthnasol i'r materion hyn.</p>
	Bil Teithio Llesol (Cymru)	Active Travel (Wales) Bill
14:38	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>3. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymdrin â'r diffiniad o 'ddiogelwch' yn y Bil Teithio Llesol (Cymru)?</i> OAQ(4)0008(CS)</p>	<p><i>3. How does the Minister plan to deal with the definition of 'safety' in the Active Travel (Wales) Bill?</i> OAQ(4)0008(CS)</p>
14:38	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank Suzy Davies for that question. It is vital that active travel routes are safe to use. The Active Travel (Wales) Bill is legislating that routes must be appropriate for active travel, based on their location, nature and condition. Safety is part of these factors that determine whether a route is appropriate.</p>	<p>Diolch i Suzy Davies am y cwestiwn yna. Mae'n hanfodol fod llwybrau teithio llesol yn ddiogel i'w defnyddio. Mae Bil Teithio Llesol (Cymru) yn deddfu bod yn rhaid i lwybrau fod yn briodol ar gyfer teithio llesol, yn seiliedig ar eu lleoliad, eu natur a'u cyflwr. Mae diogelwch yn rhan o'r ffactorau hyn sy'n pennu a yw llwybr yn briodol.</p>
14:38	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, Minister. You will be aware, of course, that the previous Minister with responsibility for local government who had conduct of this Bill gave a commitment to put child protection at the heart of the active travel Bill, and you have committed to putting safety at the heart of it. Can you promise an early update on your predecessor's promise to look at the current Road Safety Great Britain guidelines to see whether they are still fit for purpose in defining what constitutes a safe route to school?</p>	<p>Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod y Gweinidog blaenorol â chyfrifoldeb am lywodraeth leol a oedd yn gyfrifol am y Mesur hwn wedi rhoi ymrwymiad i sicrhau bod amddiffyn plant wrth wraidd y Bil teithio llesol, ac rydych chi wedi ymrwymo i sicrhau bod diogelwch wrth ei wraidd. A allwch chi addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn gynnar am addewid eich rhagflaenydd i edrych ar ganllawiau presennol Diogelwch Ffyrdd Prydain Fawr i weld a ydynt yn dal i fod yn addas i'w diben o ran diffinio beth yw llwybr diogel i'r ysgol?</p>

14:39	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We have a design group looking at the appropriate guidance that will determine what makes a route appropriate, and safety is very much at the heart of that. In taking forward the mapping exercise, we will very much look at Safe Routes in Communities, which is an important part of the overall picture. So, much work is going on around these matters at the moment, and I will keep Members fully informed as we take that work forward.</p>	<p>Mae gennym grŵp dylunio yn edrych ar y canllawiau priodol a fydd yn penderfynu beth sy'n gwneud llwybr priodol, ac mae diogelwch yn sicr wrth wraidd hynny. Wrth fwrw ymlaen â'r ymarfer mapio, byddwn yn sicr yn edrych ar Lwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n rhan bwysig o'r darlun cyffredinol. Felly, mae llawer o waith yn cael ei wneud o amgylch y materion hyn ar hyn o bryd, a byddaf yn sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth lawn wrth inni symud ymlaen â'r gwaith hwnnw.</p>
14:39	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Un o'r trafferthion gyda'r Bil hwn fel y mae yw mai ychydig iawn sydd ar wyneb y Bil, gan gynnwys y diffiniad hwn o ddiogelwch, a bod llawer yn cael ei wneud drwy ganllawiau, rheoliadau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion. A oes modd i chi ddod â'r canllawiau drafft sy'n delio â diogelwch i'r Cynulliad i ni gael eu gweld wrth ichi drafod y Bil hwn ac wrth iddo fynd drwy'r broses? Credaf y byddai hynny yn taflu goleuni ar nifer o bethau ac y byddai'n help mawr i bobl sy'n poeni nad yw'r Bil yn darparu'r hyn y dylai fod yn ei ddarparu.</p>	<p>One of the difficulties with this Bill as it currently stands is that there is very little on the face of the Bill, including this definition of safety, and much will be done through guidance, regulations or direction from Ministers. Could you bring the draft guidelines that deal with safety to the Assembly so that we can see them as we discuss this Bill and as it goes through the process? I think that that would shed light on a number of issues and would be of great assistance to those people who are concerned that the Bill does not provide what it should be providing.</p>
14:40	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I recognise that the issue of what is on the face of legislation and what is dealt with by regulations or guidance is a very relevant issue for discussion between the Executive and the legislature. That is the case in all legislatures. I very much recognise these issues, and I aim to bring draft guidance to the attention of Members well in advance of final voting on this piece of legislation.</p>	<p>Rwyf yn cydnabod bod mater yr hyn sydd ar wyneb y ddeddfwriaeth a'r hyn y mae rheoliadau neu ganllawiau'n ymdrin â hwy yn fater perthnasol iawn i'w drafod rhwng y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Mae hynny'n wir ym mhob deddfwrfa. Rwyf fi'n sicr yn cydnabod y materion hyn, ac rwyf yn bwriadu cyflwyno canllawiau drafft i Aelodau mewn da bryd cyn y pleidleisio terfynol ar y darn hwn o ddeddfwriaeth.</p>
	Cadw	Cadw
14:40	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>4. Pa gyngor y mae Cadw yn ei roi ynglŷn ag adfer adeiladau hanesyddol sydd â statws rhestredig? OAQ(4)0003(CS)</i></p>	<p><i>4. What advice does Cadw give regarding the restoration of historical buildings with listed status? OAQ(4)0003(CS)</i></p>
14:40	John Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank Mike Hedges for that question. Circular 61/96 sets out advice relating to historic buildings, and Cadw has published a range of advice booklets, such as that on the conservation and conversion of chapels. Cadw inspectors are also able to provide advice to help care for buildings in a way that enhances character and prevents ongoing decay.</p>	<p>Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Mae cylchlythyr 61/96 yn nodi'r cyngor sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol, ac mae Cadw wedi cyhoeddi ystod o lyfyrnau cyngor, megis yr un am gadw ac addasu capeli. Mae arolygwyr Cadw hefyd yn gallu rhoi cyngor i helpu i ofalu am adeiladau mewn ffordd sy'n gwella eu cymeriad ac yn atal dirywiad parhaus.</p>
14:41	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Minister for that response. Libanus Chapel in my constituency is a grade II listed building. It was severely damaged by fire, and all that is left standing are parts of the four walls. It is on Carmarthen Road, a main road, and it is an eyesore. Should someone not come to a quick conclusion about allowing it to be demolished and allowing much-needed housing to be built on the site?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Mae Capel Libanus yn fy etholaeth i yn adeilad rhestredig gradd II. Cafodd ei ddifrodi'n ddifrifol gan dân, a dim ond rhannau o'r pedair wal sy'n dal i sefyll. Mae ar Heol Caerfyrddin, sy'n ffordd fawr, ac mae'n ddolur llygad. Oni ddylai rhywun ddod i gasgliad cyflym ynglŷn â chaniatáu iddo gael ei ddymchwel a chaniatáu adeiladu tai, y mae wir eu hangen, ar y safle?</p>

- 14:41 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I understand the issues that Mike Hedges raises in his supplementary question. There are buildings across Wales that raise these matters. The future of the site is very much a matter for the owner to consider in the first instance, and that could include various options, such as rebuilding the property, retaining the remains or a complete demolition. Obviously, any necessary listed building consents would have to be obtained from the local planning authority. Again, these are very much matters for the local authority.
- Rwyf yn deall y materion y mae Mike Hedges yn eu codi yn ei gwestiwn atodol. Caiff y materion hyn eu codi gan adeiladau ledled Cymru. Mae dyfodol y safle yn bendant yn fater i'r perchennog ei ystyried yn y lle cyntaf, a gallai hynny gynnwys dewisiadau amrywiol, megis ailadeiladu'r eiddo, cadw'r gweddillion neu ei ddymchwel yn llwyr. Yn amlwg, byddai'n rhaid cael unrhyw ganiatâd adeilad rhestredig gofynnol gan yr awdurdod cynllunio lleol. Unwaith eto, materion i'r awdurdod lleol yn bendant yw'r rhain.
- 14:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, Suzy Davies.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.
- 14:42 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I hope you enjoyed your recent visit to Neath Abbey in my region. The conservation works there will rely heavily on traditional skills, which need to be undertaken by craftsmen. The abbey presents an opportunity for your Government's agenda relating to skills, regeneration and even poverty. Has Cadw considered how people in my region might train locally to learn the skills that could be used in the sort of conservation work that is needed at Neath Abbey?
- Weinidog, rwyf yn gobeithio eich bod wedi mwynhau eich ymweliad diweddar ag Abaty Nedd yn fy rhanbarth. Bydd y gwaith cadwraeth yno'n dibynnu'n helaeth ar sgiliau traddodiadol; mae angen crefftwyr i wneud y gwaith hwn. Mae'r abaty darparu cyfle i agenda eich Llywodraeth o ran sgiliau, adfywio, a thlodi hyd yn oed. A yw Cadw wedi ystyried sut y gallai pobl yn fy rhanbarth i hyfforddi'n lleol i ddysgu'r sgiliau y gellid eu defnyddio yn y math o waith cadwraeth sydd ei angen yn Abaty Nedd?
- 14:42 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I was very pleased to visit Neath Abbey and to meet with Cadw. Members of the Cadw workforce possess those heritage building skills and are able to pass those skills on to others. Among the matters that we discussed were the very issues raised by Suzy Davies: how we work with the local community and provide training and skills to members of the local community. I will have ongoing discussions with officials to see how we best take this work forward.
- Ie, plaser mawr oedd ymweld ag Abaty Nedd a chwrrd â Cadw. Mae aelodau gweithlu Cadw yn meddu ar y sgiliau adeiladu treftadaeth hynny ac yn gallu trosglwyddo'r sgiliau hynny i eraill. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd yr union faterion a gododd Suzy Davies: sut yr ydym yn gweithio gyda'r gymuned leol ac yn darparu hyfforddiant a sgiliau i aelodau o'r gymuned leol. Byddaf yn cael trafodaethau parhaus gyda swyddogion i weld beth yw'r ffordd orau o fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen.
- 14:43 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is excellent news, Minister. Perhaps it is something that you can consider for the new heritage Bill as well, in due course. Neath Abbey is a popular location for film production companies as well. We have seen episodes of 'Doctor Who' filmed there recently and 'Da Vinci's Demons' was also filmed there. Could you confirm that the income generated at Neath Abbey from those sources is ring-fenced for the conservation work at the abbey?
- Mae hynny'n newyddion rhagorol, Weinidog. Efallai bod hynny'n rhywbeth y gallwch ei ystyried ar gyfer y Bil treftadaeth newydd hefyd, maes o law. Mae Abaty Nedd yn lleoliad poblogaidd ymysg cwmnïau cynhyrchu ffilmiau hefyd. Rydym wedi gweld penodau o 'Doctor Who' yn cael eu ffilmio yno'n ddiweddar a chafodd 'Da Vinci's Demons' hefyd ei ffilmio yno. A wnech chi gadarnhau bod yr incwm a gynhyrchir yn Abaty Nedd o'r ffynonellau hynny'n cael ei neilltuo ar gyfer y gwaith cadwraeth yn yr abaty?
- 14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are very lucky to have many Cadw sites and other heritage sites across Wales that lend themselves to interaction with the film industry. That is very good for our economy. Neath Abbey is a good example of that. I can confirm that the income generated goes to Cadw, but it may be used for a variety of purposes. Obviously, it is very much in the interests of Cadw to reinvest in those heritage sites, and much work is due to take place at Neath Abbey in the coming months and years.
- Rydym yn ffodus iawn bod gennym lawer o safleoedd Cadw a safleoedd treftadaeth eraill ledled Cymru sy'n ddelfrydol i ryngweithio gyda'r diwydiant ffilm. Mae hynny'n dda iawn i'n heconomi. Mae Abaty Nedd yn enghraifft dda o hynny. Gallaf gadarnhau bod yr incwm a gynhyrchir yn mynd i Cadw, ond gellir ei ddefnyddio at amrywiaeth o ddibenion. Yn amlwg, mae o fantais i Cadw i ail-fuddsoddi yn y safleoedd treftadaeth hynny, ac mae llawer o waith wedi'i drefnu yn Abaty Nedd yn y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.

14:44	Elin Jones Bywgraffiad Biography	<p>Weinidog, un o'r adeiladau mwyaf hanesyddol yng Ngheredigion yw castell Aberteifi—adeilad sydd hefyd wedi'i restru. Mae'r adeilad yn cael ei adfer ar hyn o bryd, ac yn araf bach mae'r castell yn dod yn ôl i'r golwg. Mae'r rhan fwyaf o'ch rhagflaenwyr, o ran eich swydd fel y Gweinidog treftadaeth, wedi cael cyfle i ymweld â'r castell. A hoffech chi dderbyn y gwahoddiad gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan i ymweld â chastell Aberteifi a'r prosiect cyffrous hwn pan fyddwch chi nesaf yn y gorllewin?</p>	<p>Minister, one of the most historic buildings in Ceredigion is Cardigan castle—it is also a listed building. It is being restored at present, and very slowly the castle is re-emerging. Most of your predecessors, in terms of your job as the Minister for heritage, have had an opportunity to visit the castle. Would you like to take up an invitation from the Cadwgan Building Preservation Trust to visit Cardigan castle and this exciting project, when you are next in west Wales?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:44	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>It is kind of Elin Jones to extend that invitation, which I am very pleased to accept. I understand the importance of Cardigan castle and the effort that has gone into restoring it over a long time, involving a lot of hard work, time and commitment.</p>	<p>Mae Elin Jones yn garedig i ymestyn y gwahoddiad yna; rwyf yn falch iawn o'i dderbyn. Rwyf yn deall pwysigrwydd castell Aberteifi a'r ymdrech a wnaed i'w adfer dros gyfnod hir, gan olygu llawer o waith caled, amser ac ymroddiad.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	Peter Black Bywgraffiad Biography	<p>Minister, the Libanus chapel referred to by Mike Hedges is only half a mile from where I live. One reason for its decay prior to the fire was the failure, in my view, of the local authority to take decisive action to force the owner to keep it in good condition and also to find a use for it. There is an issue with listed buildings, in the sense that we try to protect them, but do not provide resources to help owners with the specialist work needed to do so or to find a use for these buildings. What work you carrying out, as part of research for the heritage Bill, to try to address that particular problem?</p>	<p>Weinidog, nid yw capel Libanus, y soniodd Mike Hedges amdano, ddim mwy na hanner milltir o ble yr wyf fi'n byw. Un rheswm am iddo ddadfeilio cyn y tân oedd methiant yr awdurdod lleol, yn fy marn i, i gymryd camau pendant i orfodi'r perchennog i'w gadw mewn cyflwr da a hefyd i ddod o hyd i ffordd o'i ddefnyddio. Mae gennym broblem gydag adeiladau rhestredig, yn yr ystyr ein bod yn ceisio eu diogelu, ond nad ydym yn darparu adnoddau i helpu perchnogion gyda'r gwaith arbenigol sydd ei angen i wneud hynny neu i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r adeiladau hyn. Pa waith yr ydych chi'n ei wneud, yn rhan o'ch ymchwil ar gyfer y Bil treftadaeth, i geisio mynd i'r afael â'r broblem benodol honno?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:45	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>I thank Peter Black for that question. These are very important issues, and I think that we all want to see our built heritage preserved, conserved and enhanced. There is a balance to be struck in finding a use for buildings while, at the same time, respecting their historic significance. We do need to work with the owners, and local authorities are in key positions. In working around the heritage Bill, and in taking it forward, these are balances that we will attempt to strike.</p>	<p>Diolch i Peter Black am y cwestiwn yna. Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn, a chredaf ein bod i gyd am weld ein treftadaeth adeiledig yn cael ei chadw, ei gwarchod a'i gwella. Mae'n rhaid cael cydbwysedd o ran dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio adeiladau, gan barchu eu harwyddocâd hanesyddol ar yr un pryd. Mae angen inni weithio gyda'r perchnogion, ac mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa allweddol. Wrth weithio o amgylch y Bil treftadaeth, a symud ymlaen ag ef, byddwn yn ceisio taro'r cydbwyseddau hyn.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Peter Black Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that answer, Minister. My concern now with regard to the Libanus chapel is that, when or if we find a use for the site, Cadw will be particularly inflexible about the listing that still applies to it and prevent that use from going forward. What flexibility does Cadw have with regard to buildings such as this to try to ensure that we do not have what is, effectively, a ruin and a pile of rubble on the main route into Swansea for ever and a day?</p>	<p>Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Fy mhryder yn awr o ran capel Libanus yw, pan neu os byddwn yn dod o hyd i ffordd o ddefnyddio'r safle, bydd Cadw yn arbennig o anhyblyg am y rhestrriad sy'n dal i fod yn berthnasol iddo ac yn atal yr adeilad rhag cael ei ddefnyddio yn y ffordd honno. Pa hyblygrwydd sydd gan Cadw o ran adeiladau fel hyn i geisio sicrhau na fydd gennym yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn adfail a phentwr o rwbel ar y brif ffordd i mewn i Abertawe am byth?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:46	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>As I said, it is about striking the correct balances, and different individuals may well want to see different outcomes. There is flexibility in the planning and listing system, but these are matters that we can look at in the heritage Bill and, of course, in the planning Bill.</p>	<p>Fel y dywedais, mae'n fater o daro'r cydbwysedd cywir, ac mae'n ddigon posibl y bydd gwahanol unigolion yn dymuno gweld gwahanol ganlyniadau. Mae hyblygrwydd yn bodoli yn y system gynllunio a rhestru, ond mae'r rhain yn faterion y gallwn edrych arnynt yn y Bil treftadaeth ac wrth gwrs, yn y Bil cynllunio.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Sector Treftadaeth Cymru		Welsh Heritage Sector		
14:47	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	<p>5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i hyrwyddo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)0007(CS)</p>	<p>5. Will the Minister outline his plans to promote the Welsh heritage sector? OAQ(4)0007(CS)</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:47	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>I thank Nick Ramsay for his question. Our historic environment strategy outlines our commitment to support and promote Welsh heritage at home and abroad. The sector plays a major role in the tourist economy, offering high-quality, good-value experiences and days out. Moreover, it supports the regeneration of local communities and has an important part to play in enriching the education of our children.</p>	<p>Diolch i Nick Ramsay am ei gwestiwn. Mae ein strategaeth amgylchedd hanesyddol yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo treftadaeth Cymru gartref a thramor. Mae'r sector yn chwarae rhan bwysig yn yr economi twristiaeth, gan gynnig profiadau a dyddiau allan sydd o ansawdd uchel ac yn rhoi gwerth da am arian. Ar ben hynny, mae'n cefnogi adfywio cymunedau lleol ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae o ran cyfoethogi addysg ein plant.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that answer, Minister. Following the recent reshuffle, you have attained responsibility for national parks in Wales. I am sure that you will join me in welcoming the Brecon Beacons national park recently being given dark sky status. How do you intend to support that status as a Welsh Government?</p>	<p>Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Yn dilyn yr ad-drefnu diweddar, chi sydd bellach yn gyfrifol am barciau cenedlaethol yng Nghymru. Rwyf yn siŵr eich bod yn ymuno â mi i groesawu'r ffaith fod parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ddiweddar wedi cael statws awyr dywyll. Sut yr ydych chi, fel Llywodraeth Cymru, yn bwriadu cefnogi'r statws hwnnw?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:48	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>I thank Nick Ramsay for his supplementary question. Having that worldwide recognition of the park as a particular area of value for dark skies is really important and valuable for the Brecon Beacons national park and for Wales as a whole. I very much look forward to visiting to look at those dark skies, which we have in our diary, and to discussing how we take matters forward.</p>	<p>Diolch i Nick Ramsay am ei gwestiwn atodol. Mae cael y gydnabyddiaeth fyd-eang honno bod y parc yn ardal â gwerth penodol o ran awyr dywyll yn wirioneddol bwysig a gwerthfawr i barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac i Gymru gyfan. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at ymweld i edrych ar yr awyr dywyll honno, sydd yn ein dyddiadur, ac i drafod sut y byddwn yn symud pethau ymlaen.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:48	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	<p>Mae cynlluniau cyffrous iawn ym Mangor i symud amgueddfa Gwynedd i hen balas yr esgob gyferbyn â chynllun newydd Pontio yng nghanol y ddinas. Mae gobaith hefyd y bydd cyfle i arddangos yn yr un adeilad rhai o ffotograffau Philip Jones Griffiths, sydd yn wreiddiol o Ruddlan, a wnaeth gymaint i ddangos erchylltra rhyfel Fietnam. A wnewch chi ymrwymo heddiw i roi pob cefnogaeth i'r cynlluniau cyffrous hyn ym Mangor?</p>	<p>There are very exciting plans in Bangor to move the Gwynedd museum to the former bishop's palace, which is opposite the new Pontio scheme in the city centre. There is also hope that there will be an opportunity to display in the same building some of the photographs of Philip Jones Griffiths, originally from Rhuddlan, who did so much to show the horror of the Vietnam war. Can you give a commitment today to provide every support to these exciting plans in Bangor?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:49	John Griffiths Bywgraffiad Biography	<p>I agree with Alun Ffred Jones that these are very exciting plans, and I would be very happy, along with my officials, to discuss with the relevant partners how we can best take the work forward.</p>	<p>Rwyf yn cytuno ag Alun Ffred Jones bod y rhain yn gynlluniau cyffrous iawn, a byddwn yn hapus iawn, ynghyd â'm swyddogion, i drafod gyda'r partneriaid perthnasol beth fyddai'r ffordd orau inni symud ymlaen â'r gwaith.</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:49

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as part of your previous portfolio, you encountered the importance of faith-based tourism in terms of the marine conservation zone consultation with reference to Bardsey island. Given the very welcome £1 million that has been invested by the Welsh Government in Gwynedd Council and Conwy County Borough Council to support a new pilgrims' trail across the north of my region, will you please outline the scope that you think exists to further build on this work and to link the heritage sites that exist across mid and west Wales? I am thinking of sites as diverse as St David's, Strata Florida, the Howell Harris Museum at Coleg Trefeca, and, indeed, the famous, or possibly infamous, whipping tree site at Llanelieu church just outside Talgarth?

Weinidog, yn rhan o'ch portffolio blaenorol, gwelsoch bwysigrwydd twristiaeth sy'n seiliedig ar ffydd o ran yr ymgynghoriad parth cadwraeth morol yn ymwneud ag Ynys Enlli. Ac ystyried y buddsoddiad o £1 miliwn, sydd i'w groesawu'n fawr, gan Lywodraeth Cymru yng Nghyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi llwybr pelerinion newydd ar draws gogledd fy rhanbarth, a wnewch chi amlinellu'r cwmpas y credwch sydd ar gael i adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn ac i gysylltu'r safleoedd treftadaeth sy'n bodoli ledled y canolbarth a'r gorllewin? Rwyf yn meddwl am safleoedd mor amrywiol â Thyddewi, Ystrad Fflur, Amgueddfa Hywel Harris yng Ngholeg Trefeca, ac, yn wir, safle enwog, neu ddrwg-enwog o bosibl, y goeden chwipio yn eglwys Llanelieu ychydig y tu allan i Dalgarth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank William Powell for that question. It is very important that we make the links and connect up our heritage sites. Cadw is carrying forward work on an all-Wales interpretation plan, which will make those links and will make the information readily available to visitors and, indeed, to people living in Wales. I will work closely with the Minister for Economy, Science and Transport with regard to making the appropriate links to our tourism strategy.

Diolch i William Powell am y cwestiwn yna. Mae'n bwysig iawn ein bod yn creu'r cysylltiadau ac yn cysylltu ein safleoedd treftadaeth. Mae Cadw yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllun dehongli Cymru gyfan, a fydd yn creu'r cysylltiadau hynny ac yn sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn rhwydd i ymwelwyr ac, yn wir, i bobl sy'n byw yng Nghymru. Byddaf yn cydweithio'n agos â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i greu'r cysylltiadau priodol i'n strategaeth dwristiaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Beicio

Cycling

14:50

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu beicio yn Islwyn? OAQ(4)0009(CS)

6. Will the Minister make a statement on the promotion of cycling in Islwyn? OAQ(4)0009(CS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwyn Price for that question. The Welsh Government is promoting cycling for sport, recreation and travel throughout Wales. Our national standards cycle training, the Safe Routes in Communities programme and the forthcoming Active Travel (Wales) Bill, coupled with provision of recreational cycling opportunities, will all lead to many more people cycling in Welsh communities such as Islwyn.

Diolch i Gwyn Price am y cwestiwn yna. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo beicio ar gyfer chwaraeon, hamdden a theithio ledled Cymru. Bydd ein hyfforddiant beicio safonau cenedlaethol, y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r Mesur Teithio Llesol (Cymru) sydd ar y gweill, ynghyd â darparu cyfleoedd beicio hamdden, i gyd yn arwain at lawer mwy o bobl yn beicio mewn cymunedau tebyg i Islwyn yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:51

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. Minister, Cwmarn forest drive is one of Wales's premier mountain bike centres, attracting national events. Do you agree that forest drive is a great example of Wales adapting to the changing times, and offering a wide range of attractions across Wales and that we should praise all those involved?

Diolch am yr ateb yna. Weinidog, mae llwybr coedwig Cwmarn yn un o ganolfannau beicio mynydd gorau Cymru, ac mae'n denu digwyddiadau cenedlaethol. A ydych chi'n cytuno bod y llwybr coedwig yn enghraifft wych o Gymru'n addasu i'r amseroedd sy'n newid, ac yn cynnig amrywiaeth eang o atyniadau ledled Cymru, ac y dylem ganmol pawb sy'n rhan o hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:51	John Griffiths Bywgraffiad Biography I very much agree with Gwyn Price as to the quality and value of the Cwmcarn forest drive mountain biking routes. I often walk in that area, to the top of Twmbarlwm, and see the enjoyment and the value to the local economy of those mountain biking courses. It is very good that the efforts of Natural Resources Wales have borne fruit, working with other partners, including Visit Wales. I know that Gwyn Price is very much a champion of those facilities.	Cytunaf yn llwyr â Gwyn Price o ran ansawdd a gwerth llwybrau beicio mynydd coedwig Cwmcarn. Rwyf yn aml yn cerdded yn yr ardal honno, i ben Twmbarlwm, ac yn gweld pobl yn mwynhau'r cyrsiau beicio mynydd hynny a'u gwerth i'r economi leol. Mae'n dda iawn bod ymdrechion Adnoddau Naturiol Cymru wedi dwyn ffrwyth, gan gydweithio â phartneriaid eraill, gan gynnwys Croeso Cymru. Gwn fod Gwyn Price yn sicr yn hyrwyddo'r cyfleusterau hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Byron Davies Bywgraffiad Biography Minister, will you outline how you think the Active Travel (Wales) Bill will translate into actually promoting more cycling in Islwyn and across Wales generally?	Weinidog, a wnewch chi amlinellu sut yr ydych yn credu y bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) mewn gwirionedd yn arwain at hybu mwy o feicio yn Islwyn a ledled Cymru yn gyffredinol?	Senedd.tv Fideo Video
14:52	John Griffiths Bywgraffiad Biography It will obviously be extremely important that we have top-quality routes in place, because we know that people want safe and convenient routes available to them if they are to get out of their cars and on to their bikes, as well as to travel on foot. It will be extremely important to take forward the existing mapping exercise and then the integrated mapping plans for the future network. Of course, around the legislation there will be much to do with the active travel plan and the wider promotional effort. It is not all about the legislation, but obviously that is a very important part of the overall picture.	Yn amlwg bydd yn eithriadol o bwysig bod gennym lwybrau o'r radd flaenaf ar gael, oherwydd rydym yn gwybod bod pobl am i lwybrau diogel a chyfleus fod ar gael iddynt os ydynt am ddod allan o'u ceir a mynd ar eu beiciau, yn ogystal â theithio ar droed. Bydd yn eithriadol o bwysig bwrw ymlaen â'r ymarfer mapio presennol ac yna'r cynlluniau mapio integredig ar gyfer rhwydwaith y dyfodol. Wrth gwrs, o ran y ddeddfwriaeth, bydd llawer i'w wneud gyda'r cynllun teithio llesol a'r ymdrech hyrwyddo ehangach. Nid yw i gyd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth, ond yn amlwg mae hynny'n rhan bwysig iawn o'r darlun cyffredinol.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call Jocelyn Davies.	Galwaf ar Jocelyn Davies.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer—oh, sorry Byron.	Diolch i chi, Lywydd—o, mae'n ddrwg gennyf Byron.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Byron Davies Bywgraffiad Biography Do I not have a second question as transport spokesman?	Onid wyf am gael ail gwestiwn fel llefarydd trafnidiaeth?	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography You are not down as the spokesperson. Sorry. I call Jocelyn Davies.	Nid yw wedi'i nodi mai chi yw'r llefarydd. Mae'n ddrwg gennyf. Galwaf ar Jocelyn Davies.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography Minister, many children in Islwyn are not fortunate enough to own a bike on which to learn to cycle, so what schemes are you funding that give access and opportunities to those bikeless youngsters?	Weinidog, nid oes llawer o blant yn Islwyn yn ddigon ffodus i fod yn berchen beic i ddysgu beicio arno, felly pa gynlluniau yr ydych chi'n eu hariannu sy'n rhoi mynediad a chyfleoedd i'r bobl ifanc ddi-feic hynny?	Senedd.tv Fideo Video

14:53	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>These are very important issues. The availability of bikes and, indeed, training, so that children learn to cycle, and learn to cycle safely, are very important. The school schemes around cycle training are very helpful. I am aware of a number of schemes—voluntary, charity and community schemes—that provide bikes for children, and, indeed, bike repairs. It will be important to look at what is on the ground in Wales and to see how we can further support those schemes.</p>	<p>Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn. Mae'r mater o sicrhau bod beiciau ar gael, a hyfforddiant mewn gwirionedd, fel bod plant yn dysgu beicio, ac yn dysgu beicio'n ddiogel, yn bwysig iawn. Mae cynlluniau hyfforddiant beicio ysgolion yn ddefnyddiol iawn. Rwyf yn ymwybodol o nifer o gynlluniau—cynlluniau gwirfoddol, elusennol a chymunedol—sy'n darparu beiciau i blant, ac, yn wir, yn trwsio beiciau. Bydd yn bwysig edrych ar yr hyn sy'n bodoli ar lawr gwlad yng Nghymru a gweld sut y gallwn wneud mwy i gefnogi'r cynlluniau hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Chwaraeon ar Lawr Gwlad</p>		<p>Grassroots Sport</p>	
14:54	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0001(CS)</i></p>	<p><i>7. What action is the Welsh Government taking to support grassroots sport in South Wales Central? OAQ(4)0001(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Andrew R.T. Davies for that question. The Welsh Government supports the development of grass-roots sport across Wales. Sport Wales is working with sports clubs and organisations throughout the South Wales Central area to deliver a range of sporting opportunities. These include establishing gym and judo clubs and introducing new free taster sport sessions for young people.</p>	<p>Diolch i Andrew R.T. Davies am y cwestiwn yna. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad chwaraeon ar lawr gwlad ledled Cymru. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda chlybiau a sefydliadau chwaraeon ledled ardal Canol De Cymru i ddarparu ystod o gyfleoedd chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu clybiau campfa a jiwdo a chyflwyno sesiynau newydd blasu chwaraeon am ddim i bobl ifanc.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister, for that answer. Could you outline what guidance is given to local authorities to encourage participation in sports, in particular in relation to council-owned sports fields and maintaining a sensible fee base so that clubs, especially at the base level of sport, can use those facilities without facing the substantial hikes that some councils have inflicted on them. Indeed, I commend to you the Stop the Hikes campaign in Cardiff because this is putting a lot of teams out of action and creating an inability for amateur sportsmen and women to access team sports.</p>	<p>Diolch am yr ateb yna, Weinidog. A wnewch chi amlinellu pa arweiniad a roddir i awdurdodau lleol i annog cyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig o ran meysydd chwarae sy'n eiddo i'r cyngor a chynnal sylfaen ffi synhwyrol fel y gall y clybiau, yn enwedig ar lefel sylfaenol chwaraeon, ddefnyddio'r cyfleusterau hynny heb wynebu'r codiadau sylweddol y mae rhai cyngorau wedi'u gorfodi arnynt. Yn wir, cymeradwyaf i chi ymgyrch Stop the Hikes yng Nghaerdydd gan fod hyn yn golygu bod llawer o dimau'n methu â pharhau ac yn golygu na all rhai dynion a merched gymryd rhan mewn chwaraeon tîm ar lefel amatur.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>It is a matter for local authorities as to what they charge for their sports pitches and related facilities, but there is a role for Welsh Government in wishing to see as wide a participation as possible, and, indeed, for Sports Wales. I know that Sports Wales gives guidance to local authorities on the process that should be followed before price increases are introduced.</p>	<p>Mater i awdurdodau lleol yw faint y maent yn ei godi am eu meysydd chwaraeon a chyfleusterau cysylltiedig, ond mae gan Lywodraeth Cymru, ac, yn wir, Chwaraeon Cymru, ran i'w chwarae o ran dymuno gweld cymaint o gyfranogiad â phosibl. Gwn fod Chwaraeon Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar y broses y dylid ei dilyn cyn cyflwyno cynnydd mewn prisiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:55 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister join me in congratulating two of my constituents: Sam Warburton, whom we heard about earlier and who is the captain of the 2013 Lions team, and Gareth Bale, who also comes from Cardiff North and who has won the player of the year award and the young player of the year award? I do not know whether the Minister is aware, but both Sam and Gareth went to Whitchurch High School, along with Geraint Thomas and many other people who have excelled in sport. What does he attribute it to that one school can produce so many outstanding sportspeople and what can we do to encourage this?

A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch dau o fy etholwyr: Sam Warburton, y clywsom amdano'n gynharach sy'n gapten tîm 2013 y Llewod, a Gareth Bale, sydd hefyd yn dod o Ogledd Caerdydd, ac sydd wedi ennill gwobr chwaraewr y flwyddyn a gwobr chwaraewr ifanc y flwyddyn? Nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog yn ymwybodol, ond aeth Sam a Gareth ill dau i Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, ynghyd â Geraint Thomas a llawer o bobl eraill sydd wedi rhagori mewn chwaraeon. Sut y mae'n credu y gall un ysgol gynhyrchu cynifer o sêr y byd chwaraeon a beth allwn ni ei wneud i annog hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased indeed to join Julie Morgan in congratulating Sam Warburton and Gareth Bale on their achievements. They are superb role models for our efforts to get more people taking part in sport in Wales. I mentioned our very successful time at football earlier and Gareth Bale is a very important part of that. I was lucky enough to see him score the winning goal when we were home to Scotland in the recent championship game. He is a superb player. Along with success in football, we have also had great success in rugby, winning the RBS 6 Nations championship and delivering a resounding beating to the England team. We have had great successes and the more individuals we can have of that quality the better. As to how exactly Whitchurch High School manages to produce sporting stars, perhaps I had better get along to the school and see whether we can learn a few lessons.

Rwyf yn hynod o falch i ymuno â Julie Morgan i longyfarch Sam Warburton a Gareth Bale am eu llwyddiannau. Maent yn gosod esiampyl wych i'n hymdrechion i sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. Soniais eisoes am ein cyfnod llwyddiannus iawn ym myd pêl-droed ac mae Gareth Bale yn rhan bwysig iawn o hynny. Roeddwn yn ddigon ffodus i'w weld yn sgorio'r gôl fuddugol pan oeddem gartref yn erbyn yr Alban yn y gêm bencampwriaeth ddiweddar. Mae'n chwaraewr gwych. Ynghyd â llwyddiant ym myd pêl-droed, rydym hefyd wedi cael llwyddiant mawr ym myd rygbi, gan ennill pencampwriaeth y 6 Gwlad a rhoi crasfa ysgubol i dîm Lloegr. Rydym wedi cael llwyddiant mawr a gorau po fwyaf o unigolion o'r safon honno y gallwn ni gael gafael arnynt. O ran sut yn union y mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn llwyddo i gynhyrchu sêr y byd chwaraeon, efallai y byddai'n well imi fynd draw i'r ysgol i weld a allwn ni ddysgu rhywfaint o wersi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you agree that access is the key to success? I agree that the price hikes for the hire of playing fields by Cardiff Council will have a detrimental effect on grass-roots sports. In fact, I have heard anecdotal evidence that some baseball teams in the capital have already folded and that leisure centres are closing earlier due to the cutbacks. At the same time, more than £1 million extra has been found by the council for the pay of senior management. Minister, after the great successes of our Welsh athletes at the Olympics, are you happy for sport and recreational activities in general to be taking such a hit from Cardiff Council in its cutbacks?

Weinidog, a ydych chi'n cytuno mai mynediad yw'r allwedd i lwyddiant? Rwyf yn cytuno y bydd y codiadau pris am logi caeau chwarae gan Gyngor Caerdydd yn cael effaith niweidiol ar chwaraeon ar lawr gwlad. Yn wir, rwyf wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd bod rhai timau pêl fas yn y brifddinas eisoes wedi mynd i'r wal a bod canolfannau hamdden yn cau yn gynharach oherwydd y toriadau. Ar yr un pryd, mae'r cyngor wedi canfod mwy na £1 miliwn ychwanegol ar gyfer cyflogau uwch reolwyr. Weinidog, ar ôl llwyddiannau mawr ein hathletwyr o Gymru yn y Gemau Olympaidd, a ydych chi'n fodlon bod gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn gyffredinol yn cael ergyd o'r fath gan doriadau Cyngor Caerdydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that it is fair to single out any one local authority in Wales in terms of discussing the very difficult situations that exist because of the budget restrictions that we are all familiar with at all levels of Government. The Welsh Government wants to see access and participation being as wide as possible. Local authorities want to see the same outcomes. We will work with those local authorities and Sport Wales to make sure that, together, we have as wide and as full a participation in Wales as possible.

Nid wyf yn credu ei bod yn deg pwyntio bys at unrhyw un awdurdod lleol yng Nghymru wrth drafod y sefyllfaedd anodd iawn sy'n bodoli oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol yr ydym i gyd yn gyfarwydd â hwy ar bob lefel o Lywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld mynediad a chyfranogiad mor eang ag y bo modd. Mae awdurdodau lleol am weld yr un canlyniadau. Byddwn yn cydweithio â'r awdurdodau lleol hynny a Chwaraeon Cymru i wneud yn siŵr bod gennym, gyda'n gilydd, gyfranogiad mor eang ac mor llawn yng Nghymru ag sy'n bosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will join me in congratulating Cardiff City on becoming the third Welsh team in the premiership, after our own dear Gareth Bale and Swansea City. However, part of that success is down to the grass-roots work they do in their fantastic academy. A lesser known part of the benefit of promotion is that there will be a windfall of around £0.75 million to Cardiff Council as a result of a deal with the previous administration. Will you join me in encouraging Cardiff Council to invest that windfall back into grass-roots sports to reduce green fees and protect important local facilities such as Splott pool?

Weinidog, yr wyf yn siŵr y gwnewch ymuno â mi i longyfarch Dinas Caerdydd am fod y trydydd tîm o Gymru yn yr uwch gynghair, ar ôl ein hannwyl Gareth Bale a Chlwb Dinas Abertawe. Fodd bynnag, mae rhan o'r llwyddiant hwnnw o ganlyniad i'r gwaith ar lawr gwlad y maent yn ei wneud yn eu hacademi ffantastig. Elfen llai hysbys o fudd dyrchafiad yw y bydd Cyngor Caerdydd yn cael tua £0.75 miliwn o arian annisgwyl o ganlyniad i fargen â'r weinyddiaeth flaenorol. A wnewch chi ymuno â mi i annog Cyngor Caerdydd i fuddsoddi'r arian annisgwyl hwnnw yn ôl i mewn i chwaraeon ar lawr gwlad i leihau ffioedd lleiniau a diogelu cyfleusterau lleol pwysig fel pwll Sblot?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I mentioned earlier, local authority responsibilities are matters for local authorities. However, what I can say in general is that, as the Minister for sport in Wales, I am very interested and excited to consider fully how the Welsh Government can work with Swansea City and Cardiff City to make the most encouraging statistic that we will have 10% of the Premier League, and the massive worldwide television audience that it attracts, with around 5% of the population. In terms of elite sport and the grass roots, I look forward to working with Swansea City and Cardiff City in future.

Fel y nodais yn gynharach, materion i awdurdodau lleol yw cyfrifoldebau awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yn gyffredinol, fel y Gweinidog chwaraeon yng Nghymru, yw fy mod yn edrych ymlaen yn fawr at ystyried yn llawn sut y gall Llywodraeth Cymru gydweithio â Chlwb Dinas Abertawe a Chlwb Dinas Caerdydd i wneud y mwyaf o'r ystadegyn hynod galonogol, sef y bydd gennym 10% o'r Uwch Gynghair, a'r gynulleidfa deledu fyd-eang enfawr y mae'n ei denu, o tua 5% o'r boblogaeth. O ran chwaraeon elitaidd ac ar lawr gwlad, rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â Chlybiau Dinas Abertawe a Dinas Caerdydd yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Treftadaeth Adeiledig

Built Heritage

15:00

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diogelu ein treftadaeth adeiledig? OAQ(4)0004(CS)

8. How is the Welsh Government protecting our built heritage? OAQ(4)0004(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Historic buildings and monuments give communities their character and should be valued. Over 4,000 ancient monuments are scheduled and some 30,000 buildings across Wales are protected through listing. Grants are available for historic building repair and restoration from Cadw, other parts of the Welsh Government and other organisations.

Adeiladau hanesyddol a henebion sy'n rhoi cymeriad i gymunedau, a dylid eu gwerthfawrogi. Mae dros 4,000 o henebion hynafol wedi'u cofrestru a thua 30,000 o adeiladau ledled Cymru wedi'u gwarchod drwy eu rhestru. Mae grantiau ar gael i atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol gan Cadw, rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer. I have been working with Brymbo Heritage Group under many Ministers—I think that three of your predecessors have visited the site—and we have been calling, for many years, for action to protect what is a site of national and international importance. As you know, heavy snowfall recently caused significant damage to the ancient monuments on the site. I wrote to you about this, but the majority of the matters detailed in your reply were already in hand prior to the recent damage to this unprotected site. What action—with the benefit of hindsight, unfortunately, in this case—might, could and will the Welsh Government take to protect such priceless sites, even if it is going to be many years before the resources are available to turn them into heritage tourism sites with wider potential?

Diolch am eich ateb. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Treftadaeth Brymbo dan lawer o Weinidogion—credaf fod tri o'ch rhagflaenwyr wedi ymweld â'r safle—ac rydym wedi bod yn galw, ers blynyddoedd lawer, am weithredu i ddiogelu'r safle sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar, achosodd eira trwm ddifrod sylweddol i'r henebion hynafol ar y safle. Ysgrifennais atoch ynglŷn â hyn, ond roedd y rhan fwyaf o'r materion a nodwyd yn eich ateb eisoes ar y gweill cyn y difrod diweddar i'r safle diamddiffyn hwn. Pa gamau—gyda'r fantais o edrych yn ôl, yn anffodus, yn yr achos hwn—y gallai, ac a fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu safleoedd amhrisiadwy o'r fath, hyd yn oed os bydd blynyddoedd lawer wedi mynd heibio cyn y bydd yr adnoddau ar gael i'w troi'n safleoedd twristiaeth treftadaeth â photensial ehangach iddynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:01 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- These are, obviously, very important matters. The Brymbo ironworks site is a very important site. There have been many meetings between staff from Cadw and those seeking to take forward work to protect the ironworks site. I think that the most significant development that we await is the detailed structural report, which Cadw has agreed to help fund, because it will provide a basis for a detailed strategy for the sustainable restoration of the ironworks site.
- Mae'r rhain, yn amlwg, yn faterion pwysig iawn. Mae safle gwaith haearn Brymbo yn safle pwysig iawn. Bu llawer o gyfarfodydd rhwng staff Cadw a'r rhai sy'n ceisio datblygu gwaith i ddiogelu'r safle gwaith haearn. Credaf mai'r datblygiad pwysicaf yr ydym yn aros amdano yw'r adroddiad strwythurol manwl y mae Cadw wedi cytuno i helpu i'w ariannu, oherwydd y bydd yn rhoi sail i strategaeth fanwl i adfer y safle gwaith haearn yn gynaliadwy.
- 15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Lindsay Whittle. Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Lindsay Whittle.
- 15:02 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, it is not just castles, be they Welsh or English, that form our Welsh heritage—there are other important buildings, such as workmen's institutes, pubs and village halls. On the street where I live, there is a derelict public house from the 1800s that is boarded up, another public house from 1901 is now used as a gymnasium, the chapel from 1904 has been demolished, the workmen's hall and institute from 1910 is boarded up and the fourteenth century historic cottage where the Welsh poet Siôn Cent lived has also been demolished; this is repeated in countless communities throughout Wales. What effort is the Welsh Government making to preserve the unique character of so many of our villages, rather than, perhaps, transporting them to St Fagans: National History Museum, although I do enjoy visiting St Fagans. [Laughter.]
- Weinidog, nid yn unig cestyll, boed nhw'n Gymreig neu'n Saesneg, sy'n ffurfio ein treftadaeth yng Nghymru—ceir adeiladau pwysig eraill, fel sefydliadau gweithwyr, tafarnau a neuaddau pentref. Ar y stryd lle rwyf yn byw, mae tafarn adfeiliedig o'r 1800au sydd wedi'i chau ag estyll, mae tafarn arall o 1901 nawr yn cael ei defnyddio fel campfa, mae'r capel o 1904 wedi ei ddymchwel, mae neuadd a sefydliad y gweithwyr o 1910 wedi'i chau ag estyll ac mae'r bwthyn hanesyddol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg lle'r oedd y bardd Cymraeg Siôn Cent yn byw wedi ei ddymchwel hefyd; mae hyn yn cael ei ailadrodd mewn cymunedau di-ri ledled Cymru. Pa ymdrech y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud i gadw cymeriad unigryw cymaint o'n pentrefi, yn hytrach nag, efallai, eu cludo i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, er fy mod yn mwynhau ymweld â Sain Ffagan. [Chwerthin.]
- 15:03 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- St Fagans is an important part of our museums in Wales and is, indeed, the subject of extensive investment that will greatly improve its offer. I agree with Lindsay Whittle that we have a large number of important buildings in Wales that are very much valued by our local communities. As I mentioned earlier in answer to Mark Isherwood, a great deal of support is available, through Cadw and others, to preserve that heritage, and that includes grant funding. An important aspect of the heritage Bill will be to look at these issues and at some sort of listing system that goes beyond what currently exists and recognises those buildings that are valued by our local communities.
- Mae Sain Ffagan yn rhan bwysig o'n hamgueddfeydd yng Nghymru ac, yn wir, yn destun buddsoddiad helaeth a fydd yn gwella ei gynnydd yn fawr. Rwyf yn cytuno â Lindsay Whittle bod gennym nifer fawr o adeiladau pwysig yng Nghymru sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan ein cymunedau lleol. Fel y dywedais yn gynharach wrth ateb Mark Isherwood, mae llawer iawn o gymorth ar gael, drwy Cadw ac eraill, i warchod y dreftadaeth honno, ac mae hynny'n cynnwys arian grant. Un agwedd bwysig ar y Bil treftadaeth fydd edrych ar y materion hyn ac ar ryw fath o system restru sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn cydnabod yr adeiladau hynny a werthfawrogi gan ein cymunedau lleol.
- 15:03 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for that, Minister. By the way, mine is a nice street on which to live. [Laughter.] Do you agree that the sympathetic conversion of these buildings should be legislated for, and would you be prepared to explore that, please?
- Diolch am hynna, Weinidog. Gyda llaw, mae fy stryd i yn lle braf i fyw. [Chwerthin.] A ydych chi'n cytuno y dylid deddfu i addasu'r adeiladau hyn mewn modd deniadol, ac a fydddech chi'n barod i edrych ar hynny, os gwelwch yn dda?

15:04 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That is something that we need to look at in taking forward our heritage Bill—how we get that balance between preserving our built heritage and at the same time allowing modern usage that preserves those buildings to an extent that would not otherwise happen.

Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno wrth fwrw ymlaen â'n Bil treftadaeth—sut yr ydym yn taro'r cydbwysedd hwnnw rhwng gwarchod ein treftadaeth adeiledig ac ar yr un pryd yn caniatáu defnydd modern sy'n cadw'r adeiladau hynny mewn ffyrdd na fyddai'n digwydd fel arall.

15:04 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae teimlad yn ardal Brymbo, Weinidog, fod blynyddoedd yn mynd heibio a'r cwbl sy'n digwydd yw cyhoeddi adroddiad ar ôl adroddiad, tra bod y safle ei hun yn dirywio. A oes gennych unrhyw awgrym ynglŷn â faint y mae'r adroddiad diweddaraf yn mynd i gymryd? A yw'r Llywodraeth wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Cadw ynghylch ariannu'r gwaith unwaith y mae'r ffordd ymlaen wedi'i nodi?

There is a feeling in the Brymbo area, Minister, that years are passing and that all that happens is that report after report is published, while the site itself deteriorates. Do you have any suggestion as to how long this most recent report is going to take? Has the Government held any discussions with Cadw on funding the work once a way forward is decided upon?

15:04 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is important that we go forward on an evidence basis as far as Brymbo ironworks site, or any other heritage site, is concerned. There have been various reports, and we have seen some estimates of figures of £3 million plus for a full restoration. It is important that we have a strong evidence basis about what work is practically achievable. We then need to discuss how that can be carried out.

Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen ar sail tystiolaeth cyn belled ag y mae safle gwaith haearn Brymbo, neu unrhyw safle treftadaeth eraill, dan sylw. Cafwyd amryw o adroddiadau, ac rydym wedi gweld rhai amcangyfrifon o ffigurau o £3 miliwn a mwy i'w adfer yn llawn. Mae'n bwysig bod gennym sail dystiolaeth gref ar gyfer pa waith sy'n ymarferol bosibl. Yna, bydd angen inni drafod sut y gellir cyflawni'r gwaith hwnnw.

Cerddoriaeth ar Lawr Gwlad

Grass-roots Music

15:05 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru? OAQ(4)0012(CS)

9. Will the Minister make a statement outlining the support available from the Welsh Government for grass-roots music in Wales? OAQ(4)0012(CS)

15:05 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Mick Antoniw for that question. The Welsh Government arts funding, including support for grass-roots music, is channelled, under the arm's-length funding principle, through the Arts Council of Wales. In addition to providing revenue funding to bodies like Tŷ Cerdd, Trac and Community Music Wales, groups may also apply to the arts council for project funding.

Diolch i Mick Antoniw am y cwestiwn yna. Mae cyllid Llywodraeth Cymru i'r celfyddydau, gan gynnwys cefnogaeth i gerddoriaeth ar lawr gwlad, yn cael ei sianelu, yn unol â'r egwyddor ariannu hyd braich, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Yn ogystal â darparu cyllid referniw i gyrff megis Tŷ Cerdd, Trac a Cherdd Gymunedol Cymru, gall grwpiau hefyd wneud cais i'r cyngor celfyddydau am arian prosiect.

15:06 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that reply, Minister. The money that is available for choirs and brass bands in Wales is virtually non-existent. Most of the £300,000 budget—out of a total arts budget of £28.5 million—for Tŷ Cerdd is for staff and administration. Very little is available for choirs and brass bands. While I do not begrudge the Welsh National Opera receiving £4.75 million, does the Minister not think that there is an imbalance in the way in which our arts funding takes place?

Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Prin fod unrhyw arian ar gael i gorau a bandiau pres yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb Tŷ Cerdd o £300,000—o gyfanswm cyllideb y celfyddydau o £28.5 miliwn—yn cael ei wario ar staff a gweinyddu. Ychydig iawn sydd ar gael i gorau a bandiau pres. Er nad wyf yn gwarafun i Opera Cenedlaethol Cymru dderbyn £4.75 miliwn, onid yw'r Gweinidog yn meddwl bod anghydbwysedd yn y ffordd y mae ein celfyddydau'n cael eu hariannu?

- 15:06 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We want to support all aspects of music in Wales, and that includes grass-roots music. Tŷ Cerdd receives annual revenue funding of in excess of £300,000 from the arts council. It fulfils a number of functions, including managing the Music in Hospitals scheme as well as some of the National Youth Arts Wales performing groups and educational work in schools and colleges, together with an information service. I am also aware that in 2012-13 some £228,000 was spent by Tŷ Cerdd on supporting grass-roots music, which would include brass bands and choirs.
- Rydym yn awyddus i gefnogi pob agwedd ar gerddoriaeth yng Nghymru, ac mae hynny'n cynnwys cerddoriaeth ar lawr gwlad. Mae Tŷ Cerdd yn cael mwy na £300,000 o gyllid refeniw blynyddol gan gyngor y celfyddydau. Mae'n cyflawni nifer o swyddogaethau, gan gynnwys rheoli'r cynllun Cerddoriaeth mewn Ysbytai yn ogystal â rhai o grwpiau perfformio Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru a gwaith addysgol mewn ysgolion a cholegau, ynghyd â gwasanaeth gwybodaeth. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod Tŷ Cerdd wedi gwario tua £228,000 yn 2012-13 ar gefnogi cerddoriaeth ar lawr gwlad, a fyddai'n cynnwys bandiau pres a chorau.
- 15:07 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, would you join me in congratulating both the Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod on how well they help to promote grass-roots music. I know that you will not need me to draw your attention to this, but the Urdd Eisteddfod is being held in Pembrokeshire this year. My colleague Paul Davies and I will look forward to seeing you there at some point. We have a real opportunity there to support these kinds of initiatives.
- Weinidog, a wnech chi ymuno â mi i longyfarch Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar eu llwyddiant o ran hyrwyddo cerddoriaeth ar lawr gwlad. Gwn na fydd angen i mi dynnu eich sylw at hyn, ond mae Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal yn Sir Benfro eleni. Bydd fy nghydweithiwr, Paul Davies, a minnau'n edrych ymlaen at eich gweld yno ar ryw adeg. Mae gennym gyfle gwirioneddol yno i gefnogi'r mathau hyn o fentrau.
- 15:07 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I very much agree with Angela Burns's as to the value of both the Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod and, indeed, of eisteddfodau throughout Wales, for our grass-roots music scene. I very much look forward to being present at both events this year.
- Cytunaf yn llwyr ag Angela Burns am werth Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ac, yn wir, am werth eisteddfodau ledled Cymru, i'n sîn gerddoriaeth ar lawr gwlad. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at fod yn bresennol yn y naill ddiwyddiad a'r llall eleni.
- 15:08 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Radio Wales ar y diwrnod cerddoriaeth a gafodd yn ddiweddar yn y BBC. Roedd yn bwysig iawn i ddathlu cerddoriaeth Gymreig, ac yn enwedig artistiaid newydd yng Nghymru. Gan fod tribiwnlys bellach wedi setlo'r pris y dylai'r BBC ei dalu am gerddoriaeth Gymraeg o dan flanced Eos, a yw'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn deg bod 30 gwaith mwy o arian yn cael ei dalu am ddarlledu cân tri munud ar Radio Wales nag ar Radio Cymru? Os nad yw'n cytuno â hynny, onid yw hynny'n profi'r angen i weithredu system decach yng Nghymru, ac a fydddech chi fel Gweinidog yn gallu parhau â'r trafodaethau gyda'r BBC er mwyn dod â'r system hon i ben?
- First, I would like to congratulate Radio Wales on the music day that it recently had in the BBC. It was very important to celebrate Welsh music, particularly new artists in Wales. Given that a tribunal has now settled the price that the BBC should pay for Welsh-language music under the blanket of Eos, does the Government believe that it is fair that 30 times more money is paid for a three-minute song on Radio Wales than on Radio Cymru? If it does not agree with that, does that not prove that there is a need for action on a fairer system in Wales, and would you as Minister be able to continue with the negotiations with the BBC in order to bring this system to an end?
- 15:09 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As Bethan Jenkins states, these are essentially matters for the negotiating parties. Those negotiations have now delivered that outcome. As Minister, I wish to be fully aware of the policy of important organisations in Wales that can support grass-roots music, and there will be many issues that I will discuss with those organisations as I take forward my work as Minister for Culture and Sport.
- Fel y dywed Bethan Jenkins, materion i'r partion sy'n trafod yw'r rhain yn eu hanfod. Mae'r trafodaethau hynny bellach wedi rhoi'r canlyniad hwnnw. Fel Gweinidog, hoffwn fod yn gwbl ymwybodol o bolisiau sefydliadau pwysig yng Nghymru a all gefnogi cerddoriaeth ar lawr gwlad, a byddaf yn trafod llawer o faterion gyda'r sefydliadau hynny wrth imi symud ymlaen â'm gwaith fel Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon.

Merched sy'n Chwarae Pêl-Droed

Girls Playing Football

- 15:09 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
10. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu nifer y merched sy'n chwarae pêl-droed ar bob lefel?
OAQ(4)0005(CS)
10. What can the Welsh Government do to increase the number of girls playing football at all levels?
OAQ(4)0005(CS)
- 15:09 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
The Welsh Government supports women's and girls' football via Sport Wales, which works closely with the Welsh Football Trust. They report that there are over 1,000 players involved in the south Wales girls league, an increase of nearly 50% since 2008, and over 6,000 women and girls registered players across Wales.
Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pêl-droed menywod a merched drwy Chwaraeon Cymru, sy'n cydweithio'n agos ag Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Maent yn adrodd bod dros 1,000 o chwaraewyr yn chwarae yng nghynghrair merched y de, cynnydd o bron i 50% ers 2008, a bod dros 6,000 o fenywod a merched wedi'u cofrestru fel chwaraewyr ledled Cymru.
- 15:10 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I acknowledge the good work being done by the Welsh Football Trust and initiatives, such as the Fun Football programme and Mums on the Ball to really increase the number of opportunities for girls and women to play football. Girls may want to play football with boys initially, but may not want to go on doing that once they start getting trodden on and hurt, and even bitten. So, how can we translate these excellent initiatives into growing more clubs like Cardiff City Ladies Football Club and Cyncoed Football Club Ladies, given that we want to grow the grass-roots participation into the higher levels and that men's football gets so much more money than girls' and women's football?
Rwyf yn cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud gan Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru a mentrau, megis y rhaglen Pêl-droed Hwyl a Mamau ar y Bêl i gynyddu'n sylweddol nifer y cyfleoedd i ferched a menywod i chwarae pêl-droed. Efallai y bydd ar ferched eisiau chwarae pêl-droed gyda bechgyn i ddechrau, ond efallai na fyddant yn dymuno parhau i wneud hynny ar ôl iddynt ddechrau cael eu sathru a'u brifo, a hyd yn oed eu brathu. Felly, sut y gallwn ni droi'r mentrau rhagorol hyn yn fwy o glybiau fel Clwb Pêl-droed Merched Dinas Caerdydd a Chlwb Pêl-droed Merched Cyncoed, o gofio ein bod am gynyddu'r cyfranogiad ar lawr gwlad i lefelau uwch a bod pêl-droed dynion yn cael llawer mwy o arian na phêl-droed merched a menywod?
- 15:10 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I know that Sport Wales, the Football Association of Wales and the Welsh Football Trust prioritise developing women's and girls' football. Indeed, the Welsh Football Trust has in place 18 development officers who focus on promoting women's and girls' football across Wales. So, we do have an infrastructure developing that will see the increase that I mentioned earlier sustained and developed in the future.
Gwn fod Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn blaenoriaethu datblygu pêl-droed menywod a merched. Yn wir, mae gan Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru 18 o swyddogion datblygu sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo pêl-droed menywod a merched ledled Cymru. Felly, mae gennym seilwaith yn datblygu a fydd yn gweld y cynnydd y soniais amdano'n gynharach yn cael ei gynnal a'i ddatblygu yn y dyfodol.
- 15:11 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, in 2011, FIFA launched a new initiative to inspire women and girls to participate in football, which was called Live Your Goals. Its aim was to encourage young women and girls to take part in football while highlighting the many different benefits that active participation in the sport brings. What discussion has the Welsh Government had with the Football Association of Wales to implement and monitor the success of this initiative in Wales?
Weinidog, yn 2011, lansiodd FIFA fenter newydd i ysbrydoli menywod a merched i gymryd rhan mewn pêl-droed, dan y teitl Live Your Goals. Ei nod oedd annog menywod ifanc a merched i gymryd rhan mewn pêl-droed gan dynnu sylw at y nifer o wahanol fanteision sy'n deillio o gymryd rhan weithgar yn y gamp. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i weithredu'r fenter hon a monitro ei llwyddiant yng Nghymru?

15:12	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Mohammad Asghar for that question. I, as the Minister, and my officials have constant discussions with the FAW and a series of other organisations involved in football in Wales, including women's and girls' football, to make sure that we are working together in partnership. Obviously, we would be very interested in the success of particular projects and work with those partners to build on that progress.</p>	<p>Diolch i Mohammad Asghar am y cwestiwn yna. Yr wyf fi, fel y Gweinidog, a fy swyddogion yn cael trafodaethau cyson gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a chyfres o sefydliadau eraill sy'n ymwneud â phêl-droed yng Nghymru, gan gynnwys pêl-droed menywod a merched, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth. Yn amlwg, byddai gennym ddiddordeb mawr mewn llwyddiant prosiectau penodol ac mewn cydweithio â'r partneriaid hynny i adeiladu ar y cynnydd hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:12	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I am sure that you would agree that funding is vital if you want to encourage participation by girls in football and rugby. Will you undertake to publish, by gender, the Welsh Government funds spent by outside organisations in football and rugby?</p>	<p>Weinidog, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod cyllid yn hanfodol os ydych am annog merched i gymryd rhan mewn pêl-droed a rygbi. A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi, yn ôl rhyw, faint o arian Llywodraeth Cymru sydd wedi'i wario gan sefydliadau allanol ar bêl-droed a rygbi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:12	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I would be very happy to write to Jocelyn Davies and, indeed, all Members, with that information.</p>	<p>Byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at Jocelyn Davies ac, yn wir, at yr holl Aelodau, gyda'r wybodaeth honno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:13	<p>Datganiad a Chyhoeddiad Busnes</p> <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i></p> <p>I have two changes to report to this week's business. Later today, the Minister for Economy, Science and Transport will make a statement on job losses at Rowecord Engineering in Newport. Tomorrow, questions to the Minister for Economy, Science and Transport will take place before questions to the Minister for Education and Skills. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.</p>	<p>Business Statement and Announcement</p> <p>Mae gennyf ddau newid i fusnes yr wythnos hon. Yn nes ymlaen heddiw, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar gollu swyddi yn Rowecord Engineering yng Nghasnewydd. Yfory, bydd cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn digwydd cyn y cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:13	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I wonder whether we could have a written statement from the Minister for Health and Social Services on the availability of the drug Kalydeco. There is a great deal of concern among sufferers of cystic fibrosis, particularly given that this drug is available only in England, Scotland and Northern Ireland—not in Wales—as a result of decisions made by the all-Wales medicines strategy group. There are only around 19 patients in Wales who would benefit from this drug, but it can improve their quality of life and, indeed, extend it by up to 16 years, on average. Can we have a statement on this as soon as possible in order that people in Wales can have access to this drug, where it is clinically appropriate for them to do so?</p>	<p>Weinidog, tybed a gawn ni ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am argaeledd y cyffur Kalydeco. Mae llawer iawn o bryder ymhlith pobl sydd â ffibrosis systig, yn enwedig gan mai yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unig y mae'r cyffur hwn ar gael—nid yng Nghymru—yn sgil penderfyniadau a wnaed gan grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan. Dim ond tua 19 o gleifion yng Nghymru a fyddai'n elwa o'r cyffur hwn, ond gallai wella ansawdd eu bywydau ac, yn wir, estyn eu bywydau hyd at 16 mlynedd, ar gyfartaledd. A gawn ni ddatganiad am hyn cyn gynted ag y bo modd er mwyn i bobl yng Nghymru allu cael gafael ar y cyffur hwn, lle y mae'n glinigol briodol iddynt wneud hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:14	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>The Minister has just heard your request and I am sure that he will consider it in due course.</p>	<p>Mae'r Gweinidog newydd glywed eich cais ac rwyf yn siŵr y bydd yn ei ystyried maes o law.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:14

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we ask for a statement from the First Minister on his response to the consequences of a 'yes' vote in the Scottish independence referendum next year. We heard yesterday from the First Minister regarding his alternatives to independence for Scotland, but he has not made a statement yet to the Chamber. In particular, it would be good to hear the First Minister's views on the currency implications of an independent Scotland. It has been made clear that the Scottish National Party wants an independent Scotland to remain in a currency union with Wales and the rest of the current United Kingdom, and that that currency union be in the sterling. George Osborne has given his view that the pound belongs to Wales as much as it does to England and Scotland. What is the situation going forward? Does the Welsh Government want to see Wales remain in a currency union with Scotland if there is a 'yes' vote next year?

Weinidog, gofynnwn am ddatganiad gan y Prif Weinidog ar ei ymateb i ganlyniadau pleidlais 'ie' yn refferendwm annibyniaeth yr Alban y flwyddyn nesaf. Clywsom ddoe gan y Prif Weinidog ynglŷn â'i ddewisiadau amgen i annibyniaeth i'r Alban, ond nid yw eto wedi gwneud datganiad i'r Siambr. Yn benodol, byddai'n dda cael clywed barn y Prif Weinidog ar oblygiadau Alban annibynnol o ran arian. Dywedwyd yn glir fod Plaid Genedlaethol yr Alban am i Alban annibynnol aros mewn undeb ariannol â Chymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac mai sterling ddylai'r arian hwnnw fod. Mae George Osborne wedi mynegi ei farn fod y bunt yn perthyn i Gymru yn gymaint ag y mae i Loegr ac i'r Alban. Beth yw'r sefyllfa yn hyn o beth? A yw Llywodraeth Cymru am weld Cymru'n parhau mewn undeb ariannol â'r Alban os ceir pleidlais 'ie' y flwyddyn nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:15

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The First Minister has repeatedly highlighted the need for a fundamental review of the UK's constitutional arrangements, with all four parts of the UK contributing. He has called for a constitutional convention to achieve this ahead of the referendum on Scottish independence next year.

Mae'r Prif Weinidog wedi tynnu sylw droeon at yr angen am adolygiad sylfaenol o drefniadau cyfansoddiadol y DU, gyda phob un o bedair rhan y DU yn cyfrannu. Mae wedi galw am gonfensiwn cyfansoddiadol i wneud hyn cyn y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:15

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, I seek two statements, the first of which could even be a letter to Assembly Members from the Minister for Health and Social Services, on the availability of a shingles vaccine in Wales. Most parts of the United Kingdom are going to create a vaccination programme that would target 70 to 80-year-olds, but I understand from news reports this morning that it would only be available in Wales for people who are 78 years old and over. I am not quite sure why that discrepancy exists; there must be some science or rationale behind the argument for Wales having separate guidance to that in other parts of the United Kingdom. So, I ask that a letter or a written statement be forthcoming from the Minister for health to inform us of the rationale behind that thinking.

Arweinydd y tŷ, gofynnaf am ddau ddatganiad. Gallai'r cyntaf hyd yn oed fod yn llythyr at Aelodau'r Cynulliad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar argaeledd brechlyn yr eryr yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig yn mynd i greu rhaglen frechu a fyddai'n targedu pobl 70–80 mlwydd oed, ond rwyf ar ddeall o adroddiadau newyddion y bore yma na fydd ond ar gael yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n 78 oed ac yn hŷn. Nid wyf yn hollol siŵr pam y ceir yr anghysondeb hwnnw; rhaid bod rhywfaint o wyddoniaeth neu resymeg y tu ôl i'r ddadl dros weld Cymru'n cael canllawiau ar wahân i rannau eraill y Deyrnas Unedig. Felly, gofynnaf am lythyr neu ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd i roi gwybod inni am y rhesymeg y tu ôl i hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, last week, major capital investment was announced for Cardiff Airport. It has only recently been acquired by the Welsh Government, but there is clearly a business plan in place if such announcements are being made. However, little information has been given to Assembly Members about this capital investment plan. Could the First Minister or the Minister for Economy, Science and Transport provide a statement outlining the business plan for future substantial investments in the airport, and the ramifications that that will have for Government finances in other parts of the economic development or transport budget?

Yn ail, yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd buddsoddiad cyfalaf mawr ym Maes Awyr Caerdydd. Dim ond yn ddiweddar y prynodd Llywodraeth Cymru y maes awyr, ond mae'n amlwg fod cynllun busnes ar waith os yw cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, ychydig o wybodaeth a roddwyd i Aelodau'r Cynulliad am y cynllun buddsoddi cyfalaf. A allai'r Prif Weinidog neu Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth roi datganiad yn amlinellu'r cynllun busnes ar gyfer buddsoddiadau sylweddol yn y maes awyr yn y dyfodol, a goblygiadau hynny ar gyfer cyllid y Llywodraeth mewn rhannau eraill o'r gyllideb datblygu economaidd neu drafnidiaeth?

15:17

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for those questions. With regard to the vaccination to which you referred, the Minister for Health and Social Services will receive advice from the steering group and will make an announcement in due course on that.

Diolch yn fawr iawn ichi am y cwestiynau hynny. O ran y brechiad y cyfeiriasoch ato, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cyngor gan y grŵp llywio a bydd yn gwneud cyhoeddiad maes o law ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to Cardiff Airport, the Welsh Government is considering many aspects to do with the business plan at present. Again, in due course, we will inform Assembly Members.

O ran Maes Awyr Caerdydd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nifer o agweddau'n ymwneud â'r cynllun busnes ar hyn o bryd. Unwaith eto, maes o law, byddwn yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad.

15:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I make a request for two statements. I ask the Minister for Health and Social Services to give an update on services provided for people suffering with skeletal and arthritis problems. The relevant documents relating to that are between four and five years old now, so perhaps an update is overdue.

Weinidog, gofynnaf am ddau ddatganiad. Gofynnaf i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau a ddarperir i bobl sy'n dioddef o broblemau ysgerbydol ac arthritis. Mae'r dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â hynny rhwng pedair a phum mlwydd oed erbyn hyn, felly efallai ei bod yn hen bryd diweddarau'r wybodaeth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, would it be possible to find time during Government business for a debate on the arts? We have a new Minister in charge of the arts, and I am sure that we would all like to know what his relationship is likely to be with the Arts Council of Wales in the future, and how progress against Government policy is progressing.

Yn ail, a fyddai modd neilltuo amser yn ystod busnes y Llywodraeth ar gyfer dadl ar y celfyddydau? Mae gennym Weinidog newydd sy'n gyfrifol am y celfyddydau, ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn hoffi gwybod sut berthynas y mae'n debygol o'i chael â Chyngor Celfyddydau Cymru yn y dyfodol, a sut y mae cynnydd yn erbyn polisi'r Llywodraeth yn dod yn ei flaen.

15:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to a debate on the arts, I am sure that it is something that the Minister for Culture and Sport can consider within his portfolio. You also requested further information regarding skeletal conditions from the Minister for health. Again, I am sure that, within his vast portfolio, you can ask him questions in due course, or he will write to you with further information.

O ran dadl ar y celfyddydau, rwyf yn siŵr fod hynny'n rhywbeth y gall y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ei ystyried o fewn ei bortffolio. Roeddech hefyd yn gofyn am wybodaeth bellach yn ymwneud â chyflyrau ysgerbydol gan y Gweinidog Iechyd. Unwaith eto, rwyf yn siŵr, o fewn ei bortffolio helaeth, y gallwch ofyn cwestiynau iddo maes o law, neu bydd yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:18 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I endorse Darren Millar's call for a statement after the all-Wales medicine strategy group recommended that Kalydeco should not be made available in Wales, despite the life-changing effects it can have on patients with cystic fibrosis, and which is being funded in England, Scotland and Northern Ireland.

Ategal alwad Darren Millar am ddatganiad ar ôl i grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan argymhell na ddylai Kalydeco fod ar gael yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith y gall newid bywydau cleifion ac arnynt ffibrosis systig, a'i fod yn cael ei ariannu yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, I call for a statement on the Welsh Government's intentions to support credit unions. We know that its own scheme is due to move into a further phase later this year, but we also heard good news last week that the all-party parliamentary group on credit unions in Westminster had a reception to celebrate the imminent start of the £35 million credit union expansion project, following the award of the project to the Association of British Credit Unions Limited. The Scottish Parliament's cross-party group on credit unions has proposed a motion to welcome the project's objective to help credit unions to achieve economies of scale, a wider and more advanced competitive range of products and services, and to put them on a sustainable basis. Several credit unions in Wales have already signed up to this project. Could we have a statement to clarify the Welsh Government's intentions and how it proposes to work with this project, which has been warmly welcomed in England, Scotland and Wales on a cross-party basis?

Yn ail, galwaf am ddatganiad ar fwriadau Llywodraeth Cymru i gefnogi undebau credyd. Rydym yn gwybod mai'r bwriad yw y bydd ei chynllun hi ei hun yn symud gam ymhellach yn ddiweddarach eleni, ond dlywsom newyddion da hefyd yr wythnos diwethaf fod y grŵp seneddol hollbleidiol ar undebau credyd yn San Steffan wedi cael derbyniad i ddatllu dechrau'r prosiect £35 miliwn sydd ar ein gwarthaf i ehangu undebau credyd, yn sgil dyfarnu'r prosiect i Gymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig. Mae grŵp trawsbleidiol Senedd yr Alban ar undebau credyd wedi cyflwyno cynnig i groesawu amcan y prosiect i helpu undebau credyd i sicrhau arbedion maint, ynghyd ag ystod gystadleuol ehangach a mwy datblygedig o gynnyrch a gwasanaethau, a rhoi sylfaen gynaliadwy iddynt. Mae nifer o undebau credyd yng Nghymru eisoes wedi ymrwmo i'r prosiect hwn. A gawn ni ddatganiad i egluro bwriadau Llywodraeth Cymru a sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r prosiect hwn, sydd wedi cael croeso cynnes yn Lloegr, yr Alban a Chymru ar draws y pleidiau?

15:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is very supportive of credit unions. I know that every member of the Labour group is a member of a credit union and it is a very important part of the portfolio of the Minister for Communities and Tackling Poverty.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.20 p.m.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i undebau credyd. Gwn fod pob aelod o'r grŵp Llafur yn aelod o undeb credyd ac mae'n rhan bwysig iawn o bortffolio'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.20 p.m.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:20

Datganiad: Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Two weeks ago I announced my intention to establish a commission on public service governance and delivery. I am now setting out its purpose and remit in more detail.

All of us in this Assembly believe in the importance of public services. All of us stood on manifestos that made promises to the people of Wales about the public services that they would or should receive, and rightly so. A strong, efficient and accessible public sector is absolutely essential to the wellbeing of Wales and its people. Public services support our citizens when they are sick or vulnerable; they ensure that our young people have the skills to live prosperous and fulfilling lives; they create opportunities for business and sustain the infrastructure that a strong economy needs. They also ensure that our communities are vibrant and safe, that our environment is protected and sustainable, and that our national heritage is preserved and enhanced. In short, they are vital to this country and to all that we—any of us—might hope to achieve in governing it.

However, it is painfully obvious that public service organisations face severe, long-term and increasing challenges in discharging those obligations. We know that the resources available to provide public services are limited at best, and that there is little prospect of any real-terms growth in the foreseeable future. We know that demand for public services continues to increase, both because of the global financial position and because of rising expectations and social and demographic changes. We know that there are endemic shortages of managerial and professional expertise in parts of the public sector. We know that some public sector organisations are struggling to meet the challenges that all of this presents, and we know that this is not sustainable or acceptable in the longer term.

Statement: Commission on Public Service Governance and Delivery

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Bythefnos yn ôl, cyhoeddais fy mwriad i sefydlu comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf yn awr yn nodi ei ddiben a'i gyloch gwaith yn fwy manwl.

Mae pob un ohonom yn y Cynulliad hwn yn credu ym mhwystrwydd y gwasanaethau cyhoeddus. Safodd pob un ohonom i'n hethol ar sail manifestos a wnaeth addewidion i bobl Cymru am y gwasanaethau cyhoeddus y byddent yn eu derbyn, neu y dylent eu derbyn, ac mae hynny'n gwbl briodol. Mae sector cyhoeddus cryf, effeithlon a hygyrch yn gwbl hanfodol i les Cymru a'i phobl. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi ein dinasyddion pan fyddant yn sâl neu'n agored i niwed; maent yn sicrhau bod gan ein pobl ifanc sgiliau i fyw bywydau llewyrchus sy'n rhoi boddhad iddynt; maent yn creu cyfleoedd ar gyfer busnes ac yn cynnal y seilwaith y mae ei angen ar economi gref. Maent hefyd yn sicrhau bod ein cymunedau'n egniol ac yn ddiogel, bod ein hamgylchedd yn cael ei warchod a'i fod yn gynaliadwy, a bod ein treftadaeth genedlaethol yn cael ei chadw a'i gwella. Yn fyr, maent yn hanfodol i'r wlad hon ac i bopeth yr ydym—pob un ohonom—yn gobeithio ei gyflawni wrth ei llywodraethu.

Fodd bynnag, mae'n boenus o amlwg bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau difrifol, tymor hir a chynyddol wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hynny. Gwyddom fod yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gyfyngedig ar y gorau, ac nad oes fawr o obaith o dwf mewn termau real yn y dyfodol rhagweladwy. Gwyddom fod y galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu, oherwydd y sefyllfa ariannol fyd-eang ac oherwydd disgwyliadau cynyddol a newidiadau cymdeithasol a demograffig. Gwyddom fod prinder endemig o ran arbenigedd rheoli a phroffesiynol mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Gwyddom fod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ei chael yn anodd wynebu'r her y mae hyn i gyd yn ei chyflwyno, a gwyddom nad yw hyn yn gynaliadwy nac yn dderbyniol yn y tymor hwy.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd, no responsible Government can allow this to continue. So, we need to look hard, honestly and objectively at the way services are delivered now, and how we might improve those services. The commission on public service governance and delivery will do just that. I have published the commission's detailed remit today. The remit tasks it with providing an objective and authoritative assessment of our current arrangements for public service delivery, and their capacity to meet current and future challenges; developing and proposing an optimal model of public service governance and delivery for Wales in light of that assessment; and engaging widely, including with those who use public services and with the workforce that provides and manages them. The commission will begin its work shortly and I have asked it to report by the end of the year.

These are difficult and fundamental questions, and answering them demands courage and radical thinking. I have, therefore, made it clear that the commission should be unrestricted in its scope. It should examine all devolved services, as well as the interface with non-devolved ones. It should also consider the initiatives we have in hand and the potential for further change arising from the Hill review of education and the Silk commission.

There is one exception, however, which relates to the structure of local health boards. This is relatively new and is already forming the basis for integrating services regionally. That structure is therefore outside of the commission's remit. However, the role of the NHS, and its performance and interaction with other services, is very much within scope.

I expect the commission to be equally unconstrained in developing proposals for reform and to consider experience from outside Wales as part of that. However, I expect those proposals to be grounded in evidence and to have clear potential to improve governance and delivery significantly. There are no quick fixes or patent remedies here, nor can we simply adopt others' approaches wholesale. We need a solution that works for Wales and which will meet the needs of our citizens and communities in the longer term.

Public services must remain public. Their value lies in their universal availability, and in the potential for public organisations, including the third sector, to work together to improve the wellbeing of citizens and communities. We cannot leave that to the market. If we turned public services into commodities, provided them competitively and allocated them according to ability to pay, we would destroy what we have sought to preserve. That is not on my agenda.

Dirprwy Lywydd, ni all yr un Llywodraeth gyfrifol ganiatáu i hyn barhau. Felly, mae angen inni edrych yn galed, yn onest ac yn wrthrychol ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn awr, a sut y gallwn wella'r gwasanaethau hynny. Bydd y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud hynny. Rwyf wedi cyhoeddi cylch gwaith manwl y comisiwn heddiw. Yn y cylch gwaith nodir y bydd gofyn iddo ddarparu asesiad gwrthrychol ac awdurdodol o'n trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, a'u gallu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol; datblygu a chynnig y model gorau posibl o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus i Gymru yng ngoleuni'r asesiad hwnnw; ac ymgysylltu'n eang, gan gynnwys â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac â'r gweithlu sy'n eu darparu ac yn eu rheoli. Bydd y comisiwn yn dechrau ar ei waith cyn bo hir ac rwyf wedi gofyn iddo adrodd yn ôl erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r rhain yn gwestiynau anodd a sylfaenol, ac mae'n rhaid bod yn ddewr a meddwl yn radical i'w hateb. Rwyf, felly, wedi ei gwneud yn glir y dylai'r comisiwn fod yn ddiglyfyngiad o ran ei gwmpas. Dylai edrych ar yr holl wasanaethau datganoledig, yn ogystal â'r rhyngwyneb â'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Dylai hefyd ystyried y cynlluniau sydd gennym ar y gweill a'r potensial ar gyfer newid pellach yn deillio o adolygiad Hill o addysg a chomisiwn Silk.

Mae un eithriad, fodd bynnag, sy'n ymwneud â strwythur y byrddau iechyd lleol. Mae hwn yn gymharol newydd ac mae eisoes yn sail ar gyfer integreiddio gwasanaethau'n rhanbarthol. Felly mae'r strwythur hwnnw y tu allan i gylch gwaith y comisiwn. Fodd bynnag, mae rôl y GIG, a'i berfformiad a'i ryngweithio â gwasanaethau eraill yn sicr o fewn y cwmpas.

Disgwyliaf i'r comisiwn fod yr un mor ddiglyfyngiad wrth ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio ac ystyried profiad o'r tu allan i Gymru fel rhan o hynny. Fodd bynnag, rwyf yn disgwyl i'r cynigion hynny fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac y bydd potensial amlwg iddynt wella llywodraethu a darparu yn sylweddol. Nid oes atebion cyflym na rhwymedïau patent yma, ac ni allwn ychwaith fabwysiadu'n llwyr dduiliau a ddefnyddir mewn mannau eraill. Mae arnom angen ateb sy'n gweithio i Gymru ac a fydd yn diwallu anghenion ein dinasyddion a'n cymunedau yn y tymor hwy.

Rhaid i wasanaethau cyhoeddus barhau i fod yn gyhoeddus. Mae eu gwerth yn y ffaith eu bod ar gael i bawb, ac yn y potensial i sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys y trydydd sector, weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella lles dinasyddion a chymunedau. Ni allwn adael hynny i'r farchnad. Pe byddem yn troi gwasanaethau cyhoeddus yn nwyddau, yn eu darparu'n gystadleuol ac yn eu dyrannu yn ôl gallu i dalu, byddem yn dinistrio'r hyn yr ydym wedi ceisio'i ddiogelu. Nid yw hynny ar fy agenda.

When I made my announcement two weeks ago, many leapt to the conclusion that this was just a step towards the inevitable reorganisation of our local authorities. That is premature. Resources are scarce; no responsible government would incur the cost and disruption of any major structural reforms without a clear, coherent and compelling case for doing so. So, while there may well be a case for reorganisation, it has not yet been made clearly. I am not going to pre-empt what the commission might conclude on this issue or anything else, and I urge others not to do so either. However, I am clear that the status quo is not an option. Change is inevitable and essential, whether in terms of the structure, funding, leadership or accountability. All those involved in public service management and delivery should prepare for that—not apprehensively, but by contributing fully to the debate and helping to shape the future.

Our public sector workforce is one of our greatest assets. It daily shows great dedication in serving the people of Wales in the face of all of the challenges I have described. I ask its members to show the same commitment to reforming the system within which they work. In doing so, they must of course not neglect the day-to-day delivery on which citizens rely, and the work that they and we already have in hand to improve that.

The challenges, Dirprwy Lywydd, that our public services face transcend party politics. That is why I am pleased that individuals from across the political spectrum and beyond it have agreed to serve on the commission. I do not expect their deliberations to be easy, but I do expect a consensus to emerge, and I hope we can all support it. There is an opportunity here to build better, more efficient and more accountable public services for Wales. In the interests of all of those we serve, I suggest that we take it.

15:26

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for your statement this afternoon. At lunchtime, there was a multiple sclerosis event to deliver a report that highlighted that there is very good practice in Wales to support patients who suffer with MS. Equally, much of the care that is relied on is down to a postcode lottery. Hopefully, this commission will look into the good side of public service, and look at the gaping holes that the report presented at lunchtime clearly identifies, which exist particularly in rural areas and in some of the more challenging areas where we need to attract people to work, such as district general hospitals in rural areas.

I was commended by your Minister for health on a very fair and reasonable assessment. It is always good news that a member of your Government has commended me for being fair and reasonable. I very much hope the workings of this commission will come out with fair and reasonable assessments so that they can be implemented, rather than coming out with a weighty report that ultimately carries a lot of intellectual rigour, but is very difficult to implement, meaning that the Government shies away from implementing the recommendations.

Pan wneuthum fy nghyhoeddiad bythefnos yn ôl, neidiodd sawl un i'r casgliad mai cam yn unig oedd hyn tuag at ad-drefnu anochel ar ein hawdurdodau lleol. Mae hynny'n gynamserol. Mae adnoddau'n brin; ni fyddai unrhyw lywodraeth gyfrifol yn rhoi ar waith ddiwygiadau strwythurol mawr sy'n gostus ac yn tarfu ar wasanaethau heb achos clir, cydlynol a grymus dros wneud hynny. Felly, er efallai fod dadl dros ad-drefnu, nid yw hynny'n glir eto. Nid wyf yn mynd i achub y blaen ar yr hyn y gallai'r comisiwn ei gasglu ar y mater hwn nac ar unrhyw fater arall, ac rwyf yn annog eraill i beidio â gwneud hynny ychwaith. Fodd bynnag, rwyf yn sicr nad yw'r sefyllfa sydd ohoni'n opsiwn. Mae newid yn anochel ac yn hanfodol, boed hynny o ran strwythur, ariannu, arweiniad neu atebolrwydd. Dylai pawb sy'n ymwneud â rheoli a darparu gwasanaethau cyhoeddus baratoi ar gyfer hynny—nid yn bryderus, ond drwy gyfrannu'n llawn at y drafodaeth a helpu i lunio'r dyfodol.

Mae ein gweithlu yn y sector cyhoeddus yn un o'n hasedau mwyaf. Mae'n dangos ymroddiad mawr bob dydd wrth wasanaethu pobl Cymru yn wyneb yr holl heriau yr wyf wedi'u disgrifio. Gofynnaf i'w aelodau ddangos yr un ymrwymiad i ddiwygio'r system y maent yn gweithio ynddi. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt wrth gwrs beidio ag esgeuluso'r ddarpariaeth o ddydd-i-ddydd y mae dinasyddion yn dibynnu arni, a'r gwaith sydd ganddynt hwy a ninnau eisoes ar y gweill i wella hynny.

Mae'r heriau, Ddirprwy Lywydd, y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu yn mynd y tu hwnt i wleidyddiaeth bleidiol. Dyna pam yr wyf yn falch fod unigolion ar draws y sbectrwm gwleidyddol a thu hwnt wedi cytuno i wasanaethu ar y comisiwn. Nid wyf yn disgwyl i'w trafodaethau fod yn hawdd, ond rwyf yn disgwyl y ceir consensws, ac rwyf yn gobeithio y gallwn i gyd ei gefnogi. Mae cyfle yma i adeiladu gwasanaethau cyhoeddus gwell, mwy effeithlon a mwy atebol i Gymru. Er budd pob un o'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu, awgrymaf ein bod yn manteisio ar y cyfle hwnnw.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. Amser cinio, cynhaliwyd digwyddiad sglerosis ymledol i gyflwyno adroddiad a oedd yn dangos bod arfer da iawn yng Nghymru i gefnogi cleifion sy'n dioddef o MS. Yn yr un modd, mae llawer o'r gofal y dibynnir arno yn ddibynol ar loteri cod post. Rwyf yn gobeithio y bydd y comisiwn hwn yn edrych ar ochr dda gwasanaethau cyhoeddus, ac yn edrych ar y tyllau mawr y mae'r adroddiad a gyflwynwyd amser cinio heddiw'n eu nodi'n glir, ac yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig ac mewn rhai o'r ardaloedd mwy heriol lle mae angen denu pobl i weithio, megis ysbytai cyffredinol dosbarth mewn ardaloedd gwledig.

Cymeradwyodd eich Gweinidog iechyd fi ar asesiad teg a rhesymol iawn. Mae bob amser yn newyddion da bod aelod o'ch Llywodraeth yn fy nghymeradwyo am fod yn deg ac yn rhesymol. Gobeithiaf yn fawr y bydd gwaith y comisiwn hwn yn darparu asesiadau teg a rhesymol fel y gellir eu rhoi ar waith, yn hytrach na pharatoi adroddiad swmpus sydd yn y pen draw yn ddeallus drwyadl, ond sy'n anodd iawn i'w weithredu, sy'n golygu bod y Llywodraeth yn osgoi gweithredu'r argymhellion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will deal with your statement in reverse order, if I may. You touched on cross-party appointments to this commission. I would make the point that this is not a Silk commission-type appointment, for which our party was asked to put a representative forward. Nick Bourne will be an excellent representative on this commission. His service to public life in Wales and the ability he would have to analyse some of the problems will add considerable weight to the commission. However, Nick is not a nominee of the Conservative Party or the Conservative group in the Assembly, therefore this commission cannot be compared with the Silk commission.

Secondly, you touched on the importance of staff in all public sectors buying into what this commission will suggest. I agree entirely with you on that point. One of the aspects that came over last week was the fear, and 'fear' was the word used by the Royal College of Nursing in particular about some of the aspects identified by its members. These include issues such as being able to contribute to the discussion on improving the health service for example, and flagging up issues that they believe attract issues of clinical competence and worries about the direction of local health boards. I think Members could point to local government and other aspects of public services where members of the workforce do have that problem of engaging with the process. I am sure, and I hope, that this commission will be able to go in and talk to all members of staff, should they so wish, in a free and open manner.

You also touched on the point about local government reorganisation. I think that you said that the case for reorganisation has not been made. That is an interesting turn of phrase. Are you therefore looking to this commission to make that case for reorganisation and can you expand on your thinking as to what might come out of its work in local government, for example, where there is a very real debate over whether we need wholesale reorganisation, or whether more collaborative working is required? As I say, the way that you have phrased it in the statement indicates that you may be looking for this commission to make the argument for you.

You also talk about public services remaining public. I agree with you. However, the provision of service can include a host of partners, whether that is in the third sector or the independent sector. I presume that the commission will not be prevented from looking at all models of provision, albeit with the proviso that public service commitment and commissioning resides with the local health board, the local authority, or whatever public organisation is the commissioner. However, I take it that there are no limits in terms of places where it will not be able to probe and consider, such as whether there is a greater role for the independent sector or the third sector. Time and again, when we take evidence in this institution, the third sector decries the domination of the public sector, and looks on it as a competitor, rather than as a partner and a facilitator in providing public services. I refer you to wheelchair services, for example, and the evidence that the Red Cross gave to the Health and Social Care Committee.

Ymdriniaf â'ch datganiad am yn ôl, os caf. Soniasoch am benodiadau trawsbleidiol i'r comisiwn hwn. Byddwn yn gwneud y pwynt nad yw'r rhain yn benodiadau ar batrwm penodiadau comisiwn Silk, lle gofynnwyd i'n plaid gynnog cynrychiolydd. Bydd Nick Bourne yn gynrychiolydd gwych ar y comisiwn hwn. Bydd ei wasanaeth i fywyd cyhoeddus yng Nghymru a'i allu i ddadansoddi rhai o'r problemau yn ychwanegu cryn bwys i'r comisiwn. Fodd bynnag, ni chafodd Nick ei enwebu gan y Blaid Geidwadol na gan grŵp y Ceidwadwyr yn y Cynulliad, felly ni ellir cymharu'r comisiwn hwn â chomisiwn Silk.

Yn ail, soniasoch am bwysigrwydd sicrhau bod staff ym mhob sector cyhoeddus yn derbyn yr hyn y bydd y comisiwn hwn yn ei awgrymu. Cytunaf yn llwyr â chi ar y pwynt hwnnw. Un o'r agweddau a gafodd ei chyfleu yr wythnos diwethaf oedd yr ofn, ac 'ofn' oedd y gair a ddefnyddiwyd gan Goleg Brenhinol y Nyrsys yn arbennig am rai o'r agweddau a nodwyd gan ei aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis gallu cyfrannu at y drafodaeth ar wella'r gwasanaeth iechyd, er enghraifft, a thynnu sylw at faterion sydd yn eu barn hwy yn codi materion yn ymwneud â chymhwysedd clinigol a phryderon am gyfeiriad y byrddau iechyd lleol. Credaf y gallai Aelodau dynnu sylw at lywodraeth leol ac agweddau eraill ar wasanaethau cyhoeddus lle mae aelodau o'r gweithlu yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'r broses. Rwyf yn siŵr, ac rwyf yn gobeithio, y bydd y comisiwn hwn yn gallu mynd i mewn i siarad â phob aelod o'r staff, os byddant am wneud hynny, yn ddilyffethair ac yn agored.

Cyfeiriasoch hefyd at y pwynt am ad-drefnu llywodraeth leol. Credaf ichi ddweud nad oedd y ddaidl dros ad-drefnu wedi ei gwneud. Mae hwnnw'n ymadrodd diddorol. A ydych, felly, yn gobeithio y bydd y comisiwn hwn yn cyflwyno achos dros ad-drefnu ac a wnewch chi ymhelaethu ar eich syniadau ynghylch yr hyn a allai ddeillio o'i waith mewn llywodraeth leol, er enghraifft, lle mae dadl go iawn ynghylch a oes arnom angen ad-drefnu llwyr, neu a oes angen mwy o gydweithio? Fel y dywedais, mae'r ffordd yr ydych wedi geirio hyn yn y datganiad yn awgrymu efallai eich bod yn disgwyl i'r comisiwn hwn wneud y ddaidl drosoch.

Rydych hefyd yn sôn am gadw gwasanaethau cyhoeddus yn gyhoeddus. Cytunaf â chi. Fodd bynnag, gall darparu gwasanaeth gynnwys llu o bartneriaid, boed hynny yn y trydydd sector neu yn y sector annibynnol. Cymeraf na fydd y comisiwn yn cael ei atal rhag edrych ar bob model o ddarpariaeth, ar yr amod mai'r bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod lleol, neu pa bynnag sefydliad cyhoeddus yw'r comisiynydd fydd yn gyfrifol am ymrwymiad a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, cymeraf nad oes unrhyw gyfyngiadau o ran manau na fydd yn gallu ymchwilio iddynt a'u hystyried, megis a oes mwy o rôl i'r sector annibynnol neu'r trydydd sector. Dro ar ôl tro, pan fyddwn yn cymryd tystiolaeth yn y sefydliad hwn, mae'r trydydd sector yn gresynu at gryfder y sector cyhoeddus, ac yn ei ystyried yn gystadleuydd, yn hytrach nag yn bartner ac yn hwylusydd o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fe'ch cyfeiriaf at wasanaethau cadeiriau olwyn, er enghraifft, a'r dystiolaeth a roddodd y Groes Goch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

You have also ruled out the commission looking at the health service. Again, I would agree with you there. Only in 2009 was a comprehensive review of the health service in Wales undertaken, in light of the disastrous reforms that were brought forward in 2004 by the previous Labour Government. That was supposed to set the course for a generation, but, within five or six years, the whole thing was ripped up. The last thing that the health service needs is another complete transformation and the ripping up of its blueprint. However, I believe that it is important that the commission has the opportunity to look at how the health service interacts with other providers, mainly social care, for example, as well as looking at the provision of community health councils, and the advocacy and role that CHCs play in pushing the health service to deliver better. Therefore, will the commission be looking at the role of the health service, or is the health service, per se, off limits, because, as you put it in your statement, you do not foresee any reorganisation of the health service?

Rydych hefyd wedi dweud na fydd y comisiwn yn edrych ar y gwasanaeth iechyd. Unwaith eto, byddwn yn cytuno â chi yn hynny o beth. Yn 2009 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn wyneb y diwygiadau trychinebus a gafodd eu dwyn ymlaen yn 2004 gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Roedd hynny i fod i bennu trywydd am genhedlaeth, ond, o fewn pump neu chwe mlynedd, rhoddwyd y gorau i'r holl beth. Y peth olaf sydd ei angen ar y gwasanaeth iechyd yw trawsnewidiad llwyr arall a rhoi'r gorau i'w lasbrint. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig fod y comisiwn yn cael cyfle i edrych ar y ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yn rhyngweithio â darparwyr eraill, a darparwyr gofal cymdeithasol yn bennaf, er enghraifft, yn ogystal ag edrych ar ddarpariaeth cyngorau iechyd cymuned, ac eiriolaeth a rôl Cyngorau Iechyd Cymuned wrth wthio'r gwasanaeth iechyd i ddarparu'n well. Felly, a fydd y comisiwn yn edrych ar rôl y gwasanaeth iechyd, neu a yw'r gwasanaeth iechyd wedi'i wahardd iddo oherwydd, fel y dywedasoch yn eich datganiad, nad ydych yn rhagweld unrhyw ad-drefnu ar y gwasanaeth iechyd?

You also touch in your statement on the interface with 'non-devolved ones'—I presume that you are talking about the cross-border provision of public services. That is very important for mid Wales, for example, where much public service support relies on cross-border support. Can you outline what action you have taken to engage with Westminster Ministers and, indeed, the Secretary of State, so that there is buy-in from the providers on a cross-border basis? I assume that that is what that sentence in your statement means, when you mention the interface with 'non-devolved ones'—that is how you have worded it in your statement. I do worry—

Rydych hefyd yn crybwyll yn eich datganiad y rhyngwyneb â'r rhai heb eu datganoli—cymeraf eich bod yn siarad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dros y ffin. Mae hynny'n bwysig iawn i ganolbarth Cymru, er enghraifft, lle mae darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus yn dibynnu i raddau helaeth ar gefnogaeth drawsffiniol. A allwch chi amlinellu pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i ymgysylltu â Gweinidogion San Steffan ac, yn wir, â'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y gall y darparwyr brynu i mewn ar sail drawsffiniol? Cymeraf mai dyna y mae'r frawddeg yn eich datganiad yn ei olygu, pan soniwch am y rhyngwyneb â'r rhai heb eu datganoli—dyna sut yr ydych wedi ei eirio yn eich datganiad. Rwyf yn poeni—

- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You have now taken as long as the First Minister took to make his statement. Can you, therefore, conclude with this final point? Yr ydych bellach wedi cymryd cyhyd ag y cymerodd y Prif Weinidog i wneud ei ddatganiad. A wnech chi, felly, orffen â'r pwynt olaf hwn?
- 15:33 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I had more points to make. Roedd gennyf fwy o bwyntiau i'w gwneud.
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You can make one more point. Gallwch wneud un pwynt arall.
- 15:33 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- No, that is okay. Na, mae hynny'n iawn.
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I therefore call on the First Minister to reply to the debate. Felly, galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddatganiad.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

On the first issue that was raised by the leader of the opposition, it is right to say that this is not a Silk-type process, and nominees were not sought from different parties, even though there are members of different parties on the commission itself. We expect staff to be fully engaged and fully involved in any process, and it will be for the commission to decide how it engages—to use that word—as fully as possible with staff, and to choose the methods by which it does that.

I was asked particularly about reorganisation. I do not believe that there is anyone—or there may be one or two in the Chamber—who believes that having 22 local authorities, with their present boundaries, is right for delivering local government services across Wales. Therefore, the issue of local government reorganisation is something that this commission can consider, and we look forward to any conclusions that it may come to as a result of that. We have had several reviews in the past—Beecham, for example, being one of them—where collaboration has been suggested as the way forward. It has had, to say the least, mixed results. Therefore, fundamental reorganisation may—and I do not wish to pre-empt what the commission is going to do or say—be the way forward.

In terms of public services remaining public, there is no question of public services being privatised, under any circumstances. I can give the Chamber that reassurance. On health, the leader of the opposition asks whether everything is out of bounds in health. The answer to that is 'no'. He refers to the statement that I made. While I stated that even though the structure of health delivery—namely the LHBs—is not within the purview of this commission, I said that the role of the NHS and its performance and interaction with other services is very much within scope. It is not the case, therefore, that the entire delivery of health services is not something that would come under this commission's remit; it certainly does. With regard to non-devolved services, I do not mean those in England; I mean the police and the justice services that deliver services in Wales, but that are not answerable to or funded by the Welsh Government. It is right to say, for example, that, when it comes to emergency services, there is the anomaly where the police service is not devolved, but it is important that they are part of the thinking and the engagement that takes place when it comes to the reform of devolved services in Wales.

O ran y mater cyntaf a godwyd gan arweinydd yr wrthblaid, mae'n iawn dweud nad yw hon yn broses ar batrwm Silk, ac na ofynnwyd i'r gwahanol bleidiau gynig enwau, er bod aelodau o wahanol bleidiau ar y comisiwn ei hun. Rydym yn disgwyl i staff ymgysylltu'n llawn â hyn a chymryd rhan lawn yn unrhyw broses, a mater i'r comisiwn fydd penderfynu sut y mae'n ymgysylltu—a defnyddio'r gair hwnnw—hyd eithaf ei allu â staff, a dewis y dulliau er mwyn gwneud hynny.

Gofynnwyd imi'n arbennig am ad-drefnu. Nid wyf yn credu bod unrhyw un—neu efallai fod un neu ddau yn y Siambr—sy'n credu bod cael 22 o awdurdodau lleol, gyda'u ffiniau presennol, yn briodol o ran darparu gwasanaethau llywodraeth leol ar draws Cymru. Felly, mae mater ad-drefnu llywodraeth leol yn rhywbeth y gall y comisiwn hwn ei ystyried, ac rydym yn edrych ymlaen at unrhyw gasgliadau y gallai eu gwneud yn sgil hynny. Cawsom nifer o adolygiadau yn y gorffennol—mae Beecham, er enghraifft, yn un ohonynt—lle yr awgrymwyd mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen. Bu'r canlyniadau, a dweud y lleiaf, yn gymysg. Felly, efallai mai ad-drefnu sylfaenol—ac nid wyf am achub y blaen ar yr hyn y mae'r comisiwn yn mynd i'w wneud na'i ddweud—yw'r ffordd ymlaen.

O ran cadw gwasanaethau cyhoeddus yn gyhoeddus, ni fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu preifateiddio ar unrhyw gyfrif, o dan unrhyw amgylchiadau. Gallaf sicrhau'r Siambr o hynny. O ran iechyd, mae arweinydd yr wrthblaid yn gofyn a yw popeth wedi'i wahardd ym maes iechyd. Yr ateb i hynny yw 'nac ydyw'. Mae'n cyfeirio at y datganiad a wneuthum. Dywedais fod rôl y GIG a'i berfformiad a'i ryngweithio â gwasanaethau eraill yn sicr o fewn y cwmpas, er nad yw strwythur darpariaeth iechyd—sef y byrddau iechyd lleol—o fewn cylch gorchwyl y comisiwn hwn. Nid yw'n wir, felly, fod holl ddarpariaeth y gwasanaethau iechyd yn rhywbeth nad yw'n rhan o gylch gorchwyl y comisiwn hwn; mae'n sicr yn rhan ohono. O ran y gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli, nid wyf yn golygu'r rhai yn Lloegr; cyfeirio yr wyf at yr heddlu a'r gwasanaethau cyfiawnder sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru, ond nad ydynt yn atebol i Lywodraeth Cymru nac yn cael eu hariannu ganddi. Mae'n wir dweud, er enghraifft, o ran y gwasanaethau brys, fod anghysondeb lle nad yw gwasanaeth yr heddlu wedi'i ddatganoli, ond mae'n bwysig eu bod yn rhan o'r meddwl a'r ymgysylltu sy'n digwydd o ran diwygio gwasanaethau datganoledig yng Nghymru.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad heddiw ac, ar ran Plaid Cymru, croesawaf y datganiad yn fawr. Fel ei blaid yntau, soniodd Plaid Cymru yn ei manifesto yn yr etholiad diwethaf am sefydlu comisiwn o'r fath i edrych ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, felly, rydym yn falch bod y comisiwn wedi ei sefydlu gan y Prif Weinidog a'r Lywodraeth bresennol.

I thank the First Minister for his statement today and, on behalf of Plaid Cymru, warmly welcome it. As is the case with his own party, we in Plaid Cymru stood on a manifesto in the last election that talked of the establishment of such a commission to look at local government and public services, so we are pleased that the commission has now been established by the First Minister and the current Government.

Rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog hefyd wedi cael y pwyslais yn iawn o ran cylch gorchwyl y comisiwn, sef y ffocws ar sut y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu, yn hytrach nag ar strwythurau, yn y lle cyntaf. Wedi dweud hynny, credaf fod angen edrych ar nifer yr awdurdodau lleol, yn y pen draw. Er bod y comisiwn a'r gwaith mae'r Prif Weinidog wedi'i amlinellu yn rhoi'r ceffyl gyntaf a'r cart yn ail, mae gormod o anghofio'r cart wedi bod dros y blynyddoedd, ac mae angen mynd i'r afael â'r broblem honno. Rwy'n gobeithio, felly, y bydd y comisiwn hwn yn argymhell nifer a maint awdurdodau lleol. Rydym eisiau gweld arweiniad ar y mater hwn ac rydym i gyd ynghlwm wrth hyn, wrth gwrs, fel pleidiau gwleidyddol.

Croesawaf hefyd yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ynglŷn ag athroniaeth y comisiwn tuag at wasanaethau cyhoeddus a gwrthod marchnadeiddio, yn enwedig troi gwasanaethau cyhoeddus yn rhyw fath o gynnyrch i'w fasnachu yn yr ystyr hwnnw. Croesawaf hynny; mae Plaid Cymru yn cytuno â hynny. Mae'r cwestiwn yn codi ynglŷn â beth sy'n digwydd i rai o syniadau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â chael gwasanaeth preifat, o bosibl, i redeg y gwasanaeth addysg ym Merthyr Tydfil, fel yr awgrymwyd yn ddiweddar. Mae angen anghofio am syniadau felly nes bod gwaith y comisiwn wedi dod i ben a'i bod yn glir sut mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau'r arfer da gorau.

Hoffwn holi sut y bydd y comisiwn yn gweithredu. Nid yw'r comisiwn yr un fath â chomisiwn Silk, er enghraifft, ond byddwn yn croesawu gweld y comisiwn hwn yn gweithredu yn agored ac yn dryloyw, yn cynnal cyfarfodydd agored cyhoeddus, yn rhoi tystiolaeth ar-lein ac yn cynnal sesiynau trafod gyda gwahanol gyrff ac unigolion ar hyd a led Cymru. Er ei fod wedi gosod amserlen eithaf tyn—diwedd y flwyddyn—mae amser i gynnal sgwrs genedlaethol o'r fath ac i fod yn gwbl agored ynglŷn â'r dystiolaeth sy'n cael ei rhoi a'r trafodion sy'n cael eu cynnwys. Gobeithiaf y bydd y Prif Weinidog yn dweud rhywbeth ynglŷn â hynny.

Mae un man lle mae Plaid Cymru yn anghytuno â'r hyn mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud; nid ydym yn cytuno na ddylai byrddau iechyd fod yn rhan o'r sgwrs hon. Y rheswm am hynny—bydd cyfle i drafod hyn ymhellach yn ein dadl ni yfory—yw ein bod yn gweld fwyfwy yr angen i uno gwaith y byrddau iechyd a gwaith y gwasanaethau cymdeithasol drwy gronni cyllid ac ati a ffurfio mwy o gysondeb rhwng y gwasanaethau. Hoffwn weld y byrddau iechyd yn y pair yn yr ystyr hwn. Hyd yn oed os nad ydych am newid y byrddau iechyd o safbwynt eu hól-troed daearyddol, byddwn am eu gweld yn rhan o'r sgwrs, o ran sut y maent yn ymwneud â'r gweddill a sut, yn wir—fel y byddwn yn trafod yfory—mae democrateiddio'r gwasanaeth iechyd tipyn bach yn fwy. Un peth sy'n cael ei gollu yn y dadl gyhoeddus ar hyn o bryd, gyda llawer o ranbartholi a nifer o wasanaethau cyhoeddus yn newid—fel sy'n gorfod digwydd; rydym yn derbyn hynny—yw'r cyswllt uniongyrchol rhwng y pleidleisiwr a'r cynghorydd neu bwy bynnag sydd wedi ei ethol i gynrychioli barn. Mae hynny'n cael ei lastwreiddio ac nid yw'n glir i'r cyhoedd sut maent ym ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn y cyd-destun hwn. Mae angen i'r comisiwn fod yn glir ynglŷn â'r rôl honno.

I also think that the First Minister got the emphasis right in terms of the remit of the commission, with its focus on how services are to be delivered, rather than on structures, initially. Having said that, I think that we ultimately need to look at the number of local authorities. Although the commission and the work outlined by the First Minister puts the horse before the cart, we have forgotten the cart too often in the past, and we have to get to grips with that problem. Therefore, I hope that what the First Minister has just said, that the commission will make recommendations on the number and size of local authorities, will emerge. We want to see some leadership on that issue and we are all involved in this, of course, as political parties.

I also welcome what the First Minister said on the philosophy of this commission in terms of public services, rejecting the marketisation of public services, especially turning them into some sort of product to be traded in that sense. I welcome that; Plaid Cymru agrees with that. The question does arise of what happens to some of the ideas put forward by the Minister for Education and Skills on the possibility of having a private service to run the education service in Merthyr Tydfil, as has recently been suggested. Such ideas should be put to one side until the work of the commission has been concluded and until it is clear how public services in Wales can support each other and collaborate at a regional and national level to ensure best practice.

I would like to ask how the commission will operate. This is not a Silk-type commission, but I would welcome that it should work openly and transparently, holding open public meetings, providing its evidence online, and holding discussion sessions with various individuals and groups across Wales. Although he has set quite a tight timetable—the end of the year—there is time to hold such a national conversation and to be entirely open about the evidence provided and about the proceedings. I hope that the First Minister will have something to say on that issue.

There is one area in which Plaid Cymru disagrees with what the First Minister has said; we do not agree that health boards should not be part of this conversation. The reason for that—there will be an opportunity to discuss this further in our debate tomorrow—is that we believe that there is now an increasing need to merge the services of health and social services by pooling budgets and by having greater consistency between those two services. I would like to see the health boards being included, therefore, in this commission's work. Even if you do not want to change the health boards in terms of their geographical footprint, I would like to see this being part of the conversation along with how, indeed—as we will discuss tomorrow—we can democratise the health service a little more. One of the things that is lost in the public debate at present, with much regionalisation and many changes happening in public services—as has to happen; we accept that—is the direct link between the voter and the councillor or whoever is elected to represent opinion. That is being diluted and it is not clear to the public how they relate to public services in this context. This commission has to be clear on that role.

Roeddwn hefyd yn synnu braidd o weld nad oes unrhyw sôn yn y datganiad ynglŷn â datblygu gwasanaeth sifil cenedlaethol, unedig Cymreig, yn rhedeg ar draws Llywodraeth, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Yn y Llywodraeth ddiwethaf, roedd gan y Prif Weinidog ddiddordeb yn y syniad hwn, ac yn sicr yn y syniad o wasanaeth sifil cyhoeddus i Gymru sydd yn unedig ac yn gallu trefnu ei hyfforddiant ei hun a defnyddio arfer da. Felly, hoffwn glywed gan y Prif Weinidog sut mae'n meddwl y gallai'r syniad hwnnw gael ei gymryd ymlaen gan y comisiwn.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn croesawu'r ffaith bod rhychwant o farn gyhoeddus yn cael ei gynrychioli ar y comisiwn hwn. Nid oes gan Blaid Cymru enwebai ar y comisiwn; mae'n bwysig pwysleisio hynny. Rydym yn croesawu gwaith y comisiwn a byddwn yn gweithio gyda'r comisiwn, cymaint ag y gallwn, ond byddwn hefyd yn edrych ar y materion hyn fel plaid ac efallai'n ffurfio ein polisiau ein hun a fydd yn wahanol, o bryd i'w gilydd, i rai'r comisiwn. Edrychwn ymlaen at y sgwrs a fydd yn deillio o hynny.

Yn olaf, byddai'n braf pe bai'r comisiwn hwn hefyd yn gallu edrych ar sut rydym yn rheoli'r tâl eithriadol o uchel sy'n cael ei ennill gan rai o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus.

I was also a little surprised to see that there is no mention in the statement of the development of a national unified Welsh civil service that runs across Government, local government and the health service. The First Minister had an interest in this concept in the previous Government, and was certainly interested in the concept of a public civil service for Wales that is united and able to arrange its own training and roll out best practice. Therefore, I would like to hear from the First Minister how he thinks that that concept could be taken forward by the commission.

We in Plaid Cymru welcome the fact that a range of public opinion is represented on this commission. Plaid Cymru has no nominee on the commission; it is important to emphasise that. We welcome the work of the commission, and we will work with it, as much as possible, but we will also look at these issues as a party and will perhaps draw up our own policies, which may differ to those of the commission. We look forward to the conversation that will emerge from that.

Finally, it would be good if this commission could also look at how we manage the incredibly high salaries paid to some within our public services.

15:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I ddelio â'r pwynt ar enwebiadau, nid wyf am i bleidiau fod ynghlwm ag unrhyw gasgliadau gan y comisiwn. Mae'r gwasanaeth sifil yn wahanol, achos rydym yn siarad yn y comisiwn hwn am wasanaethau sydd yn dod o dan bwerau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Nid yw'r gwasanaeth sifil yn un ohonynt, neu mae peth ohono, ond nid y cyfan, yn dod dan y pwerau hynny. Felly, roeddwn eisiau comisiwn a oedd yn gallu edrych ar newid y strwythurau mae gennym y pwerau i'w newid. Mae'n rhaid inni gofio nad oedd gennym y pwerau i newid strwythur llywodraeth leol tan ganlyniad llwyddiannus y refferendwm yn 2011. Yn awr mae'r pwerau gennym i newid y strwythur ac, os mai dyna gasgliadau'r comisiwn, byddwn yn gallu gweithredu hynny.

I fod yn glir, yr unig beth ynglŷn â'r byrddau iechyd nad yw'n dod o dan gwmpas y comisiwn yw eu strwythur. Nid yw'r hyn y maent yn ei wneud y tu allan i rym y comisiwn. Mae'n rhaid inni ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu delifro, ac efallai y bydd y comisiwn yn edrych ar ddod i gasgliadau ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd weithio yn agosach gyda'i gilydd. Felly, ni fydd hynny y tu allan i waith y comisiwn. Dim ond strwythur y byrddau iechyd a'r ffiniau daeryddol y maent yn gweithio ynddynt sydd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw.

Rwy'n croesawu gweddill yr hyn a ddywedodd Simon Thomas, ond nod y comisiwn yw sicrhau bod gennym strwythur yn y dyfodol sydd o les i Gymru ac y gallwn ni, yn y Cynulliad, ei drefnu gan ei fod yn dod o dan bwerau'r Cynulliad.

To deal with the point on nominations, I do not want the parties to be linked to any of the commission's conclusions. The civil service is different, because this commission will be talking about services that are currently within the scope of the Welsh Government's powers. The civil service is not one of those powers, or part of it—not all—comes within those powers. Therefore, I wanted a commission that could look at changing the structures that we are able to change. We must bear in mind that, until the successful referendum of 2011, we did not have the power to change the structure of local government. We now have the power to change that structure; if the commission comes to that conclusion, we can implement that.

To be clear, the only aspect of the health boards that does not come within the scope of the commission's work is the structure. Their work is not beyond the commission's remit. We must consider how services are delivered, and the commission may look at coming to conclusions on how social services and health should work together more closely. Therefore, that will not be beyond the scope of the commission's work. The only thing beyond that remit is the structure of the health boards and their geographical footprint.

I welcome the rest of what Simon Thomas said, but the commission's aim is to ensure that, in future, we have a structure that is of benefit to Wales and that we, in the Assembly, are able to arrange it, as it forms part of the Assembly's powers.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:43

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the First Minister for his statement and welcome the commitment to public services remaining public, rather than being turned into traded commodities in which the service becomes the least important part of it, the public is downgraded and it is all about someone trying to make a profit out of it. Will joint boards for education and social services, along a structure similar to that of the fire services—although, obviously, not on the same boundaries—be among the options that will be considered? Does the First Minister know of any serious problems in local government provision, outside education and social services, anywhere in Wales, excluding Anglesey?

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Rwyf yn croesawu'r ymrwymiad i gadw gwasanaethau cyhoeddus yn gyhoeddus, yn hytrach na'u troi'n nwyddau masnachu lle'r ystyrir mai'r gwasanaeth yw'r elfen leiaf pwysig, lle caiff y cyhoedd eu hisraddio a lle mae'n ymwneud â rhywun yn ceisio gwneud elw. A fydd byrddau ar y cyd ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ar batrwm tebyg i un y gwasanaeth tân—er, yn amlwg, nid ar yr un ffiniau—ymhlith yr opsiynau a fydd yn cael eu hystyried? A yw'r Prif Weinidog yn gwybod am unrhyw broblemau difrifol yn narpariaeth llywodraeth leol, y tu hwnt i addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn rhywle yng Nghymru, ac eithrio Ynys Môn?

15:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First, on joint boards, these are matters for the commission to consider as to what it sees as the best structure for the way forward. One of the issues with social services is that there is an argument that social care might be more closely integrated with health, but that does not apply to children's services, which would sit outside that.

Yn gyntaf, o ran y byrddau ar y cyd, mae'r rhain yn faterion i'r comisiwn eu hystyried o safbwynt y ffordd orau o frwr ymlaen â hyn. Un o'r problemau â'r gwasanaethau cymdeithasol yw bod dadl y gellid integreiddio gofal cymdeithasol yn agosach ag iechyd, ond nid yw hynny'n berthnasol i wasanaethau plant, a fyddai y tu allan i hynny.

In terms of problems outside education and social services, it is not so much of problems as the effectiveness of delivery. Is it effective to have 22 economic development departments in local authorities and is it effective to have 25 local planning authorities in Wales? I know that there are issues with planning where, quite often, very large planning applications come before local authorities and they find it very difficult to deal with them, because the planning departments are not in a position to deal with such large applications. So, there are issues that surround the effectiveness of local authorities in terms of how they deliver services that the commission will need to examine.

O ran y problemau y tu hwnt i addysg a gwasanaethau cymdeithasol, nid yw'n fater o broblemau yn gymaint ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth. A yw'n effeithiol cael 22 o adrannau datblygu economaidd yn yr awdurdodau lleol ac a yw'n effeithiol cael 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru? Gwn fod problemau gyda chynllunio lle mae ceisiadau cynllunio mawr iawn, yn aml iawn, yn dod o flaen yr awdurdodau lleol ac maent yn ei chael yn anodd iawn ymdrin â hwy, oherwydd nad yw'r adrannau cynllunio mewn sefyllfa i ymdrin â cheisiadau mawr o'r fath. Felly, mae materion i'w hystyried o safbwynt effeithiolrwydd awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau y bydd angen i'r comisiwn edrych arnynt.

15:45

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I start with the point made by Andrew R.T. Davies and Simon Thomas that this is not a Silk-style commission. The representatives on it are not the nominees of the parties. In a sense, that is a shame because it would have been useful if we could have had some cross-party consensus on the way forward for this. That sort of commission might have helped to develop that consensus. Although we have a range of views on that commission, this is, effectively, the Government's commission, and the conclusions will be in the ownership of the Government, not of the other parties.

Rwyf am ddechrau â'r pwynt a wnaed gan Andrew R.T. Davies a Simon Thomas nad yw hwn yn gomisiwn ar batrwm Silk. Nid yw'r cynrychiolwyr wedi eu henwebu gan y pleidiau. Ar un ystyr, mae hynny'n drueni oherwydd byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhywfaint o gonsensws ar draws y pleidiau ar y ffordd ymlaen yn hyn o beth. Gallai'r math hwnnw o gomisiwn fod wedi helpu i ddatblygu'r consensws hwnnw. Er bod gennym amryw o safbwyntiau ar y comisiwn hwnnw, comisiwn y Llywodraeth yw hwn i bob pwrpas, a bydd y casgliadau ym mherchnogaeth y Llywodraeth, nid y pleidiau eraill.

I am concerned, as are other Members, about some of the restrictions within which this commission, it seems, will be operating. I think that we have already touched, in a number of contributions, upon the fact that local health boards are being excluded from this review. I think that the point has been made that there is a need to look at the functions of those boards and how they work with local authorities, to try to get some better, joined-up delivery. However, some of that may involve breaking down organisational and area barriers, and that might not be possible if you exclude the make-up of the local health boards from the work of the commission.

Rwyf yn bryderus, fel y mae Aelodau eraill, am rai o'r cyfyngiadau a fydd, mae'n ymddangos, ar waith y comisiwn hwn. Credaf ein bod eisoes wedi cyffwrdd, mewn nifer o gyfraniadau, ar y ffaith nad yw byrddau iechyd lleol yn rhan o'r adolygiad hwn. Credaf fod y pwynt wedi ei wneud bod angen edrych ar swyddogaethau'r byrddau hynny a'r ffordd y maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol, i geisio cael darpariaeth well, gydgysylltiedig. Fodd bynnag, gallai rhywfaint o hynny olygu chwalu rhwystrau o ran sefydliadau ac ardaloedd, ac efallai na fydd hynny'n bosibl oni fydd cyfansoddiad y byrddau iechyd lleol yn rhan o waith y comisiwn.

In addition to that, of course, you already have a social services Bill going through, with some changes there in terms of structures, and you have a review of education being undertaken by the Minister for Education and Skills. I am interested to know how those reviews and changes fit with the review that your commission will be looking at. It seems to me that this hardly invites blue-sky thinking in terms of how public services can be developed across Wales, given that they are operating in a short period of time and under a number of, what seem to be, restraints in terms of the other reviews that are going on.

Also, First Minister, as part of the remit of this commission, will you be looking at not just improving joined-up delivery, but local accountability and transparency? I certainly share the aspiration that Simon Thomas outlined in terms of a better democratic accountability at a local level for these services. Again, that underlines the importance of the failure to include local health boards in that. Therefore, I am interested in your views as to how they will be looking at that, First Minister.

Finally, could you confirm whether the remit of this board will also include looking at the national parks, their continuing existence, and how they will operate in the future?

15:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

In terms of the final question, the answer is 'yes', because the national parks fall under the definition of a public service.

The terms of the review are deliberately drawn very widely. As I say, the only exception that has been put in is the structure of local health boards. In terms of governance, for example, that is something that the commission could certainly look at. The reason why the structure of LHBs and their boundaries is not included is because the recent reorganisation is still only fresh and it would be overly disruptive to start looking at their boundaries once again, although governance and delivery certainly are issues that the commission can look at. The review itself has a wide remit in that regard. It is designed to look at all levels of public service, with a view to ensuring that we have services that are fit going ahead in the future.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I ask the remaining speakers to limit themselves to one or two questions each, please.

15:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

While I welcome the announcement on the terms of reference for the commission, I have some concerns. I am concerned about some of the directions that the commission is taking. There is mention of cross-sectional working and I wonder—as has been touched upon—about cross-border working.

Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, mae Bil gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn mynd rhagddo, gyda rhai newidiadau yno o ran strwythurau, ac mae adolygiad o addysg yn cael ei gynnal gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae gennyf ddiddordeb gwybod sut y mae'r adolygiadau a'r newidiadau hynny'n cyd-fynd â'r adolygiad y bydd eich comisiwn chi yn edrych arno. Go brin y bydd hyn, yn fy marn i, yn gwahodd meddwl heb orwelion o ran sut y gellir datblygu gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru, o ystyried eu bod yn gweithredu mewn cyfnod byr o amser ac o dan nifer o gyfyngiadau, fe ymddengys, o ran yr adolygiadau eraill sy'n mynd rhagddynt.

Hefyd, Brif Weinidog, fel rhan o gylch gorchwyl y comisiwn hwn, a fyddwch yn edrych nid yn unig ar wella darpariaeth gydgyssylltiedig, ond hefyd ar atebolrwydd a thryloywder lleol? Rwyf yn sicr yn rhannu'r dyhead a amlinellodd Simon Thomas o ran gwell atebolrwydd democrataidd ar lefel leol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Unwaith eto, mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd y methiant i gynnwys byrddau iechyd lleol yn hynny. Felly, mae gennyf ddiddordeb yn eich barn ynghylch sut y byddant yn edrych ar hynny, Brif Weinidog.

Yn olaf, a allwch chi gadarnhau a fydd cylch gwaith y bwrdd hwn hefyd yn cynnwys edrych ar y parciau cenedlaethol, eu parhad, a sut y byddant yn gweithredu yn y dyfodol?

O ran y cwestiwn olaf, yr ateb yw 'bydd', gan fod y parciau cenedlaethol yn dod o dan y diffiniad o wasanaeth cyhoeddus.

Mae telerau'r adolygiad yn fwriadol yn eang iawn. Fel y dywedais, yr unig eithriad sydd wedi'i gynnwys yw strwythur y byrddau iechyd lleol. O ran llywodraethu, er enghraifft, mae hynny'n rhywbeth y gallai'r comisiwn yn sicr edrych arno. Y rheswm pam nad yw strwythur y byrddau iechyd lleol a'u ffiniau wedi'u cynnwys yw mai dim ond yn ddiweddar y bu ad-drefnu arnynt ac y byddai edrych ar eu ffiniau unwaith eto'n peri gormod o ddrwschw, er bod llywodraethu a darparu yn sicr yn faterion y gall y comisiwn edrych arnynt. Mae gan yr adolygiad ei hun gylch gwaith eang yn hynny o beth. Mae wedi ei gynllunio i edrych ar bob lefel o wasanaeth cyhoeddus, gyda golwg ar sicrhau bod gennym wasanaethau sy'n addas wrth symud ymlaen yn y dyfodol.

Gofynnaf i'r siaradwyr eraill eu cyfyngu eu hunain i un neu ddau o gwestiynau yr un, os gwelwch yn dda.

Er fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad am gylch gorchwyl y comisiwn, mae gennyf rai pryderon. Rwyf yn pryderu am rai o'r cyfeiriadau y mae'r comisiwn yn eu cymryd. Mae sôn am weithio trawsadrannol, ac o bosibl—fel y soniwyd amdano eisoes—am weithio ar draws ffiniau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Also, we talk very much in this Chamber about equality. I am baffled. For any public service delivery to be effective in Wales, and certainly with the review, I would have liked to have seen, and I would ask whether you would consider having, someone from the sector in terms of equality, because it was only at the Communities, Equality and Local Government Committee last Thursday that we discussed how we too often talk over people's heads. While you may have pulled together some professional experts, at the end of the day, when it comes to service users, we must include people such as the disabled because there will be thousands of disabled people wanting to access these services. I would like to see equality as a key theme through this commission. I would like to see someone from the disability sector being able to have a say in this—not just politicians or people from other organisations.

I question how this will work. Will it work in its own little silo, or will it work in conjunction with—or link in with—your quite costly delivery unit, which is already in place? As Peter Black AM has quite rightly pointed out, all the statements and announcements that you have made thus far make little mention of transparency and accountability. We have to get that right from the onset. Whatever changes are made, in whatever direction and whichever body is involved, transparency and accountability must be threaded throughout them. There also has to be local accountability. People do not want to see their services removed. It would be really radical for the Welsh Government to allow true localism and to devolve these services as near as possible to those who need them.

Hefyd, rydym yn siarad cryn dipyn yn y Siambr hon am gydraddoldeb. Mae'n ddirgelwch i mi. Er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol yng Nghymru, ac yn sic o ran yr adolygiad, byddwn wedi hoffi gweld, a byddwn yn gofyn a fydddech yn ystyried cael, rhywun o'r sector o safbwynt cydraddoldeb, oherwydd yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ddydd lau diwethaf buom yn trafod y ffaith ein bod yn rhy aml yn siarad dros bennau pobl. Er eich bod, efallai, wedi dwyn ynghyd rai arbenigwyr proffesiynol, yn y pen draw, o ran defnyddwyr gwasanaethau, mae'n rhaid inni gynnwys pobl megis pobl anabl oherwydd bydd miloedd o bobl anabl sydd am ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Hoffwn weld cydraddoldeb yn thema allweddol drwy'r comisiwn hwn. Hoffwn weld rhywun o'r sector anabled yn gallu cael llais yn hyn—nid dim ond y gwleidyddion neu bobl o sefydliadau eraill.

Tybed sut y bydd hyn yn gweithio? A fydd yn gweithio yn ei seilo bach ei hun, neu a fydd yn gweithio ar y cyd â'ch uned gyflawni eithaf costus, sydd eisoes ar waith, neu'n gysylltiedig â hi? Fel y mae Peter Black AC wedi'i nodi'n gwbl briodol, nid yw'r holl ddatganiadau a'r cyhoeddiadau yr ydych wedi'u gwneud hyd yma'n sôn rhyw lawer am dryloywder ac atebolrwydd. Mae'n rhaid inni gael hynny'n iawn o'r cychwyn. Pa bynnag newidiadau a wneir, ym mha bynnag gyfeiriad a pha bynnag gorff sy'n cymryd rhan, mae'n rhaid i dryloywder ac atebolrwydd fod yn rhan annatod ohonynt. Rhaid cael atebolrwydd lleol hefyd. Nid yw pobl am weld eu gwasanaethau'n cael eu tynnu oddi arnynt. Byddai'n wirioneddol radical i Lywodraeth Cymru ganiatáu gwir leoliaeth a datganoli'r gwasanaethau hyn mor agos â phosibl at y rheiny y mae angen y gwasanaethau arnynt.

15:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

I am surprised to hear that the delivery unit is very costly, given the fact that it comprises a small number of staff who were already working for the Welsh Government. I would not call that a particularly costly option.

In terms of the commission itself, it clearly needs to be representative. However, there is a limit as to how many members there can be on the commission. I believe that we have brought together a broad range of expertise from the political, business and public service worlds. I expect the commission to ensure that the voices of as many people as possible are heard during the course of its work. It will be important to reach out to people, so that their voices can be properly heard. I have no difficulty with the direction in which the commission is travelling or with its membership. I expect it to be as public, as open and as engaging as possible in the work that it takes forward, in order to bring forward a proposal for future public service delivery in Wales that I hope will produce a consensus in this Chamber.

Rwyf yn synnu o glywed bod yr uned gyflenwi yn gostus iawn, ac ystyried ei bod yn cynnwys nifer fechan o staff a oedd eisoes yn gweithio i Lywodraeth Cymru. Ni fyddwn yn galw hwnnw'n opsiwn arbennig o gostus.

O ran y comisiwn ei hun, mae'n amlwg fod angen iddo fod yn gynrychioliadol. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn o aelodau a all fod ar y comisiwn. Credaf ein bod wedi dwyn ynghyd ystod eang o arbenigedd o'r byd gwleidyddol, byd busnes a'r gwasanaethau cyhoeddus. Disgwyliaf i'r comisiwn sicrhau bod lleisiau cymaint o bobl â phosibl yn cael eu clywed yn ystod ei waith. Bydd yn bwysig estyn allan at bobl, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn iawn. Nid oes gennyf broblem â chyfeiriad y comisiwn nac â'i aelodaeth. Disgwyliaf iddo fod mor gyhoeddus ac agored â phosibl yn y gwaith y mae'n ei wneud, ac ymgysylltu cymaint â phosibl, er mwyn llunio cynnig ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol a fydd, rwyf yn gobeithio, yn creu consensws yn y Siambr hon.

15:52 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth groesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn ac yn frwd, gofynnaf i'r Prif Weinidog fynd un cam ymhellach a gofyn i'r comisiwn hwn edrych yn llwyr ar wasanaethau o safbwynt defnydd y dinesydd, gan osod integreiddio gwasanaethau—yn enwedig gofal cymdeithasol a iechyd—yn ganolog i'r gwaith sydd ger ei fron.

In welcoming this statement most warmly and enthusiastically, I ask the First Minister to go one step further and to ask the commission to look at all services in terms of the citizen's usage, placing the integration of services—particularly social care and health—at the heart of the work before it.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hwn yn fater pwysig dros ben. Ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl Cymru—y dinasyddion—yn teimlo bod ganddynt wasanaeth cyhoeddus sy'n darparu'r gwasanaethau y byddant yn eu herfyn yn y dyfodol. Ni allwn erfyn y bydd y strwythurau a gafodd eu dodi i lawr yn y 1990au, neu efallai 10 mlynedd yn ôl, yn mynd i bara am ddegawd neu ddwy yn y pen draw. Dyna pam y mae'n bwysig dros ben i gael y comisiwn yn awr i wneud y gwaith er mwyn sicrhau, ar ddiwedd y dydd, bod pobl yn gweld gwahaniaeth i'r gorau ar eu stepen drws.

This is a very important matter. Ultimately, we need to ensure that the people of Wales—the citizens—feel that they have a public service that provides the services that they will need in the future. We cannot expect that the structures that were put down in the 1990s, or perhaps 10 years ago, will last for another decade or two ultimately. That is why it is very important to ensure that this commission undertakes this work to ensure, at the end of the day, that people see a difference and a change for the better on their door steps.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:53

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Essentially, I have a single point. Your statements today, both written and oral, effectively comprise the terms of reference for the commission that will be carrying out this work. I note your comment that public services must remain public, with which I am sure that we all agree, but also your comment that you are against marketisation. May I clarify that, in your definition of 'marketisation', you would not exclude a citizen-directed or person-centred approach, which is something that is working well already in many parts of Wales and in many different projects? In particular, the disability sector and disability organisations have been calling for that for a very long time. We are working on the basis that the individuals, with the providers, identify what is going to deliver the best outcomes for them and their communities, thereby reabling communities and delivering potentially more for the resource available.

Yn y bôn, mae gennyf un pwynt. Mae eich datganiadau heddiw, yn ysgrifenedig ac ar lafar, i bob pwrpas yn nodi cylch gorchwyl y comisiwn a fydd yn gwneud y gwaith hwn. Nodaf eich sylw bod yn rhaid cadw gwasanaethau cyhoeddus yn gyhoeddus, ac rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn cytuno â hynny, ond hefyd eich sylw eich bod yn erbyn marchnadeiddio. A gaf i geisio eglurhad na fydddech, yn ôl eich diffiniad o 'farchnadeiddio', yn diystyru dull a gyfarwyddir gan y dinesydd neu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n gweithio'n dda eisoes mewn sawl rhan o Gymru ac mewn llawer o brosiectau gwahanol? Yn benodol, mae'r sector anabled a sefydliadau anabled wedi bod yn galw am hynny ers amser hir iawn. Rydym yn gweithio ar y sail y bydd yr unigolion, ar y cyd â'r darparwyr, yn nodi'r hyn a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt hwy a'u cymunedau, a thrwy hynny'n ailalluogi cymunedau ac o bosibl yn cyflawni mwy â'r adnoddau sydd ar gael.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I will give you a couple of quick examples and then I will sit down. On end-of-life care, hospices are covering 70% of the cost. They say that they could do a lot more, but that health boards are threatening their funding. Another example is that beds are being commissioned by the NHS in Wales in private sector mental health hospitals, but full-spot market price is being paid. Meanwhile, lower prices are being paid for beds commissioned from England, in the same hospitals, because they have been commissioned in advance on a smart commission model.

Rhoddaf ychydig o enghreifftiau cyflym ichi ac yna eisteddaf. Ar ofal diwedd oes, mae hosbisau'n talu 70% o'r gost. Maent yn dweud y gallent wneud llawer mwy, ond bod y byrddau iechyd yn bygwth eu cyllid. Enghraifft arall yw bod gwelyau yn cael eu comisiynu gan y GIG yng Nghymru mewn ysbytai iechyd meddwl yn y sector preifat, ond mae pris llawn y farchnad yn cael ei dalu. Yn y cyfamser, mae prisiau is yn cael eu talu am welyau a gomisiynir o Loegr, yn yr un ysbytai, oherwydd eu bod wedi eu comisiynu ymlaen llaw ar fodel comisiynu clyfar.

15:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We will look for innovative solutions in terms of the provision of public services. However, I have to make it clear that I do not expect the commission to be examining whether public services should be passed over to profit-making organisations. That is not the role of those organisations, in terms of providing public services. The third sector has a role; there is no question about that. I am open to suggestions as to how the third sector might play a greater role. It is important that the third sector's expertise is tapped into, and that is something that we very much value. However, it is certainly not the case that wholesale privatisation, with services provided by private providers that are making a profit, is the way forward for Welsh public services.

Byddwn yn chwilio am atebion arloesol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid imi ei gwneud yn glir nad wyf yn disgwyl i'r comisiwn archwilio p'un a ddylai gwasanaethau cyhoeddus gael eu trosglwyddo i sefydliadau sy'n gwneud elw. Nid dyna rôl y sefydliadau hynny, o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan y trydydd sector rôl; nid oes amheuaeth am hynny. Rwyf yn agored i awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r trydydd sector chwarae mwy o ran. Mae'n bwysig manteisio ar arbenigedd y trydydd sector, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei werthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, yn sicr nid yw'n wir mai preifateiddio llwyr, a gwasanaethau'n cael eu darparu gan ddarparwyr preifat sy'n gwneud elw, yw'r ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad: Cyflwyno'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Yesterday, I laid the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. Today, I am pleased to introduce the Bill for Assembly Members' consideration.

Ensuring that our young people have the best opportunities in Wales is paramount. This Bill will implement a number of changes that govern further education institutions in Wales and provide a power for Her Majesty's Revenue and Customs to share information with the Welsh Ministers through a data link. The data will relate to the assessment of eligibility for student grants and loans. I am committed to removing a number of legislative restrictions and controls on colleges, without changing the principal powers of further education institutions to provide further, higher and, within some limits, secondary education.

Members will be aware that the Office of National Statistics determined the reclassification of colleges as part of central Government for the purpose of national accounts. Since their incorporation, further education institutions have been classified as non-profit institutions serving households. In October 2010, the ONS announced that it had reclassified further education institutions across the UK as part of central Government, based on definitions contained within the European 'Manual on Government Deficit and Debt'. This Bill will be the first part of a staged approach by the Welsh Government to seek to secure a reversal of the reclassification and have colleges in Wales reinstated as non-profit institutions serving households.

The proposed flexibilities do not come without appropriate controls, reflecting that further education institutions deliver a valuable public service. So, should a college demonstrate that it is failing to meet the needs of learners and those it serves, I have included intervention powers for the Welsh Ministers in the Bill. These powers are significant, and could result in the removal of the governing body or a direction for the governing body to collaborate. These intervention powers will sit alongside the raft of existing controls and regulations that provide a robust framework for safeguarding the public investment in further education, including conditions of funding, the quality effectiveness framework, audit and financial health monitoring, and Estyn's common inspection framework.

Statement: Introduction of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Ddoe, gosodais y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Heddiw, rwyf yn falch o gyflwyno'r Bil i'w ystyried gan Aelodau'r Cynulliad.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau yng Nghymru. Bydd y Bil hwn yn gweithredu nifer o newidiadau sy'n llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac yn rhoi pŵer i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu gwybodaeth gyda Gweinidogion Cymru drwy gyswllt data. Bydd y data yn ymwneud ag asesu cymhwysedd ar gyfer grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr. Rwyf wedi ymrwmo i gael gwared â nifer o reolaethau a chyfyngiadau deddfwriaethol ar golegau, heb newid prif bwerau sefydliadau addysg bellach i ddarparu addysg bellach, uwch ac, o fewn rhai cyfyngiadau, addysg uwchradd.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi aildosbarthu colegau fel rhan o'r Llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifon cenedlaethol. Ers eu corffori, mae sefydliadau addysg bellach wedi cael eu cyfrif yn sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bod wedi aildosbarthu sefydliadau addysg bellach ar draws y DU fel rhan o Lywodraeth ganolog, yn seiliedig ar y diffiniadau yn y llawlyfr Ewropeaidd ar ddiffyg a dyled Llywodraeth. Y Bil hwn fydd y cam cyntaf gan Lywodraeth Cymru i geisio gwrthdroi'r aildosbarthu ac adfer colegau yng Nghymru i fod yn sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd.

Nid yw'r hyblygrwydd arfaethedig yn dod heb reolaethau priodol, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod sefydliadau addysg bellach yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr. Felly, pe digwydd i goleg ddangos ei fod yn methu â diwallu anghenion y dysgwyr a'r rhai y mae'n eu gwasanaethu, rwyf wedi cynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru ymyrryd. Mae'r pwerau hyn yn sylweddol, a gallent arwain at gael gwared ar y corff llywodraethu neu roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu gydweithio. Bydd y pwerau ymyrryd yn eistedd ochr yn ochr â'r lluo o reolaethau a rheoliadau presennol sy'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg bellach, gan gynnwys amodau ariannu, y fframwaith effeithiolrwydd ansawdd, archwilio a monitro iechyd ariannol, a fframwaith arolygu cyffredin Estyn.

It is just over 21 years since the Further and Higher Education Act 1992 removed colleges from local government control, establishing them as autonomous and independent bodies. I recognise that the FE sector has come of age. Colleges have a critical role in the Welsh economy and, through the emergence of larger, more strategic organisations, they have evolved into key players in their communities. As such, Members can be assured that these proposals increase the capacity and flexibility of colleges, but do not translate into taking the pressure off colleges. On the contrary, I expect colleges to continue to take responsibility to ensure that they not only fulfil, but exceed the expectations and aspirations of their wide-ranging customers. Our objective is to build a Wales that gives our young people the very chances in life that are at the heart of the Welsh Government's vision. This Bill is being proposed within the strong and vibrant culture of collaboration, co-operation and partnership working. I believe that our proposed way forward is in the best interests of the sector, and in the best interests of learners in Wales.

In addition to the further education reforms, I am also proposing to provide a power for HMRC to share information with the Welsh Ministers through a data link. The link will allow information that is relevant to the assessment of eligibility for student grants and loans to be shared by HMRC with the Welsh Ministers, or those to whom the Welsh Ministers delegate or transfer those functions. The proposal to establish a data-sharing link with HMRC by amending section 24 of the Teaching and Higher Education Act 1998 will enable the Student Loans Company to implement a modernised student finance service for Wales. Currently, HMRC may only provide data in relation to operation of the student loan scheme to the Secretary of State or to those delegated by the Secretary of State. Neither the Welsh Ministers nor the SLC in relation to Wales fall within those categories. This change recognises that Welsh Ministers already have full powers over student support and would simply enable HMRC to share data with the Welsh Ministers in relation to Wales, as the HMRC currently does with the Secretary of State in relation to student support in England. I believe that this provision will have clear advantages for both students and Student Finance Wales. It will speed up the administrative process for the student, and will also increase the effectiveness of Student Finance Wales to detect, deter and prevent fraud by checking an applicant's household income with HMRC's tax records.

This Government is committed to delivering modern and streamlining arrangements to the delivery of student support in Wales. It will create significant efficiencies, simplify the application process and provide a quicker, leaner service for students applying for loans and grants. The proposals I have outlined are paramount to ensuring that our education system in Wales is strengthened and bureaucracy reduced. To conclude, I look forward to working with Assembly Members and others during the scrutiny of this Bill.

Mae ychydig dros 21 mlynedd ers i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gymryd colegau o reolaeth llywodraeth leol, gan eu sefydlu'n gyrff ymreolaethol ac annibynnol. Rwyf yn cydnabod bod y sector addysg bellach wedi aeddfedu. Mae gan golegau rôl hanfodol yn economi Cymru ac wrth i sefydliadau mwy a mwy strategol ymddangos, maent wedi datblygu'n chwaraewyr allweddol yn eu cymunedau. Fel y cyfryw, gall yr Aelodau deimlo'n sicr bod y cynigion hyn yn cynyddu gallu a hyblygrwydd golegau, ond nad ydynt yn tynnu'r pwysau oddi ar golegau. I'r gwrthwyneb, rwyf yn disgwyl i golegau barhau i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cyflawni, ac yn wir yn rhagori ar ddisgwyliadau a dyheadau eu cwsmeriaid amrywiol. Ein nod yw adeiladu Cymru sy'n rhoi i'n pobl ifanc yr union gyfleoedd mewn bywyd sydd wrth wraidd gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Bil hwn yn cael ei gynnig o fewn diwylliant cryf a bywiog o gydweithio, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Credaf fod ein ffordd ymlaen arfaethedig er lles gorau'r sector, ac er budd gorau dysgwyr yng Nghymru.

Yn ychwanegol at y diwygiadau ym maes addysg bellach, rwyf hefyd yn cynnig rhoi pŵer i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu gwybodaeth gyda Gweinidogion Cymru drwy gyswllt data. Bydd y ddolen yn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i asesu cymhwysedd ar gyfer grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr, gyda Gweinidogion Cymru, neu'r rhai y mae Gweinidogion Cymru'n dirprwyo neu'n trosglwyddo'r swyddogaethau hynny iddynt. Bydd y cynnig i sefydlu cyswllt rhannu data gyda Chyllid a Thollau EM drwy ddiwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i weithredu gwasanaeth cyllid myfyrwyr wedi'i foderneiddio ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, ni all Cyllid a Thollau EM ond darparu data yng nghyswllt gweithredu'r cynllun benthyciadau i fyfyrwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i'r rhai a ddirprwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw Gweinidogion Cymru na'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr mewn perthynas â Chymru yn dod o fewn categorïau hynny. Mae'r newid hwn yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau llawn dros gymorth i fyfyrwyr, a byddai'n galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i rannu data gyda Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, fel y mae Cyllid a Thollau EM ar hyn o bryd yn ei wneud gyda'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr yn Lloegr. Credaf y bydd i'r ddarpariaeth hon fanteision clir i fyfyrwyr a Chyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd yn cyflymu'r broses weinyddol ar gyfer y myfyriwr, a bydd hefyd yn galluogi Cyllid Myfyrwyr Cymru i ganfod, atal a rhwystro twyll yn fwy effeithiol drwy gymharu incwm aelwyd ymgeisydd â chofnodion treth Cyllid a Thollau EM.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddarparu system fodern a symleiddio'r drefn o ddarparu cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru. Bydd yn arbed arian sylweddol, yn symleiddio'r broses ymgeisio ac yn darparu gwasanaeth cyflymach, mwy llyfn ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am fenthyciadau a grantiau. Mae'r cynigion yr wyf wedi eu hamlinellu yn hollbwysig i gryfhau ein system addysg yng Nghymru a lleihau biwrocratiaeth. I gloi, rwyf yn edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill wrth graffu ar y Bil hwn.

Minister, thank you for bringing forward this Bill. I appreciate the technical briefing that you and your officials gave me and my colleague Suzy Davies last week. In principle, I am very supportive of this Bill. Like you, I agree that our further education institutions have come of age, and I accept that much of this Bill is about bringing into line and freeing up, and you will know that Conservatives are very keen on freeing people from micromanagement, and giving them more opportunities to get on and do the job that they should know well how to do.

With regard to the HMRC data-sharing element, that is very much a technical issue, and I totally support that. Of course, some of our further education institutions are very large. Some are coming up to, or are just in excess of, £60 million turnover, so I would expect and seek to find in the guidance here some checks and balances. I would like to see safeguards put in place to protect public investment, especially if a further education institution dissolves. Do not get me wrong; I accept that they should have that power, but we need to look at the long term. I am also very pleased to see that their borrowing capabilities are further enabled, but again I believe there should be some kind of external oversight on a statutory basis—not by the Government, but perhaps the audit office. It should be made clear that that has to play a part.

I have just a couple of other points. On the planning of curricula, I note that that will be much more open, and I believe that section 6 details that they will still have to pay mind to Government guidance. I would like to see that firmed up quite strongly so that we do not have overcapacity, especially as further education institutions can stray into the sixth-form field and into the higher education field.

Paragraph 22 of the explanatory memorandum talks in detail about section 7, and your no longer being able to make regulations that prohibit the provision of higher education courses by FE colleges. My question here is: are we clear about the direction of travel? Is this a result of any early findings that may have come to light from, say, the Adrian Webb review of the provision of education in north-east Wales? Are we still very clear that there is a role for FE, HE and sixth forms, even though there is that overlap? I am very keen to ensure that further education institutions do not end up straying away from their principles too much to serve the local community.

I also want to ask about option 3 in your regulatory impact assessment. You are talking about introducing the Assembly Bill, obviously, and one of the risks is that the legislation does not give the Office for National Statistics national accounts classification committee the assurances needed that key steps have taken place to increase the autonomy of FE colleges, and therefore that we will not achieve what we are setting out to achieve. Can you detail what you will do to minimise that risk? I will add as a quick aside that I am very glad to see that you have not pursued the option of setting up an alternative funding council.

Weinidog, diolch ichi am gyflwyno'r Bil hwn. Rwyf yn gwerthfawrogi'r briff technegol a gefais i a'm cydweithiwr Suzy Davies yr wythnos diwethaf gennych chi a'ch swyddogion. Mewn egwyddor, rwyf yn gefnogol iawn i'r Bil hwn. Fel chi, rwyf yn cytuno bod ein sefydliadau addysg bellach wedi aeddfedu, ac rwyf yn derbyn bod llawer o'r Bil hwn yn ymwneud ag unioni a rhyddhau. Byddwch yn gwybod bod y Ceidwadwyr yn awyddus iawn i ryddhau pobl rhag microeoli, a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt fynd ati i wneud y gwaith y dylent wybod yn dda sut i'w wneud.

O ran yr elfen sy'n ymwneud â rhannu data â Chyllid a Thollau EM, mae hynny'n sicr yn fater technegol, ac rwyf yn cefnogi hynny'n llwyr. Wrth gwrs, mae rhai o'n sefydliadau addysg bellach yn fawr iawn. Mae trosiant rhai yn agos at, neu ychydig yn fwy na, £60 miliwn, felly byddwn yn disgwyl canfod mesurau diogelu yn y canllawiau. Hoffwn weld mesurau diogelu ar waith i ddiogelu buddsoddiad cyhoeddus, yn enwedig os yw sefydliad addysg bellach yn cael ei ddiddymu. Peidiwch â'm camddeall; rwyf yn derbyn y dylent gael y pŵer hwnnw, ond mae angen inni edrych ar y tymor hir. Rwyf hefyd yn falch iawn o weld bod eu galluoedd benthyca yn cael eu galluogi ymhellach, ond eto rwy'n credu y dylid cael rhyw fath o oruchwyliaeth allanol ar sail statudol—nid gan y Llywodraeth, ond efallai gan y swyddfa archwilio. Dylid gwneud yn glir bod gan hynny ran i'w chwarae.

Mae gennyf ychydig o bwyntiau eraill. Nodaf y bydd y broses o gynllunio cwricwla yn llawer mwy agored, ac rwyf yn credu bod adran 6 yn manylu y byddant yn dal i orfod rhoi sylw i ganllawiau Llywodraeth. Hoffwn weld hynny'n cael ei atgyfnerthu'n sylweddol fel nad oes gennym ormod o leoedd, yn enwedig gan y gall sefydliadau addysg bellach grwydro i faes chweched dosbarth ac addysg uwch.

Mae paragraff 22 o'r memorandwm esboniadol yn sôn yn fanwl am adran 7, a'r ffaith na allwch bellach wneud rheoliadau sy'n gwahardd colegau addysg bellach rhag darparu cyrsiau addysg uwch. Fy nghwestiwn yma yw: a ydym ni'n glir i ba gyfeiriad y dylid mynd? A yw hyn yn ganlyniad i unrhyw ganfyddiadau cynnar a allai fod wedi dod i'r amlwg, dyweder, o adolygiad Adrian Webb o'r ddarpariaeth addysg yng ngogledd-ddwyrain Cymru? A ydym ni'n dal yn glir iawn bod rôl i AB, AU a dosbarthiadau chwech, er bod gorgyffwrdd? Rwyf yn awyddus iawn i sicrhau nad yw sefydliadau addysg bellach yn crwydro oddi wrth eu hegwyddorion yn ormodol i wasanaethu'r gymuned leol.

Rwyf hefyd am ofyn am opsiwn 3 yn eich asesiad effaith rheoleiddiol. Rydych yn sôn am gyflwyno Bil y Cynulliad, yn amlwg, ac un o'r peryglon yw nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi i bwyllgor dosbarthu cyfrifon cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol y sicrwydd angenrheidiol bod camau allweddol wedi'u cymryd i gynyddu annibyniaeth colegau addysg bellach, ac felly na fyddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. A allwch chi fanlyu ynglŷn â'r hyn y byddwch yn ei wneud i leihau'r perygl hwnnw? Ychwanegaf wrth fynd heibio fy mod yn falch iawn o weld nad ydych wedi bwrw ymlaen â'r opsiwn o sefydlu cyngor cyllido amgen.

I will turn briefly to higher education. I would like to make sure that, somewhere in here, we are looking at a common set of standards. I would ask why higher education institutions cannot dissolve themselves. There is no power for that here. I know that you intend to bring out further legislation on higher education later on. Will that be part of that? Will you be able to give us a timetable for when HE legislation is coming through? Although this is detailed as a further and higher education Bill, there is not a lot about HE in here.

Finally, will you also be able to confirm that you will look at the Haldane principle if you are to change the way that higher education institutions are funded? There is, generally, a lot more detail I could do, but, in principle, I think that this is a very good Bill and we will look to support it insofar as we possibly can.

16:05

Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the opposition spokesperson for her welcome for the Bill and her largely supportive comments. I agree with her that the HMRC matters are largely technical, and that was the conclusion of most of the opposition spokespeople when they came in for the technical briefing. She is right to point to the success of further education institutions in Wales and to the growth in size of a number of those. It is obviously important to us that we see those developments continue. We have seen a number of further education mergers in recent years. We are very pleased that the sector has responded so actively to the Welsh Government's agenda.

In respect of the question she asked on the dangers of overcapacity and the balance of provision between further education colleges and sixth forms, she is aware that I produced an interim statement on the successor to the national planning and funding system in February, I think, in the Chamber. We will shortly be bringing forward more details on the successor to the NPFS, which is the mechanism I would expect us to use to ensure that we do not fund duplication within the system.

In respect of the point she raised on section 7 of the Bill, we are essentially removing powers that are not being used. We are not aware of any issue presently that would result in those powers being used. They were very much intended to be used as a last step. So, I do not think that there is anything there that she needs to worry about in respect of implications for, say, north-east Wales. I will, obviously, bring forward a subsequent statement when I receive the report on higher education in north-east Wales.

In respect of the risks within the regulatory impact assessment, my officials have had regular discussions with the Office for National Statistics and I would expect those to continue. It understands, I imagine, our objectives through this legislation. A similar approach has been taken in England, and there are other discussions under way in Northern Ireland, I believe, and possibly in Scotland as well. I cannot give absolute guarantees, but certainly we are working, we think, within the spirit of what the ONS is seeking.

Trof yn fyr at addysg uwch. Hoffwn wneud yn siŵr, rhywle yn y fan hon, ein bod yn edrych ar gyfres gyffredin o safonau. Byddwn yn gofyn pam na all sefydliadau addysg uwch eu diddymu eu hunain. Nid oes unrhyw bŵer ar gyfer hynny yma. Rwyf yn gwybod eich bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth bellach ar addysg uwch yn ddiweddarach. A fydd yn rhan o hynny? A fyddwch yn gallu rhoi amserlen ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth AU? Er bod hwn yn cael ei alw'n Fil addysg bellach ac addysg uwch, nid oes llawer am AU yma.

Yn olaf, a fyddwch chi hefyd yn gallu cadarnhau y byddwch yn edrych ar yr egwyddor Haldane os ydych am newid y ffordd y mae sefydliadau addysg uwch yn cael eu hariannu? Mae yna, yn gyffredinol, lawer mwy o fanylion y gallwn eu trafod, ond, mewn egwyddor, rwyf yn meddwl bod hwn yn Fil da iawn, a byddwn yn ei gefnogi i'r graddau y gallwn.

Diolch i lefarydd yr wrthblaid am ei groeso i'r Bil a'i sylwadau, a oedd yn gefnogol i raddau helaeth. Rwyf yn cytuno â hi bod materion Cyllid a Thollau EM yn rhai technegol i raddau helaeth, a dyna oedd casgliad y rhan fwyaf o lefarwyr y gwrthbleidiau pan ddaethant i mewn ar gyfer y sesiwn frifio dechnegol. Mae hi'n iawn i dynnu sylw at lwyddiant sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac i'r twf ym maint nifer o'r rheini. Mae'n amlwg yn bwysig i ni ein bod yn gweld y datblygiadau hynny yn parhau. Rydym wedi gweld nifer o sefydliadau addysg bellach yn cyfuno yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn falch iawn fod y sector wedi ymateb mor weithredol i agenda Llywodraeth Cymru.

O ran y cwestiwn a ofynnodd am beryglon gormod o leoedd a chydbwysedd darpariaeth rhwng colegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech, mae hi'n ymwybodol fy mod wedi paratoi datganiad interim ar yr hyn a fydd yn olynu'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol ym mis Chwefror, rwy'n credu, yn y Siambr. Byddwn yn cyflwyno rhagor o fanylion cyn bo hir am yr olynydd i'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol, sef y mecanwaith y byddwn yn disgwyl i ni ei ddefnyddio i sicrhau nad ydym yn ariannu'r un peth ddwywaith o fewn y system.

O ran y pwynt a gododd ar adran 7 y Bil, rydym yn y bôn yn dileu pwerau nad ydynt yn cael eu defnyddio. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fater ar hyn o bryd a fyddai'n peri i'r pwerau hynny gael eu defnyddio. Roeddent wedi eu bwriadu yn sicr iawn fel cam olaf. Felly, nid wyf yn credu bod angen iddi hi boeni am unrhyw beth o ran y goblygiadau ar gyfer, dyweder, gogledd-ddwyrain Cymru. Byddaf, yn amlwg, yn cyflwyno datganiad dilynol pan fyddaf yn derbyn yr adroddiad ar addysg uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

O ran y risgiau o fewn yr asesiad effaith rheoleiddiol, mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a byddwn yn disgwyl i hynny barhau. Rwyf yn dychmygu ei bod yn deal ein hamcanion drwy'r ddeddfwriaeth hon. Mae dull tebyg wedi cael ei fabwysiadu yn Lloegr, ac mae trafodaethau eraill ar y gweill yng Ngogledd Iwerddon, rwyf yn credu, ac o bosibl yn yr Alban hefyd. Ni allaf roi sicrwydd absoliwt, ond yn sicr rydym yn gweithio, rydym yn credu, o fewn ysbryd yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei geisio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In respect of higher education governance and the powers of higher education institutions to dissolve themselves, I will give consideration to what she said. She would not expect me to speculate on timetables for future legislation, because that could be a career-limiting move when it is the First Minister's prerogative to table a legislative programme.

Yng nghyswllt llywodraethu addysg uwch a phwerau sefydliadau addysg uwch i'w diddymu eu hunain, byddaf yn rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddywedodd. Ni fyddaf yn disgwyl i mi ddyfalu ynglŷn ag amserlenni ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol, oherwydd y gallai hynny fod yn gam a fyddai'n cyfyngu ar yrfa pan mai braint y Prif Weinidog yw cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol.

16:08

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Os awn yn ôl ddwy flynedd, Weinidog, at adolygiad Humphreys, lle dechreuodd y broses o edrych ar y sector addysg bellach, roedd gan y Llywodraeth bryd hynny weledigaeth wahanol iawn i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Bil presennol. Roedd gan Blaid Cymru hefyd weledigaeth wahanol iawn am sut y byddai'r sector yn datblygu i'r hyn sydd wedi'i adlewyrchu yn y Bil presennol.

Rwy'n deall ac yn derbyn bod y Gweinidog wedi cyflwyno'r Bil yn ei ffurf bresennol oherwydd y newid i agwedd a dehongliad yr ONS o ran sut mae colegau addysg bellach yn cael eu dehongli a'u diffinio y tu fewn i system cyllid y wlad. Rwy'n derbyn hynny, ac felly ni fydd Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r Bil hwn, yn sicr. Byddwn yn weddol niwtral, i fod yn onest, ynglŷn â'r Bil, ond byddwn yn edrych ar y pwyntiau rydym eisiau gwneud yn siŵr eu bod yn briodol i'r Gweinidog eu gwneud ac yn craffu ar ba bwerau sy'n cael eu rhoi yn y Bil i'r colegau, ac i'r Gweinidog o bryd i'w gilydd, i weld a ydynt yn briodol i gyflawni amcanion y Llywodraeth.

Rwy'n deall bod y Gweinidog eisoes wedi awgrymu hyn, ond nid oes diben mynd lawr y llwybr deddfwriaethol hwn oni bai ein bod yn cyflawni'r amcan o gael y colegau addysg bellach wedi eu derbyn gan yr ONS fel y jargon ofnadwy sydd yn y datganiad nad oes modd ei gyfieithu i'r Gymraeg beth bynnag. Oni bai eu bod yn cael eu diffinio fel cyrff cyhoeddus, nid oes pwynt i'r ddeddfwriaeth hon, felly rwy'n pryderu braidd nad yw'r Gweinidog yn gallu dweud yn blwmp ac yn blaen ei fod yn meddwl bod y Bil hwn yn cyflawni gofynion yr ONS ac y bydd modd, felly, unioni'r sefyllfa fel y mae. Os nad yw'n gallu gwneud hynny, byddai'n well gennyf fynd yn ôl at adroddiad Humphreys, a dweud y gwir, ac edrych ar y patrwm hwnnw. Os ydym yn mynd i gael patrwm fel hynny, man a man i ni ddeddfu yn y modd hwnnw. Gofynnaf i'r Gweinidog eto, felly, esbonio sut y bydd y Bil hwn yn cyflawni'r hyn y mae'r ONS yn chwilio amdano yn y cyd-destun Cymraeg.

Y rheswm yr wyf yn gofyn y cwestiwn hwnnw yw bod rhai wedi mynegi pryder am y Bil yn ei ffurf bresennol, gan ei fod yn rhoi cymaint o hyblygrwydd i'r sector nes bod modd hyd yn oed dehongli ei fod yn rhyddhau'r sector yn llwyr oddi wrth y gofyniad i gwrdd ag amcanion y Llywodraeth. Gan fod y sector yn derbyn cymaint o arian cyhoeddus, byddai hynny'n gam gwag.

If we go back two years, Minister, to the Humphreys review, where this whole process of looking at the FE sector started, the Government at that time had a very different vision to the one outlined in the current Bill. Plaid Cymru also had a very different vision regarding how the sector would develop as compared with what is reflected in the current Bill.

I understand and accept that the Minister brought the Bill forward in its current form because of the change of attitude and interpretation by the ONS in terms of how further education colleges are defined within the funding system. I accept that, and therefore Plaid Cymru will certainly not oppose this Bill. I think that we will be relatively neutral, if truth be told, about the Bill, but we will be looking at the points that we want to ensure that it is appropriate for the Minister to make and scrutinising which powers are given to colleges in the Bill, and to the Minister from time to time, to see whether they are appropriate to achieve the Government's objectives.

I understand that the Minister has already referred to this, but there is no point going down this legislative route unless we achieve the objective of getting the FE colleges accepted by the ONS as that terrible jargon in the statement that cannot be translated into Welsh anyway. Unless they are defined as public bodies, there is no point to this legislation, therefore I am a little concerned that the Minister cannot tell us clearly that he believes that this Bill will achieve the requirements of the ONS and that it will be possible, therefore, to rectify the situation. If it cannot be done, I would prefer to go back to the Humphreys report, to be honest, and look at that pattern. If we are to have such a pattern, we may as well legislate in that way. I ask the Minister, once again, to explain how he believes that this Bill will achieve what the ONS is seeking in the Welsh context.

The reason I asked that question is that some have expressed concerns about the Bill in its current form, because it provides so much flexibility to the sector that it could even be interpreted as though it were releasing the sector entirely from the requirement to meet the Government's objectives. As the sector does receive so much public money, that would certainly be a mistake.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddai rhai yn dadlau bod y Bil, i bob pwrpas, yn caniatáu i'r sector breifatiddio. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir, ond mae'n caniatáu i'r sector wneud llawer, a hynny heb ymgynghori o reidrwydd â'r Llywodraeth neu ddilyn cyfarwyddyd gan y Llywodraeth. Mae hynny'n arwain at sefyllfa lle bydd gan y Gweinidog hawl i ddiddymu prifysgol ond nid hawl i ddiddymu coleg addysg bellach. Rwy'n meddwl bod hynny'n od, a dweud y lleiaf. Os yw prifysgol yn cael ei dderbyn gan yr ONS, nid wyf yn siŵr pam nad yw coleg addysg bellach sydd yn yr un sefyllfa yn cael ei dderbyn. Bydd Plaid Cymru yn edrych yn arbennig felly ar y pŵer i ymyrryd sydd gan y Gweinidog yn y Bil hwn. Mae'r Gweinidog yn colli ei bŵer i benodi llywodraethwyr i'r colegau addysg bellach. Yn lle hynny, mae ganddo bŵer i ymyrryd. Byddwn am edrych ar y pŵer hwnnw i wneud yn siŵr ei fod yn ddigonol ac yn ddigon cryf i sicrhau bod y sector ar ei newydd wedd yn cwrdd â gofynion ac amcanion y Llywodraeth, a'i fod yn gallu darparu gwasanaethau ar sail yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddymuno ac ar sail yr hyn y dymunir i arian cyhoeddus ei gyflawni.

Byddwn hefyd am graffu ar y Bil i wneud yn siŵr nad oes dim byd yma sy'n rhwystro'r datblygiad sydd eisoes ar y gweill i ffurfio cytundeb cenedlaethol ar amodau gwaith y rhai sy'n gweithio yn y sector hwn—yn wir, gobeithiaf y bydd y Bil yn hyrwyddo'r gwaith hwn. Mae llawer o waith trafod wedi cael ei wneud yn wirfoddol ar y mater hwn dros y ddwy flynedd diwethaf; mae Plaid Cymru'n dymuno gweld hynny'n digwydd ac yn dod i fwd. Byddwn am wneud yn siŵr nad yw'r Bil hwn yn rhoi cyfle i unrhyw un ddianc o ddod i gytundeb ar y materion hyn.

Rwy'n derbyn yn llwyr fod yr hyn sydd yn y Bil ynglŷn â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn briodol ac yn dechnegol ei natur ac yn gam ymlaen i sicrhau effeithlonrwydd yn y sector. Mae'r cwestiwn olaf sydd gennyf, felly, yn adeiladu ar rai o'r pwyntiau sydd eisoes wedi codi. Yn y Papur Gwyn a arweiniodd at y Bil hwn, ymgynghorodd y Llywodraeth gryn dipyn ar y sector addysg uwch—yn fwy na'r hyn sydd yn y Bil hwn yn dechnegol. Yn benodol, ymgynghorodd y Llywodraeth ar rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nid yw'r rôl honno wedi'i chynnwys yn y Bil hwn. Mae sôn am ddeddfwriaeth yn y dyfodol gan y Llywodraeth, ac rwyf am ofyn i'r Gweinidog a yw'r materion hynny yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn yn faterion sy'n mynd i ddod gerbron y Cynulliad mewn deddfwriaeth arall yn y dyfodol.

Some would argue that the Bill, to all intents and purposes, allows the sector to be privatised. I do not think that that is true, but it does allow the sector to do a great deal without necessarily consulting with Government or following Government direction. That leads to a situation whereby the Minister will have a right to abolish a university, but not an FE college. I think that that is strange, to say the least. If a university is accepted by the ONS, I cannot see why an FE college could not also be accepted in the same situation. Plaid Cymru will look particularly at the power to intervene that the Minister has within this Bill. The Minister is losing his power to appoint governors to the FE colleges; instead, he has the power to intervene. I would like to look at that power to make sure that it is adequate and that it is robust enough to ensure that the new-look sector does meet the objectives of the Government, and is therefore able to provide the services on the basis of the Government's programme and making good use of public funds.

I would also want to scrutinise the Bill to ensure that there is nothing herein that will preclude the developments that are already in the pipeline to put in place a national agreement on the terms and conditions of those who work in this sector—I hope that the Bill will promote this work. A great deal of negotiation has gone on voluntarily over the past two years; Plaid Cymru wants to see that happening and being concluded successfully. We want to ensure that this Bill does not give anyone an opportunity to escape from finding agreement on those issues.

I fully accept that what is contained within the Bill on HMRC is appropriate and technical in nature and a step forward in terms of ensuring efficiency within that sector. The final question that I have, therefore, builds on some of the points that have already been raised. In the White Paper that led to this Bill, the Government consulted quite widely on the higher education sector—more than is technically contained within this Bill. Particularly, the Government consulted on the role of HEFCW. That role is not contained within this Bill. There is talk of future legislation being brought forward by Government and therefore I would like to ask the Minister whether those issues that were consulted upon in the White Paper will be brought before the Assembly in future, in other legislation.

16:13

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, I thank the Plaid Cymru spokesperson for his support for the bulk of what is being proposed. In respect of the White Paper consultation and the issues around the Higher Education Funding Council for Wales, I am sure that we will return to that. We have every intention of proceeding with things on which we have consulted. There are further discussions to be had, and timetables will be set out in the appropriate way.

Ddirprwy Lywydd, diolch i lefarydd Plaid Cymru am ei gefnogaeth i'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n cael ei gynnig. Rwyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r materion o amgylch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rydym yn llwyr fwriadu bwrw ymlaen â phethau yr ydym wedi ymgynghori arnynt. Mae angen cynnal rhagor o drafodaethau, a bydd amserleni yn cael eu nodi yn y modd priodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that I have made it clear before—it is no secret—that this was not my preferred route. I set up the Humphreys review. I looked to develop a social enterprise model for further education. It is still a model that can be implemented by the sector on a voluntary basis, and we have some interest in certain parts of the sector in doing just that. In my speech to the University and College Union conference last month, I explained that I would have preferred to be going down a different route. However, the ONS is making its views clear in respect of the European legislation and its interpretation, and I need to safeguard Welsh Government budgets, and I think that that has been generally understood.

In respect of the legislative route and the risks therein, it is clear to the ONS that we are sending out a signal that shows the direction of travel in which we are moving. We can also provide guidance on governance. My officials have done what they can to ensure that the ONS is clear about our objectives, and we will continue to maintain a dialogue with it.

In respect of releasing the sector, I do not think that we are releasing the sector from its obligations to deliver because, if institutions are in receipt of grant funding, there are conditions set down for that grant funding and requirements that those institutions have to fulfil. It is certainly not in any sense an attempt to privatise the sector; arguably, if you wanted to suggest when privatisation of this sector might have taken place, I think you would be better off looking up legislation that was passed in 1992, when the link with local authorities was originally broken. Our objective in this Bill is to protect the revenue and capital of the Welsh Government, ensure that we have a sector that is fit for purpose and give the support that we can to that sector. As the Member rightly said, we retain the right to intervene and we can discuss the issue of whether those intervention powers are the right powers as the Bill makes its way through committee. In terms of the issues on staff terms and conditions, I think that they are slightly separate issues, but we can return to them for further discussion during the passage of the Bill.

Credaf fy mod wedi ei gwneud yn glir o'r blaen—nid yw'n gyfrinach—nad hwn oedd y llwybr yr oeddwn yn ei ffafrio. Sefydlaeth adolygiad Humphreys. Ceisiais ddatblygu model menter gymdeithasol ar gyfer addysg bellach. Mae'n dal i fod yn fodel y gallai'r sector ei roi ar waith ar sail wirfoddol, ac mae gan rhai rhannau o'r sector ddi-ddordeb mewn gwneud hynny. Yn fy araith i gynhadledd Undeb y Brifysgol a'r Coleg y mis diwethaf, eglurais y byddai'n well gennyf fod yn dilyn trywydd gwahanol. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwneud ei barn yn glir o ran y ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r dehongliad ohoni, ac mae angen i mi ddiogelu cyllidebau Llywodraeth Cymru, a chredaf fod pobl yn deal hynny yn gyffredinol.

O ran y llwybr deddfwriaethol a'r risgiau cysylltiedig, mae'n amlwg i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ein bod yn anfon signal sy'n dangos i ba gyfeiriad yr ydym yn symud. Gallwn hefyd ddarparu arweiniad ar lywodraethu. Mae fy swyddogion wedi gwneud yr hyn a allant i sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn deal ein hamcanion, a byddwn yn parhau i gynnal deialog â hi.

O ran rhyddhau'r sector, nid wyf yn meddwl ein bod yn rhyddhau'r sector rhag ei rwymedigaethau i ddarparu oherwydd bod amodau wedi'u gosod ar gyfer unrhyw gyllid grant a dderbyniant, a gofynion y mae'n rhaid i'r sefydliadau hynny eu cyflawni. Yn sicr nid yw mewn unrhyw ystyr yn ymgais i breifateiddio'r sector; pe byddech am awgrymu pryd y gallai'r sector hwn fod wedi ei breifateiddio, gellid dadlau y byddai'n well i chi edrych ar ddeddfwriaeth a basiwyd yn 1992, pan dorwyd y cyswllt ag awdurdodau lleol yn wreiddiol. Ein nod yn y Bil hwn yw gwarchod refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru, sicrhau bod gennym sector sy'n addas at y diben a rhoi'r gefnogaeth y gallwn i'r sector hwnnw. Fel y dywedodd yr Aelod, ac mae yn llygad ei le, rydym yn cadw'r hawl i ymyrryd a gallwn drafod ai'r pwerau ymyrryd hynny yw'r pwerau cywir wrth i'r Bil wneud ei ffordd trwy'r pwyllgor. O ran telerau ac amodau staff, rwy'n meddwl eu bod yn faterion sydd ychydig ar wahân, ond gallwn ddychwelyd i'w trafod ymhellach yn ystod hynt y Bil.

16:16

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad ac am y sesiwn frifio dechnegol a gawsom yr wythnos diwethaf. Dylwn nodi bod fy ngwraig yn gweithio yn y sector addysg bellach. Byddwn yn cael cyfle i graffu ar y manylion yn y pwyllgor, ond mae gennyf ychydig o gwestiynau yn awr. Rwy'n rhannu diddordeb Simon Thomas o ran y cytundebau cenedlaethol a'r ffaith bod llawer o drafod wedi bod ynglŷn ag amodau gwaith. Mae tipyn o boendod yn y sector, os bydd y strwythur newydd hwn yn dod i rym cyn i'r trafodaethau hynny fod yn hollol lwyddiannus, y bydd gan rai colegau gostau ychwanegol os ydynt yn mabwysiadu'r safonau cenedlaethol gan osgoi symud at y cytundebau cenedlaethol. A ydych yn fodlon â'r rheolaeth a fydd gennych chi fel Gweinidog? A oes perygl y bydd rhai colegau yn trosglwyddo asedau i gwmnïau? Mae'r pwynt hwnnw wedi'i godi. Mae gennych rai pwerau dros y colegau; a ydych yn fodlon bod y pwerau hynny'n ddigonol?

I would also like to thank the Minister for the statement and for the technical briefing session that we had last week. I should declare that my wife works in the further education sector. We will have an opportunity to scrutinise the details in committee, but I have a few questions now. I share Simon Thomas's interest in the national agreements and the fact that there has been a lot of discussion about working conditions. There is some concern within the sector, if this new structure is implemented before those discussions come to a completely successful conclusion, that some colleges will face additional costs if they adopt the national standards, avoiding the move to national agreements. Are you satisfied with the control that you will have as Minister? Is there a danger that some colleges will transfer assets to companies? That point has been raised. You have some powers over the colleges; are you satisfied that those powers are sufficient?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydych yn iawn i sôn am lwyddiant y cydweithio rhwng y colegau addysg bellach a'r ysgolion chweched dosbarth. Rwy'n deall yr hyn rydych yn ei ddweud ynglŷn â'r gyfundrefn newydd o ran MPFS, ond a fydd y gyfundrefn newydd honno'n weithredol cyn i'r newidiadau hyn ddod i rym? Hefyd, a oes gan y Llywodraeth ddealltwriaeth gyflawn o gyflwr ystâd y colegau ar hyn o bryd, o feddwl am faint y benthyciadau y bydd y colegau yn gallu eu cymryd wrth iddynt wario cyfalaf ar adeiladau newydd?

Yn olaf, rydych yn dweud bod rhannu data o ran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rhywbeth technegol, ac rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, mae symud wedi bod ynghylch data ar lefel genedlaethol, lle mae'r data sydd ar gael i ysgolion yn hollol wahanol i'r data yn y colegau. Mae symud wedi bod i gael plattform cenedlaethol. A fyddai'r trefniadau hynny yn cael eu colli oherwydd y newidiadau hyn? Mae'n bwysig ein bod yn gallu dangos cynnydd o ran plant sy'n astudio mewn ysgolion ac sy'n symud i golegau addysg bellach yn 16 oed.

You are right to mention the success of collaboration between further education colleges and school sixth forms. I understand what you are saying about the new regime with regard to MPFS, but will that new regime be used before these changes are implemented? Also, does the Government have a full understanding of the current state of the college estate, given the size of the loans that colleges will be able to take out as they spend capital on new buildings?

Finally, you say that data sharing as regards HMRC is a technical matter, and I accept that. However, there has been a move towards having national data, where the data available to schools are completely different to data in colleges. There has been a move towards having a national platform. Would those arrangements be lost because of these changes? It is important that we can demonstrate progress in terms of schoolchildren who move to further education colleges at the age of 16.

16:19

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In respect of terms and conditions, it is important to distinguish between negotiations on the common contract and the issues that he raises. We can, perhaps, pursue those in more detail as we go through legislation. We did try to discuss this, to a degree, during the technical briefing.

In respect of the assets, it needs to be borne in mind that we retain controls over the funding through the grant conditions, as I said earlier in answer to the Plaid Cymru spokesperson. Also, further regulatory safeguards will be introduced in secondary legislation, following the passage of the Bill. Therefore, I am reasonably confident that we have the necessary requirements in place.

In respect of colleges' own estates, assets and so on, and their borrowing, the reality is that no institution will be able to borrow unrealistic amounts. Those will depend on negotiations with lenders, but lenders will look very carefully at the asset base of a particular institution before agreeing to any conditions of loan.

In respect of the work around HMRC, our work with local authorities' streamlined system of awarding grants has been developing over time, and that is not affected by the technical considerations around HMRC in this Bill.

O ran telerau ac amodau, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y trafodaethau ynglŷn â'r contract cyffredin a'r materion y mae'n eu codi. Efallai y gallwn fynd ar drywydd hynny'n fwy manwl wrth inni fynd drwy'r ddeddfwriaeth. Fy wnaethom geisio trafod hyn, i raddau, yn ystod y sesiwn frifio dechnegol.

O ran yr asedau, mae angen cadw mewn cof ein bod yn cadw rheolaeth dros yr arian drwy'r amodau grant, fel y dywedais yn gynharach wrth ateb llefarydd Plaid Cymru. Yn ogystal, bydd rhagor o gamau diogelu rheoleiddiol yn cael eu cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth, yn dilyn hynt y Bil. Felly, rwyf yn weddol hyderus bod gennym y gofynion angenrheidiol ar waith.

O ran ystadau ac asedau'r colegau eu hunain, ac yn y blaen, a'r hyn y maent yn ei fenthycu, y realiti yw na fydd unrhyw sefydliad yn gallu benthycu symiau afrealistig. Bydd hynny'n dibynnu ar drafodaethau gyda benthycwyr, ond bydd benthycwyr yn edrych yn ofalus iawn ar sylfaen asedau sefydliad penodol cyn cytuno i amodau unrhyw fenthyciad.

O ran y gwaith ynghylch Cyllid a Thollau EM, mae ein gwaith gydag awdurdodau lleol i symleiddio'r system o ddyfarnu grantiau wedi bod yn datblygu dros gyfnod o amser, ac nid yw ystyriaethau technegol yn y Bil hwn ynghylch Cyllid a Thollau EM yn effeithio ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:21

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today. I am glad to see the Bill coming forward at this point in time. Let us get on with it. As a newly elected member of the Children and Young People Committee, I look forward to the detailed scrutiny of the committee when you come before us.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad heddiw. Rwyf yn falch o weld y Bil yn dod yn ei flaen ar yr adeg hon. Gadewch inni fwrw ymlaen ag ef. Fel aelod sydd newydd ei ethol i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, edrychaf ymlaen at waith craffu manwl y pwyllgor pan fyddwch yn dod ger ein bron.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I agree with many of the points that have already been mentioned, particularly Simon Thomas's point on the contract and national agreements, but there are a couple of points that I want to raise. During the debate on the Humphreys report back in November 2011, I highlighted the accountability question, and I think that there is still a question in this regard. Reading through the Bill and the explanatory memorandum, there is an issue in relation to articles of Government and a requirement under Schedule 1, I believe. Who will approve those articles and instruments of Government? Who are they accountable to? I have very deep concerns. You mentioned that you have the right to ask a governing body to dissolve itself, but on what grounds and who are they accountable to with regard to producing the articles of Government, in the first instance? It seems that they can produce them, meet the requirements, but then what happens to them?

Reference is also included to members of that board, including members of staff and students. I fully support that, but I would like to have seen elected members of staff and students, rather than just the words 'staff' and 'students', because a chief executive is a member of staff, as are heads of department; I would like to see elected members of staff on to the body to provide their professional input to that.

On the point regarding borrowing, you have already highlighted the point that many institutions are now collaborating and more mergers are taking place than we have ever seen before. What controls will be placed on borrowing to ensure that it does not get out of hand and that it is not used for expansion purposes, rather than delivering the learning outcomes required by the localities?

Finally, paragraph 31 of the explanatory memorandum states that there is a duty on the further education institution to meet the needs of learners and local communities. However, paragraph 25 mentions repealing the duty on FEIs to consult with learners and businesses. I could not see how those work together. Will you seek clarification as to whether there is still a requirement on FEIs to consult students, learners and the communities with regard to their processes?

Rwyf yn cytuno â llawer o'r pwyntiau sydd eisoes wedi cael eu crybwyll, yn enwedig pwynt Simon Thomas ar y contract a'r cytundebau cenedlaethol, ond mae un neu ddau o bwyntiau yr hoffwn eu codi. Yn ystod y ddadl ar adroddiad Humphreys yn ôl ym mis Tachwedd 2011, tynnais sylw at gwestiwn atebolrwydd, ac rwyf yn meddwl bod cwestiwn yn parhau yn hyn o beth. Wrth ddarllen drwy'r Bil a'r memorandwm esboniadol, mae problem o ran erthyglau'r Llywodraeth a gofyniad dan Atodlen 1, rwy'n credu. Pwy fydd yn cymeradwyo'r erthyglau a'r offerynnau llywodraethu hynny? I bwy y maent yn atebol? Mae gennyf bryderon dwfn iawn. Roeddech yn sôn bod gennyf yr hawl i ofyn i gorff llywodraethu ei ddiddymu ei hun, ond ar ba sail ac i bwy y maent yn atebol o ran cynhyrchu'r erthyglau llywodraethu, yn y lle cyntaf? Mae'n ymddangos eu bod yn gallu eu paratoi, bodloni'r gofynion, ond wedyn beth sy'n digwydd iddynt?

Cynhwysir cyfeiriad hefyd at aelodau o'r bwrdd, gan gynnwys aelodau o staff a myfyrwyr. Rwyf yn cefnogi hynny'n llawn, ond byddwn wedi hoffi gweld aelodau etholedig o staff a myfyrwyr, yn hytrach na dim ond y geiriau 'staff' a 'myfyrwyr', gan fod prif weithredwr yn aelod o staff, fel y mae penaethiaid adran; byddwn hoffi gweld aelodau etholedig o staff ar y corff er mwyn darparu eu mewnbwn proffesiynol.

O ran y pwynt ynglŷn â benthycu, rydych eisoes wedi tynnu sylw at y pwynt bod llawer o sefydliadau yn awr yn cydweithio a bod mwy ohonynt yn cyfuno nag a welwyd erioed o'r blaen. Pa gamau rheoli fydd yn cael eu gosod ar fenthycu er mwyn sicrhau nad yw'n mynd allan o reolaeth ac nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ehangu, yn hytrach nag ar gyfer darparu'r canlyniadau dysgu sy'n ofynnol gan yr ardaloedd?

Yn olaf, mae paragraff 31 o'r memorandwm esboniadol yn datgan bod dyletswydd ar y sefydliad addysg bellach i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymunedau lleol. Fodd bynnag, mae paragraff 25 yn sôn am ddiddymu'r ddyletswydd ar sefydliadau addysg bellach i ymgynghori â dysgwyr a busnesau. Ni allwn weld sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd. A fyddwch yn gofyn am eglurhad ynghylch a oes gofyniad yn dal i fod i sefydliadau addysg bellach ymgynghori â myfyrwyr, dysgwyr a chymunedau ynglŷn â'u prosesau?

16:23

Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

My colleague the Member for Aberavon has asked a number of detailed questions and I look forward to his detailed scrutiny during the committee process, now that he has joined the Children and Young People Committee. It is always more daunting when you have someone with his experience asking the questions. There are a number of areas that we have tried to clarify in the course of drafting this legislation. We always intended there to be a place for learners on the governing bodies, we expect there to be places for staff, and we expect the staff to be distinct from the role of the chief executive or principal of the college in that regard, and we would expect good practice to be followed. There are issues here as to how we set out our expectations, which we can explore during the passage of the Bill.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan wedi gofyn nifer o gwestiynau manwl, ac edrychaf ymlaen at ei waith craffu manwl yn ystod y broses pwyllgor, nawr ei fod wedi ymuno â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Mae'n fwy anodd bob amser pan fydd gennyf rywun gyda'i brofiad ef yn gofyn y cwestiynau. Mae yna nifer o feysydd yr ydym wedi ceisio eu hegluro wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth hon. Roeddem bob amser yn bwriadu sicrhau bod lle ar gyfer dysgwyr ar y cyrff llywodraethu. Rydym yn disgwyl y bydd lleoedd ar gyfer staff, ac rydym yn disgwyl i'r staff fod yn wahanol i rôl y prif weithredwr neu brifathro'r coleg yn hynny o beth, a byddem yn disgwyl i arfer da gael ei ddilyn. Ceir cwestiynau yma ynglŷn â sut yr ydym yn nodi ein disgwyliadau, a gallwn eu harchwilio yn ystod hynt y Bil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Once again, in respect of borrowing, I do not object to colleges borrowing for expansion, as long as that borrowing for expansion is to satisfy their core *raison d'être* in terms of supporting learners. That is something that we can return to and discuss further. If there are issues within the explanatory memorandum that we need to give more clarity on or that we need to elaborate on, I would be happy to look at any representations that my colleague the Member for Aberavon wants to make to me.

Our expectation is that further education colleges will only thrive if they are responsive to the needs of learners and their local communities. We would expect that to be reflected in their individual development plans and corporate strategies.

Unwaitheo, o ran benthyca, nid wyf yn gwrthwynebu i golegau fenthycia er mwyn ehangu, ar yr amod bod y benthyca hwnnw er mwyn ehangu yn bodloni eu *raison d'être* craidd o ran cefnogi dysgwyr. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn ddychwelyd ato a'i drafod ymhellach. Os oes materion yn y memorandwm esboniadol y mae angen i ni eu gwneud yn fwy eglur neu y mae angen ymhelaethu arnynt, byddwn yn fodlon edrych ar unrhyw sylwadau y mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan am wneud i mi.

Ein disgwyliad yw na fydd colegau addysg bellach ond yn ffinnu os ydynt yn ymateb i anghenion dysgwyr a'u cymunedau lleol. Byddem yn disgwyl i hynny gael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau datblygu a'u strategaethau corfforaethol unigol.

16:25

Datganiad: Diddymu'r Cyrff sy'n Gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Last week, against the express wishes of the Welsh Government, the UK Government moved forward to the next stage in the process of abolishing the Agricultural Wages Board for England and Wales. I have previously stated my belief that the position the UK Government has adopted on the matter is flawed, and one which could have serious implications for agriculture and rural development in Wales.

In Wales, as many as 13,300 low-paid agricultural workers may be affected by this decision. The consequential impact on agriculture, rural development and rural communities will be keenly felt if the UK Government's own impact assessment is to be believed. Despite this assessment and despite the views of the majority of respondents to its consultation on the matter, who were in favour of the retention of the AWB, the UK Government has shown considerable determination to press ahead regardless.

While this Government strongly disagrees with the UK Government's proposals to abolish the AWB in England and Wales, I nevertheless recognise and respect the Westminster Government's mandate to carry forward its policies for agriculture in England. In order to protect the agricultural sector in Wales, I have requested on a number of occasions that the UK Government's original plans to abolish the AWB under the Public Bodies Act 2011 should include provisions to transfer the functions of the AWB to Welsh Ministers. This would have provided a pragmatic solution enabling both Governments to pursue their different but wholly legitimate policy agendas.

Statement: Abolition of the Agricultural Wages Board Associated Statutory Bodies

Yr wythnos diwethaf, yn erbyn dymuniadau penodol Llywodraeth Cymru, symudodd Llywodraeth y DU ymlaen i'r cam nesaf yn y broses o ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Rwyf wedi datgan o'r blaen fy nghred bod safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater yn ddiffygiol, ac yn un a allai fod â goblygiadau difrifol i amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru.

Yng Nghymru, gall cymaint â 13,300 o weithwyr amaethyddol ar gyflog isel gael eu heffeithio gan y penderfyniad hwn. Bydd yr effaith o ganlyniad ar amaethyddiaeth, datblygu gwledig a chymunedau gwledig yn cael ei theimlo'n fawr os gellir credu asesiad effaith Llywodraeth y DU ei hun. Er gwaethaf yr asesiad hwn, ac er gwaethaf barn y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'w hymgyngoriad ar y mater, a oedd o blaid cadw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, mae Llywodraeth y DU wedi dangos penderfyniad sylweddol i fwrw ymlaen beth bynnag.

Er bod y Llywodraeth hon yn anghytuno'n gryf â chynigion Llywodraeth y DU i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, rwyf, serch hynny, yn cydnabod ac yn parhau mandad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno ei pholisïau ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr. Er mwyn gwarchod y sector amaethyddol yng Nghymru, rwyf wedi gofyn ar sawl achlysur i gynlluniau gwreiddiol Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Bwrdd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 gynnwys darpariaethau i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i Weinidogion Cymru. Byddai hyn wedi darparu ateb pragmatig a fyddai'n galluogi'r ddwy Lywodraeth i ddilyn eu hagendâu polisi sy'n wahanol ond yn gwbl ddilys.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I was disappointed in the extreme when subsequently the UK Government, rather than make use of the Public Bodies Act 2011, chose instead to use the Enterprise and Regulatory Reform Bill to bring forward provisions to abolish the Agricultural Wages Board for England and Wales. In my view, this was no more than a tactic to avoid the requirement for Assembly consent for the proposed action that would have been required in advance had the Public Bodies Act 2011 been used for the purpose. The Welsh Government was not informed of the move in advance, a move that demonstrated a clear lack of respect towards and circumvention of the devolution settlement.

I promised in my last statement on this issue that despite the obstructions created by the UK Government, I would continue to seek to protect the industry in Wales and to explore all available options for retaining in Wales a body such as or similar to the AWB, which could continue to support and enhance the effective functioning of the agricultural sector. I believe that it is right and proper at this juncture that the people of Wales have their say on the matter. With this in mind, I shall on 1 May launch a consultation on potential options in order to inform decisions on the best way forward for Wales.

This is an opportunity for farm workers, employers, rural communities and others affected by the UK Government's action to share their views on what measures the Welsh Government should consider in response to the UK Government's action in respect of the AWB. The consultation will seek views on whether the Welsh Government should consider the possibility of establishing a body with similar functions to the soon-to-be abolished AWB for England and Wales. It will also seek views on whether consideration should be given to whether any new body might have additional functions, particularly perhaps in respect of this Government's desire to see an improved skills base in farming leading to a greater resilience, professionalism and profitability across Welsh farm businesses.

The consultation will close on 26 June and after a full analysis of the responses received, I will announce the further steps this Government will take on the matter.

Roeddwn yn siomedig dros ben pan ddewisodd Llywodraeth y DU, wedi hynny, ddefnyddio'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn lle Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i gyflwyno darpariaethau i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn fy marn i, nid oedd hyn yn ddim mwy na thacteg i osgoi'r rheidwydd i gael caniatâd y Cynulliad ar gyfer y camau arfaethedig, fel y byddai wedi bod yn ofynnol o flaen llaw pe byddai Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi cael ei defnyddio. Ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am y newid ymlaen llaw, newid a oedd yn dangos diffyg parch amlwg tuag at y setliad datganoli ac yn ei osgoi.

Addewais yn fy natganiad diwethaf ar y mater hwn y byddwn yn parhau i geisio amddiffyn y diwydiant yng Nghymru, er gwaethaf y rhwystrau a grëwyd gan Lywodraeth y DU, ac i ymchwilio i'r holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer cadw corff fel y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru, neu un tebyg iddo, er mwyn iddo barhau i gefnogi a gwella gweithrediad effeithiol y sector amaethyddol. Rwyf yn credu ei bod yn iawn ac yn briodol ar yr adeg hon i bobl Cymru gael dweud eu dweud ar y mater. Gyda hyn mewn golwg, byddaf ar 1 Mai yn lansio ymgynghoriad ar yr opsiynau posibl er mwyn llywio penderfyniadau ar y ffordd orau ymlaen i Gymru.

Mae hwn yn gyfle i weithwyr fferm, cyflogwyr, cymunedau gwledig ac eraill yr effeithir arnynt gan gamau Llywodraeth y DU rannu eu barn am y mesurau y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth ymateb i gamau gweithredu Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sefydlu corff â swyddogaethau tebyg i'r Bwrdd ar gyfer Cymru a Lloegr sydd i gael ei ddiddymu cyn bo hir. Bydd hefyd yn ceisio barn ynghylch a ddylid rhoi ystyriaeth i p'un a ellid rhoi swyddogaethau ychwanegol i unrhyw gorff newydd, yn enwedig efallai o ran awydd y Llywodraeth hon i weld gwell sylfaen sgiliau mewn ffermio yn arwain at fusnesau fferm yng Nghymru sy'n fwy gwydn, proffesiynol a phroffidiol.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 26 Mehefin ac ar ôl dadansoddiad llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd, byddaf yn cyhoeddi'r camau ychwanegol y bydd y Llywodraeth hon yn eu cymryd ar y mater.

16:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have eight speakers who want to speak on this item, so I will extend the time if necessary. However, I ask all speakers, especially the party spokespeople, to be as disciplined as possible. I remind all Members that if they wish to participate, they must be here for the whole statement. I will use my discretion in this instance, but I do not consider this a precedent.

Mae gen i wyth o siaradwyr sydd am siarad ar yr eitem hon, felly byddaf yn ymestyn yr amser os oes angen. Fodd bynnag, rwyf yn gofyn i bob siaradwr, yn enwedig llefarwyr y pleidiau, i fod mor ddisgybledig ag y bo modd. Rwyf yn atgoffa'r holl Aelodau bod rhaid iddynt fod yma am y datganiad cyfan, os ydynt yn dymuno cymryd rhan. Byddaf yn defnyddio fy nisgresiwn yn yr achos hwn, ond nid wyf yn ystyried hyn yn gynsail.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:30

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the former Labour Solicitor General, Lord Falconer, said of the minimum wage that the Labour Government does not believe that a multitude of regional, sectorial, or other minimum wages is the right approach and that it is neither sensible nor justifiable intellectually. Can you explain to us why he was wrong?

Dywedodd y Gweinidog, y cyn Gyfreithiwr Cyffredinol Llafur, yr Arglwydd Falconer, am yr isafswm cyflog nad yw'r Llywodraeth Lafur yn credu mai nifer fawr o isafsymiau cyflogau ar gyfer rhanbarthau, sectorau neu rywbeth arall yw'r dull cywir, nad yw'n synhwyrol ac nad oes modd ei gyfiawnhau'n ddeallusol. A allwch chi egluro i ni pam ei fod yn anghywir?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Agricultural Wages Committee was established by an Order in 2007 and has not met in 2007, 2008, 2009, 2010, 2011, or 2012. I have that in a written answer from you, Minister. The Agricultural Dwelling House Advisory Committee has not met at any time since 2006, and at no time since 2006 has it had any request from a local authority for advice. A quarter of farms operate other businesses and, therefore, two different sets of legislation apply to them: some have the minimum wage legislation and others the Agricultural Wages Board legislation. As Lord Falconer also said, the same goes for those businesses—and there are an enormous number of them—whose activities and workers cover more than one sector of employment. Is that really what the noble Baroness wants: a great bureaucracy placing burdens on business?

We are very concerned that, from your comments, you have already made up your mind and your consultation exercise is, in effect, nothing more than a box-ticking exercise, and that it is being driven by factors other than what has operated in Wales to date. Namely, that none of those sub-committees of the Agricultural Wages Board have met. However, I do welcome the fact that, finally, young farmers in my region will get an opportunity to respond openly and be able to consider this matter more broadly, because they were not given that opportunity earlier. I know that there were statements made by a policy officer, but that was not considered by young farmers clubs on a regional level. So, I welcome the fact that there is a greater opportunity for people to express their views.

Sefydwyd y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol gan Orchymyn yn 2007 ac nid yw wedi cyfarfod yn 2007, 2008, 2009, 2010, 2011, na 2012. Mae gen' i hynny mewn ateb ysgrifenedig gennych, Weinidog. Nid yw'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol wedi cyfarfod ar unrhyw adeg ers 2006, ac nid yw wedi cael unrhyw gais gan awdurdod lleol am gyngor ar unrhyw adeg ers 2006. Mae chwarter y ffermydd yn gweithredu busnesau eraill ac, felly, mae dwy set wahanol o ddeddfwriaethau yn berthnasol iddynt: mae gan rai y ddeddfwriaeth isafswm cyflog ac eraill y ddeddfwriaeth Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Fel y dywedodd yr Arglwydd Falconer hefyd, mae'r un peth yn wir am y busnesau hynny—ac mae nifer enfawr ohonynt—y mae eu gweithgareddau a'u gweithwyr yn cwmpasu mwy nag un sector cyflogaeth. Ai dyna'r hyn y mae'r Farwnes fonheddig ei eisiau: biwrocratiaeth wych yn gosod beichiau ar fusnes?

Rydym yn bryderus iawn, o'ch sylwadau, eich bod eisoes wedi penderfynu ac nad yw eich ymarfer ymgynghori, mewn gwirionedd, yn ddim byd mwy nag ymarfer ticio blychau, a'i fod yn cael ei sbarduno gan ffactorau ar wahân i'r hyn sydd wedi bod ar waith yng Nghymru hyd yma. Sef, nad yw'r un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi cyfarfod. Fodd bynnag, rwyf yn croesawu'r ffaith y bydd ffermwyr ifanc yn fy rhanbarth, o'r diwedd, yn cael cyfle i ymateb yn agored a gallu ystyried y mater hwn yn fwy eang, gan na roddwyd y cyfle hwnnw iddynt yn gynharach. Rwyf yn gwybod bod datganiadau wedi'u gwneud gan swyddog polisi, ond ni chafodd hynny ei ystyried gan glybiau ffermwyr ifanc ar lefel ranbarthol. Felly, croesawaf y ffaith fod mwy o gyfle i bobl fynegi eu barn.

16:32

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

We would not have chosen to be in this position and we have argued consistently as a Government that the moves by the UK Government to dismantle this structure were wrong and were flawed. We would not have sought to have any sort of regional structure in place at all. We were content with the previous structures and we would have been more than happy to have conducted a wide-ranging conversation about the modernisation of the Agricultural Wages Board, but that was not something that the UK Government sought, or even allowed.

I must say to the Conservative spokesperson that she has again got the wrong end of the stick on the Agricultural Wages Board. It does meet regularly, I am afraid, Antoinette. It also produces an Order every year—the agricultural wages Order, which is in place today. It was put in place last October, so the Agricultural Wages Board is a working organisation that sets wages in the agricultural sector. It is for that reason that your Government wants to abolish it. If it did not meet or it did not work, you probably would not want to abolish it. You should have learnt that by now.

Ni fyddem wedi dewis bod yn y sefyllfa hon ac rydym wedi dadlau'n gyson fel Llywodraeth bod y camau gan Lywodraeth y DU i ddatgymalu'r strwythur hwn yn anghywir ac yn ddiffygiol. Ni fyddem wedi ceisio cael unrhyw fath o strwythur rhanbarthol ar waith o gwbl. Roeddem yn fodlon ar y strwythurau blaenorol a byddem wedi bod yn fwy na pharod i gynnal sgwrs eang am y broses o foderneiddio'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, ond nid oedd hynny'n rhywbeth yr oedd Llywodraeth y DU yn ei geisio, neu yn ei ganiatáu hyd yn oed.

Rhaid imi ddweud wrth lefarydd y Ceidwadwyr ei bod unwaith eto wedi camddeall ynghylch y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd, mae arnaf ofn, Antoinette. Mae hefyd yn cynhyrchu Gorchymyn bob blwyddyn—y Gorchymyn cyflogau amaethyddol, sydd ar waith heddiw. Cafodd ei roi ar waith fis Hydref diwethaf, felly mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn sefydliad gweithredol sy'n pennu cyflogau yn y sector amaethyddol. Dyma pam y mae eich Llywodraeth chi am ei ddileu. Pe na byddai'n cwrdd neu pe nad oedd yn gweithio, mae'n debyg na fydddech eisiau ei ddileu. Dylech fod wedi dysgu hynny erbyn hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Member for north Wales says that people have not had an opportunity to express an opinion, but I say to her that the DEFRA consultation lasted for four weeks. That is four weeks to enable Ministers in London to move ahead with this. To date, not a single elected Member has had the opportunity not just here, but in Westminster in London, to vote in favour of the abolition. It was inserted at the last minute into another piece of legislation in the House of Lords. It went through the House of Commons without a vote. No democratically elected politician has been given the opportunity to vote on this on any occasion at all. That is a matter not simply of circumventing the UK constitution and the settlement that we have in Wales, but of undermining the role of the UK Parliament as well. I do not think that the UK Government has anything to be proud of in the way that it has conducted this business.

Dywed yr Aelod dros ogledd Cymru nad yw pobl wedi cael cyfle i fynegi barn, ond rwyf yn dweud wrthi bod ymgynghoriad DEFRA wedi para am bedair wythnos. Mae hynny'n bedair wythnos i alluogi Gweinidogion yn Llundain i symud ymlaen â hyn. Hyd yma, nid oes yr un Aelod etholedig wedi cael cyfle nid yn unig yma, ond yn San Steffan yn Llundain, i bleidleisio o blaid y diddymu. Cafodd ei gynnwys ar y funud olaf mewn darn arall o ddeddfwriaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi. Aeth drwy Dŷ'r Cyffredin heb bleidlais. Nid oes yr un gwleidydd a etholwyd yn ddemocrataidd wedi cael y cyfle i bleidleisio ar hyn ar unrhyw achlysur o gwbl. Mae hynny nid yn unig yn osgoi cyfansoddiad y DU a'r setliad sydd gennym yng Nghymru, ond hefyd yn tanseilio rôl Senedd y DU. Nid wyf yn credu bod gan Lywodraeth y DU unrhyw beth i fod yn falch ohono yn y ffordd y mae wedi cynnal y busnes hwn.

16:35 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n ymddangos i mi, Weinidog, eich bod wedi ymateb yn adeiladol mewn sefyllfa gyfansoddiadol gwbl anaddas sydd wedi cael ei gorfodi arnom yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad yw pethau fel hyn yn digwydd yn y berthynas ddatganoledig. Fodd bynnag, a derbyn ein bod lle'r ydym, a ydych am ganiatáu i'r ymgynghoriad ledi dipyn bach yn ehangach i'r sector sgiliau a'r sector cefnogi amaethyddiaeth? Rwyf wedi dilyn yn ofalus, dros y blynyddoedd, waith Lantra yng Nghymru, sydd yn enghraifft dda o gefnogaeth ymarferol drwy'r cyngor sgiliau sector i weithgaredd amaethyddol. Efallai ei bod yn bryd i ni edrych yng Nghymru ar sut y gallwn gryfhau cefnogaeth y Llywodraeth i'r sector bwyd-amaeth ac i'r holl fusnesau—mae bron 19,000 ohonynt ac 85,000 o weithwyr—yn y sectorau amgylchedd a diwydiannau tir. Sut y gall y rheini, o bosibl, fod yn rhan o gorff newydd a fyddai'n hyrwyddo'r economi hon yng Nghymru?

It appears to me, Minister, that you have responded constructively in a completely inappropriate constitutional situation, which has been forced on us in Wales. It is important that we ensure that these things do not happen in the devolved relationship. However, given that we are where we are, will you allow the consultation to be a little broader to encompass the skills sector and the agricultural support sector? I am one who has followed carefully, over the years, the work of Lantra in Wales, which is a good example of the practical support of the sector skills councils to agricultural activity. It may be time for us to look in Wales at how we can strengthen Government support for the agri-food sector and for all the businesses—there are almost 19,000 businesses and 85,000 workers—in the environmental sector and land industries. How could they, possibly, be a part of a new body that would promote this economy in Wales?

16:36 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i lefarydd Plaid Cymru am ei gyfraniad. Rwy'n mawr obeithio fy mod wedi ymddwyn mewn ffordd adeiladol wrth drïo delio â hyn. Rwyf wedi cyfarfod tua wyth o Weinidogion o Lywodraeth y Deyrnas Unedig dros y ddwy flynedd diwethaf wrth i mi drïo delio â hyn. Bob tro, nid wyf wedi herio eu hawl i ddeddfu yn y maes hwn neu i gael eu polisi drwyddo yn Lloegr. Rwy'n anghytuno â hwy, ond rwy'n cydnabod eu hawl i ddeddfu yn y ffordd honno. Rwyf wedi gofyn am yr hawl i ni lunio polisi Cymreig ar gyfer yr amodau yng Nghymru. Dyna rwyf wedi gofyn amdano. Mae'n rhan o natur ac ysbryd y cyfansoddiad sydd gennym, ac rwy'n hynod siomedig nad wyf wedi cael cyfle i negodi gyda Gweinidogion yn San Steffan mewn ffordd ddeallus neu fel y byddwn wedi dewis gwneud. Rwy'n siomedig iawn am hynny.

I thank the Plaid Cymru spokesperson for his contribution. I very much hope that I have behaved in a constructive way in trying to deal with this. I have met with something like eight UK Government Ministers over the last four years as I have been trying to deal with this. Every time, I have not challenged their right to legislate in this field or to get their policy through in England. I disagree with them, but I recognise their right to legislate in that way. I have asked for the right for us to draw up a Welsh policy for the conditions in Wales. That is what I have asked for. It is part of the nature and the spirit of the constitution that we have, and I am very disappointed that I have not had the opportunity to negotiate with Ministers in Westminster in an intelligent way or as I would have chosen to do. I am very disappointed about that.

I ateb eich cwestiwn, rwy'n hapus i ledu'r drafodaeth a'r ddeialog yn ystod yr wythnosau a misoedd nesaf. Rwy'n cytuno â chi pan ydych yn sôn am y cyfle sydd gennym i adeiladu rhywbeth newydd. Dyma'n union y fath o drafodaeth yr hoffwn fod wedi ei chael gyda DEFRA a Gweinidogion yn San Steffan pe baent wedi bod yn fodlon gwneud hynny, er mwyn trafod sut y gallwn hyrwyddo'r agenda sgiliau a phroffesiynoldeb yn y sector amaeth a'r sector tir. Mae gennym gyfle, ac rwy'n mawr obeithio y bydd pobl yn bachu ar y cyfle rydych wedi cydnabod sydd yma yn ystod yr wythnosau nesaf i wneud hynny.

In response to your question, I am happy to widen the discussion and dialogue that we will have over the coming weeks and months. I agree with you when you talk about the opportunity that we have to build something new. That is exactly the type of discussion that I would have liked to have had with DEFRA and Ministers in Westminster, had they been willing to do so in order to discuss how we can promote the skills agenda and professionalism in the agricultural sector and the land sector. We have an opportunity, and I very much hope that people will take up the opportunity that you have acknowledged exists to do so in the coming weeks.

16:38

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have been involved in this issue for a while and I have had lots of consultations. I do not intend to rehearse the pros and cons argument that we have had in rather heated debates. However, there are certain facts that are very clear, and these come from the Government, namely the impact of abolition for the England and Wales economy will be to take £260 million out of the pockets of those people who work in the industry. It is clear and inarguable that the consequence of that will be to increase rural poverty and to increase the impact on the associated industries that use the Agricultural Wages Board levels as a marker. As an Environment and Sustainability Committee, we considered carefully a lot of evidence and spoke to people who were involved with this. I believe that the most credible evidence that came out of that was evidence in support of what the UK Government was saying in that it will achieve exactly those impacts.

As a result of devolution, we have an opportunity not only to retain those protections, but to create something better than we had before. No-one was arguing that the Agricultural Wages Board was perfect in its forms or that it did not need reform. In many ways, perhaps one thing that we should be grateful for is that we now have an opportunity to create a body that not only protects workers, but looks to the future of the agricultural industry in a fair and equitable way. That is the way in which I hope that we will now progress with the consultation, which is so rightly launched on International Workers Day on 1 May.

Weinidog, rwyf wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn am sbel ac rwyf wedi cael llawer o ymgynghoriadau. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y manteision ac anafanteision a gawsom mewn dadleuon eithaf tanbaid. Fodd bynnag, mae rhai ffeithiau sy'n glir iawn, ac mae'r rhain yn dod gan y Llywodraeth, sef mai effaith y diddymu ar economi Cymru a Lloegr fydd cymryd £260 miliwn allan o bocedi'r bobl hynny sy'n gweithio yn y diwydiant. Mae'n glir ac yn ddiaddl mai canlyniad hynny fydd cynyddu tlodi gwledig a chynyddu'r effaith ar y diwydiannau cysylltiedig sy'n defnyddio lefelau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol fel meincnod. Fel Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rydym wedi ystyried llawer o dystiolaeth yn ofalus ac wedi siarad â phobl a oedd yn ymwneud â hyn. Credaf mai'r dystiolaeth fwyaf credadwy a ddaeth o hynny oedd tystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei ddweud, yn yr ystyr y bydd yn cyflawni'r union effeithiau hynny.

O ganlyniad i ddatganoli, mae gennym gyfle i gadw'r camau diogelu hynny, ond hefyd i greu rhywbeth gwell nag a oedd gennym o'r blaen. Nid oedd neb yn dadlau bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn berffaith neu nad oedd angen ei ddiwygio. Mewn nifer o ffyrdd, efallai mai un peth y dylem fod yn ddiolchgar amdano yw ein bod bellach yn cael cyfle i greu corff sy'n edrych ar ddyfodol y diwydiant amaethyddol mewn ffordd deg a chyfiawn, yn ogystal â diogelu gweithwyr. Dyna'r ffordd yr wyf yn gobeithio y byddwn yn awr yn symud ymlaen â'r ymgynghoriad, sy'n cael ei lansio yn gwbl gywir ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Gweithwyr ar 1 Mai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:40

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Mick. One of the great concerns that I have at a time when we are seeing enormous stresses on the rural economy is that to potentially lose £260 million out of the rural economy is a challenging and worrying thing for everyone. One of the things that I found to be curious in the debate in the House of Commons last week, which the official opposition called in lieu of its ability to vote on this matter in the House of Commons, was that DEFRA Ministers, when it was put to them time and again how the abolition of the AWB would create work and investment in the rural economy, were unable to answer that question. Time and again, the question was put to them, and time and again they failed to answer it. You will have the opportunity to have that debate, Mick, and you will have the opportunity to take advantage of the period of consultation. We know, from the DEFRA consultation, that there is a great deal of support for the AWB in Wales. Of the 29 Welsh responses to the DEFRA consultation, 26 opposed abolition. One of the three who supported it was Antoinette Sandbach, the Conservative Member for North Wales. They could not even manage to find two more people to support her across the whole country of 3 million. I think that that tells you all you need to know.

Diolch yn fawr iawn i chi, Mick. Un o'r pryderon mawr sydd gennyf ar adeg pan ydym yn gweld straen enfawr ar yr economi wledig yw bod y posibilrwydd o golli £260 miliwn o bosibl allan o'r economi wledig yn her ac yn destun pryder i bawb. Un o'r pethau hynod, i mi, yn y ddadl a alwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos diwethaf gan yr wrthblaid swyddogol, oherwydd nad oedd cyfle iddynt bleidleisio ar y mater, oedd na allai Gweinidogion DEFRA ddweud sut y gellid creu gwaith a buddsoddiad yn yr economi wledig trwy ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, er y gofynnwyd iddynt dro ar ôl tro. Dro ar ôl tro, gofynnwyd y cwestiwn iddynt, a dro ar ôl tro nid oeddent yn gallu ei ateb. Byddwch chi, Mick, yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl honno, a byddwch yn cael y cyfle i fanteisio ar y cyfnod o ymgynghori. Rydym yn gwybod, o ymgynghoriad DEFRA, fod llawer iawn o gefnogaeth i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Roedd 26 o'r 29 ymateb yng Nghymru i ymgynghoriad DEFRA yn gwrthwynebu'r diddymu. Un o'r tri a'i cefnogodd oedd Antoinette Sandbach, Aelod Ceidwadol Gogledd Cymru. Ni lwyddwyd hyd yn oed i ddod o hyd i ddau berson arall i'w chefnogi ymhlith holl boblogaeth y wlad o 3 miliwn. Credaf fod hynny'n dweud y cyfan sydd angen i chi ei wybod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:41

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch o galon heddiw.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and heartfelt thanks today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would also like to thank the Minister very much for his statement today. As will others in the Chamber, I have been following debates on this matter at Westminster with considerable interest, and I have also played a full part in our committee's work on this topic. I acknowledge the continued contribution that has been led by Mick Antoniw, my colleague on the committee, on this issue. Indeed, when he used his short debate to raise the future of the board last year, I stated at that time that it was my belief that while arrangements cannot always be exempt from reform, it is worth us exploring the scope for this area of work to be subject to devolution, as is the case in Northern Ireland and Scotland. In fact, I believe that those comments were picked up by David Heath in his remarks last week, and I remain of that view.

I am sympathetic to the view that a number of the principles enshrined within the Agricultural Wages Board could be saved and strengthened to the benefit of Welsh agriculture in future years. However, we need to be convinced that there is a robust business case, and we also need to be certain that any such decision is lawful in terms of competence. Surely, it is possible to protect working conditions without committing the millions of pounds that have been spent across the UK on sustaining a body that is widely regarded as being inflexible and, to some extent, an anachronistic quango borne of the post-war years.

In an attempt to shift the debate from party politics onto agricultural policy, I would argue that a detailed and extensive debate needs to be had in Wales. I welcome the consultation that the Minister has announced today. It is important that we do not have a duplication of organisations, such as the Agricultural Wages Committee, the Agricultural Dwelling House Advisory Committee, and other such structures. We need to avoid duplication here. It is particularly important that those who argue that the board's demise will bring great difficulty to the sector actually appreciate the wider needs of the agricultural community, which are not always heard and addressed in this Chamber.

I have a couple of specific questions to the Minister on this issue. First, what discussions has the Minister for National Resources and Food had with the Scottish Government over its experience of the devolution process in this area? Secondly, what assessment has been made of the implications for cross-border agricultural holdings, should Wales and England follow a separate route, as now appears highly likely, particularly given the intensely porous nature of that border and the frequent occurrence of landholdings on both sides within a single farm business? Finally, given that employment issues are not devolved, what will the Minister do to seek a change in the devolution settlement to make safe what he proposes?

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gweinidog yn fawr iawn am ei ddatganiad heddiw. Fel pobl eraill yn y Siambr, rwyf wedi bod yn dilyn trafodaethau ar y mater hwn yn San Steffan gyda diddordeb sylweddol, ac rwyf hefyd wedi chwarae rhan lawn yng ngwaith ein pwyllgor ar y pwnc hwn. Rwyf yn cydnabod y cyfraniad parhaus sydd wedi'i arwain gan Mick Antoniw, fy nghydweithiwr ar y pwyllgor, ar y mater hwn. Yn wir, pan ddefnyddiodd ei ddadl fer i godi dyfodol y bwrdd y llynedd, dywedais ar y pryd mai fy nghred oedd nad oes modd osgoi diwygiadau bob amser, ond ei bod yn werth i ni ystyried y posibilïadau ar gyfer datganoli'r maes gwaith hwn, fel sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Yn wir, rwyf yn credu bod y sylwadau hynny wedi cael eu hystyried gan David Heath yn ei sylwadau yr wythnos diwethaf, ac rwy'n dal i fod o'r farn honno.

Rwyf yn cydymdeimlo â'r farn y gallai nifer o'r egwyddorion a ymgorfforir o fewn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gael eu cadw a'u cryfhau er budd amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn argyhoeddedig y ceir achos busnes cadarn, ac mae angen inni hefyd fod yn sicr bod unrhyw benderfyniad o'r fath yn gyfreithlon o ran cymhwysedd. Siawns bod modd diogelu amodau gwaith heb ymrwymo'r miliynau o bunnoedd sydd wedi eu gwario ar draws y DU ar gynnal corff sy'n cael ei ystyried yn eang fel un anhyblyg ac, i ryw raddau, yn gwango anacronistig o'r blynyddoedd ar ôl y rhyfel.

Mewn ymgais i symud y ddadl o wleidyddiaeth plaid i bolisi amaethyddol, byddwn yn dadlau bod angen cael trafodaeth fanwl a helaeth yng Nghymru. Rwyf yn croesawu'r ymgynghoriad y mae'r Gweinidog wedi'i gyhoeddi heddiw. Mae'n bwysig nad ydym yn dyblygu sefydliadau, megis y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol, a strwythurau eraill o'r fath. Mae angen i ni osgoi dyblygu yma. Mae'n arbennig o bwysig bod y rhai sy'n dadlau y bydd tranc y bwrdd yn dod ag anhawster mawr i'r sector, wir yn gwerthfawrogi anghenion ehangach y gymuned amaethyddol, nad ydynt yn cael eu clywed nac yn cael sylw yn y Siambr hon bob amser.

Mae gen' i un neu ddau o gwestiynau penodol i'r Gweinidog ar y mater hwn. Yn gyntaf, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi'u cael gyda Llywodraeth yr Alban am ei phrofiad o'r broses ddatganoli yn y maes hwn? Yn ail, pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r goblygiadau ar gyfer daliadau amaethyddol trawsffiniol, pe digwydd i Gymru a Lloegr ddilyn gwahanol lwybrau, fel sy'n ymddangos yn debygol iawn yn awr, yn enwedig o ystyried nad yw'r ffin honno'n un soled iawn a'r ffaith bod cynifer o enghreifftiau o un busnes fferm sy'n dal tir ar y ddwy ochr? Yn olaf, o ystyried nad yw materion cyflogaeth yn cael eu datganoli, beth fydd y Gweinidog yn ei wneud i geisio newid yn y setliad datganoli i ddiogelu'r hyn y mae'n ei gynnig?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There was a moment in the contribution by the Liberal Democrats when I felt that Bill Powell may finally have got off the fence and given us a definitive view. We have been waiting for nearly two years now. For one brief moment, I thought that he knew what he thought on this matter. I am sorry that you disappointed me again, Bill. You need to be careful: those splinters are going to enter your soul if you continue to sit unhappily on that fence, trying to balance your instructions from London with what you believe yourself.

Conservative Member Antoinette Sandbach said that I had already made my mind up as to what I want to see. That is not true. However, there is one area where my thoughts are very clear: I would like to see simplicity. We do not want to see duplication, and we want to see a structure that works, whatever that happens to be and whatever route we go down. I do not think that we need to bury any industry with the burden of additional and unnecessary regulation. I will say that, though I would again emphasise that this is a clear and fair consultation. My mind is not made up on any of the options available to me. I want to listen to what people have to say and come to a reasoned decision at the end of that consultation.

The questions that you asked were very fair questions, Bill. I do not believe that there are significant issues for cross-border holdings. These matters are reviewed and dealt with every day, and that has been the case since before devolution, when the old Welsh Office had responsibility for agricultural policy. Questions like that show a pretty profound lack of familiarity with how agriculture is administered and governed in the United Kingdom today, and how it has been administered and governed for some decades. We have had informal discussions with the Scottish Government, and I will tell you about one outcome of those conversations. You said that millions of pounds had been spent on regulatory structures. That is far away from the reality of the situation. The current DEFRA structures cost a maximum of £200,000. I would never seek to duplicate much of that here in Wales. On other matters, we have discussed the issue of competence before. You will remember the committee meeting where we had that conversation. I am grateful to the committee for the work that it has done. I hope that the committee reports on this and takes part in the consultation. For me, the issues of competence in this matter are very clear.

Roedd eiliad yn y cyfraniad gan y Democratiaid Rhyddfrydol pan oeddwn yn teimlo bod Bill Powell o'r diwedd wedi dod oddi ar y ffens a rhoi i ni farn bendant. Rydym wedi bod yn aros am bron i ddwy flynedd bellach. Am un eiliad fer, roeddwn yn meddwl ei fod yn gwybod beth oedd yn ei feddwl am y mater hwn. Mae'n ddrwg gennyf eich bod wedi fy siomi eto, Bill. Mae angen i chi fod yn ofalus: bydd y fflawiau hynny'n mynd i mewn i'ch enaid os byddwch yn parhau i eistedd yn anhapus ar y ffens, yn ceisio cydbwysu eich cyfarwyddiadau gan Lundain â'r hyn yr ydych yn ei gredu eich hun.

Dywedodd yr Aelod Ceidwadol Antoinette Sandbach fy mod eisoes wedi penderfynu beth rwyf am ei weld. Nid yw hynny'n wir. Fodd bynnag, mae fy meddyliau'n eglur iawn mewn un maes: hoffwn weld symlrwydd. Nid ydym am weld dyblygu, ac rydym am weld strwythur sy'n gweithio, beth bynnag fydd hynny a pha bynnag lwybr yr ydym yn ei ddilyn. Nid wyf yn meddwl bod angen inni gladdu unrhyw ddiwydiant dan faich rheoleiddio ychwanegol a diangen. Dywedaf hynny, er y byddaf unwaith eto'n pwysleisio bod hwn yn ymgynghoriad clir a theg. Nid wyf wedi penderfynu ar unrhyw un o'r opsiynau sydd ar gael i mi. Rwyf am wrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud a gwneud penderfyniad rhesymegol ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwnnw.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd gennych yn gwestiynau teg iawn, Bill. Nid wyf yn credu y ceir problemau o bwys o ran daliadau traws-ffiniol. Mae'r materion hyn yn cael eu hadolygu ac ymdrinnir â nhw bob dydd, ac mae hynny wedi bod yn wir ers cyn datganoli, pan oedd yr hen Swyddfa Gymreig yn gyfrifol am bolisi amaethyddol. Mae cwestiynau fel hyn yn dangos diffyg cynefndra eithaf difrifol â'r ffordd y mae amaethyddiaeth yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn y Deyrnas Unedig heddiw, a sut y mae wedi cael ei gweinyddu a'i rheoli ers rhai degawdau. Rydym wedi cael trafodaethau anffurfiol gyda Llywodraeth yr Alban, ac fe ddywedaf wrthyhych am un canlyniad i'r sgorsiau hynny. Rydych yn dweud bod miliynau o bunnoedd wedi eu gwario ar strwythurau rheoleiddio. Mae hynny ymhell o realiti'r sefyllfa. Mae strwythurau presennol DEFRA yn costio uchafswm o £200,000. Ni fyddwn byth yn ceisio dyblygu llawer o hynny yma yng Nghymru. O ran materion eraill, rydym wedi trafod cymhwysedd o'r blaen. Byddwch yn cofio cyfarfod y pwyllgor lle cawsom y sgwrs honno. Rwyf yn ddiolchgar i'r pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud. Rwyf yn gobeithio y bydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad am hyn ac yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. I mi, mae'r materion cymhwysedd yn eglur iawn.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement this afternoon. You misunderstood my colleague Antoinette Sandbach. The agricultural wages committee is, in fact, your own committee, which was set up by the Assembly. We all accept that the Agricultural Wages Board has been, up until the present time, an instrument laid out in law in Westminster, and that it has been around since the end of the second world war. It was disappointing that you got those two things mixed up; maybe that shows that you have a lack of grip on your portfolio.

Weinidog, diolch am eich datganiad brynhawn heddiw. Rydych wedi camdeall fy nghydweithiwr Antoinette Sandbach. Eich pwyllgor chi eich hun yw'r pwyllgor cyflogau amaethyddol, mewn gwirionedd, ac fe'i sefydlwyd gan y Cynulliad. Rydym i gyd yn derbyn bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi bod, hyd at y presennol, yn offeryn a nodwyd yn y ddeddf yn San Steffan, a'i fod wedi bodoli ers diwedd yr ail ryfel byd. Roedd yn siomedig eich bod wedi cymysgu'r ddau beth, efallai bod hynny'n dangos diffyg gfael ar eich portffolio.

I will put a specific question to you. As I understand your statement today, you are looking to launch a consultation on setting up an organisation that could potentially determine the terms, conditions and salaries of Welsh agricultural workers. Is it also the Welsh Government's intention to bring forward such consultations in the fields of education, health and local government, for example, and thus seek to determine terms, conditions and wages here in Wales, rather than to follow national terms and conditions across the rest of the UK? As I understand your statement today, that is what you are consulting on. You also touched on the rural economy. There was an important debate here last Wednesday about the rural economy and its vitality. Not one of your Members spoke in that debate, despite the fact that the motion was passed unanimously by this Chamber.

Rhoddaf gwestiwn penodol i chi. Fel yr wyf yn deall eich datganiad heddiw, rydych yn ystyried lansio ymgynghoriad ar sefydlu sefydliad a allai o bosibl benderfynu ar delerau, amodau a chyflogau gweithwyr amaethyddol Cymru. A yw hefyd yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno ymgynghoriadau o'r fath ym meysydd addysg, iechyd a llywodraeth leol, er enghraifft, a cheisio penderfynu felly ar delerau, amodau a chyflogau yma yng Nghymru, yn hytrach na dilyn telerau ac amodau cenedlaethol ar draws gweddill y DU? Fel yr wyf yn deall eich datganiad heddiw, dyna beth yr ydych yn ymgynghori arno. Roeddech hefyd yn sôn am yr economi wledig. Cafwyd dadl bwysig yma ddydd Mercher diwethaf am yr economi wledig a'i bywiogrwydd. Ni siaradodd yr un o'ch Aelodau yn y ddadl honno, er bod y cynnig wedi ei basio'n unfrydol gan y Siambur hon.

16:49 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I spoke in last week's debate, and I spoke on behalf of the Government. I also spoke about the investments that we are making in the rural economy—investments that are not taking place on the other side of Offa's Dyke. I sometimes think that the contributions made by you and your colleagues in this Chamber would be better made somewhere else, to other Ministers who follow a different policy and do not invest in the rural economy in the way that this Government does.

Siaradais yn y ddadl yr wythnos diwethaf, a hynny ar ran y Llywodraeth. Siaradais hefyd am y buddsoddiadau yr ydym yn eu gwneud yn yr economi wledig—buddsoddiadau nad ydynt yn digwydd yr ochr arall i Glawdd Offa. Weithiau byddaf yn meddwl y byddai'n well i'r cyfraniadau a wneir gennych chi a'ch cydweithwyr yn y Siambur hon gael eu gwneud yn rhywle arall, i Weinidogion eraill sy'n dilyn polisi gwahanol ac nad ydynt yn buddsoddi yn yr economi wledig yn y modd y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very clear in understanding the structures that currently exist, and the consultation that is taking place. The AWB is a body that meets and provides significant guidance and determines the agricultural wages Order, which is made into law every October. You should and must be aware of that. We are consulting on it today and are launching the consultation tomorrow. You will have your opportunity to take part in that—you and your merry band of friends. It is a diminishing and small band of friends who do not have the support of people across Wales

Rwyf yn deall y strwythurau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn glir iawn, a'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal. Mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn gorff sy'n cwrdd ac yn rhoi arweiniad sylweddol ac yn penderfynu ar y Gorchymyn cyflogau amaethyddol, sy'n cael ei wneud yn ddeddf bob mis Hydref. Dylech chi fod ac mae'n rhaid eich bod yn ymwybodol o hynny. Rydym yn ymgynghori arno heddiw ac yn lansio'r ymgynghoriad yfory. Byddwch yn cael cyfle i gymryd rhan yn hynny—chi a'ch band llawen o ffrindiau. Mae'n fard bach o ffrindiau sy'n prysur ddiplannu, ac nid yw cefnogaeth pobl ar draws Cymru ganddynt.

16:50 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You cannot answer the question.

Nid ydych yn gallu ateb y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You did not ask a question; that is the problem—and it is a problem for me sometimes.

Ni wnaethoch ofyn cwestiwn; dyna'r broblem—ac mae'n broblem i mi weithiau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of where we are going, we will listen to the consultation and respond to it. I am looking forward to the conversation that we will have, and if you have views that you can express clearly, then please do so and I will listen even to you, Andrew.

O ran y cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, byddwn yn gwrandao ar yr ymgynghoriad ac yn ymateb iddo. Rwyf yn edrych ymlaen at y sgwrs a gawn, ac os oes gennych farn y gallwch ei mynegi'n glir, yna mae croeso i chi wneud hynny, a byddaf yn gwrandao hyd yn oed arnoch chi, Andrew.

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will move us on with a new train of thought, and pick up some key issues here. I want, first of all, to touch on an issue that has been raised, which is the putting in place of a body that protects the rights of workers in a specific field, namely agriculture and land. The question was raised, Minister, of whether this will bring in a new regime that you might consider elsewhere. I think that the Conservative leader has failed in this case to understand that protection for those exists in the unions that they already have on their side, in their profession—they always have and always will.

I very much welcome the fact that you, Minister, are putting in place what is a very short, sharp and pointed level of consultation that will allow, I hope, some early resolution, whatever it might be, for the people who currently will, perhaps for a short time, have no protection whatsoever. The protection here is not simply for the employee; it is for the employer as well. I have heard, along with Mick Antoniw, both sides saying that they want that protection. They want the onus that is removed from the very small employer to be moved to a body that will arbitrate, quite successfully, so that those two people can be together in the field, on the land, the very next day.

I would implore you to listen, Minister, as I am sure you will, to the voices of all people concerned in this debate, and not, as far as I can understand has happened in England, to those people who shout loudest and most frequently. That is not consultation, and I do not think that that will add any value whatsoever.

I applaud you, Minister, for at least taking this issue on and for recognising what they have fundamentally failed to recognise on the benches to my left, namely that there is a need for such a body, and that there are other bodies, equally, that represent other workers. So, we are just putting a bit of fairness and equality back into the system.

Hoffwn symud ymlaen gyda rhywbeth newydd ac ystyried rhai materion allweddol yma. Rwyf, yn gyntaf oll, am gyffwrdd ar fater sydd wedi'i godi, sef sefydlu corff sy'n diogelu hawliau gweithwyr mewn maes penodol, sef amaethyddiaeth a thir. Codwyd y cwestiwn, Weinidog, ynghylch a fydd hyn yn cyflwyno cyfundrefn newydd y gallech ei hystyried mewn meysydd eraill. Credaf fod arweinydd y Ceidwadwyr wedi methu â deall yn yr achos hwn bod diogelwch ar gael ar gyfer y rheini yn yr undebau sydd ganddynt eisoes ar eu hochr, yn eu proffesiwn—bu yno bob amser a bydd yno bob amser.

Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith eich bod chi, Weinidog, yn rhoi ymgynghoriad byr, miniog a threiddgar iawn ar waith a fydd yn caniatáu rhyw ateb cynnar, rwyf yn gobeithio, beth bynnag y bo, ar gyfer y bobl a fydd ar hyn o bryd, efallai am gyfnod byr, heb unrhyw amddiffyniad o gwbl. Mae'r amddiffyniad yma ar gyfer y cyflogwr yn ogystal â'r gweithiwr. Rwyf wedi clywed, ynghyd â Mick Antoniw, y ddwy ochr yn dweud eu bod am gael y diogelwch hwnnw. Maent am i'r cyfrifoldeb sy'n cael ei gymryd oddi wrth y cyflogwr bach iawn gael ei symud i gorff a fydd yn cyflafareddu, yn eithaf llwyddiannus, fel y gall y ddau unigolyn hynny fod gyda'i gilydd yn y maes, ar y tir, y diwrnod nesaf.

Byddwn yn erfyn arnoch i wrando, Weinidog, fel yr wyf yn siŵr y byddwch, ar leisiau'r holl bobl sy'n ymwneud â'r ddatl hon, ac nid ar y bobl hynny sy'n gweiddi uchaf a mwyaf aml, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr, cyn belled ag y deallaf. Nid ymgynghori yw hynny, ac nid wyf yn credu y bydd yn ychwanegu unrhyw werth o gwbl.

Rwyf yn eich cymeradwyo chi, Weinidog, am o leiaf ystyried y mater hwn ac am gydnabod yr hyn y maent wedi methu yn sylfaenol â'i gydnabod ar y meinciau ar fy llaw chwith, sef bod angen am gorff o'r fath, a bod cyrff eraill sy'n cynrychioli gweithwyr eraill. Felly, nid ydym ond yn rhoi ychydig o degwch a chydaddoldeb ôl i mewn i'r system.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank my good friend for her comments and her questions. I think that the point that the leader of the opposition missed in his contribution is that this is about how we determine the future of the agriculture industry, so that we protect and enhance the future of agriculture in Wales. This is about ensuring that we have in place sufficient tools to ensure the continued professionalisation of that industry, to ensure that we have the means to deliver security of food production, and to ensure that the agriculture industry continues to develop and maximise its potential.

This is about agriculture. It is about ensuring that the rural economy is protected, and it is about investing in that economy and investing in the people who work in that industry. That is what we are consulting on. I welcome the contributions from all sides of the Chamber this afternoon, and I hope that we will be able to continue this conversation and conclude it over the coming months.

Diolch i'm ffrind da am ei sylwadau a'i cwestiynau. Rwyf yn credu mai'r pwynt y mae arweinydd yr wrthblaid wedi'i fethu yn ei gyfraniad yw bod hyn yn ymwneud â sut yr ydym yn penderfynu dyfodol y diwydiant amaethyddol, fel ein bod yn diogelu ac yn gwella dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gennym offer digonol ar waith i sicrhau bod y diwydiant hwnnw yn parhau i fod yn broffesiynol, bod gennym y modd i ofalu bod y drefn o gynhyrchu bwyd yn ddiogel, a bod y diwydiant amaethyddiaeth yn parhau i ddatblygu a gwneud y mwyaf o'i potensial.

Mae hyn yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae'n ymwneud â sicrhau bod yr economi gwledig yn cael ei ddiogelu, ac mae'n ymwneud â buddsoddi yn yr economi a buddsoddi yn y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant hwnnw. Dyna'r hyn yr ydym yn ymgynghori arno. Croesawaf y cyfraniadau o bob ochr i'r Siambr brynhawn heddiw, ac rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu parhau â'r sgwrs hon a'i therfynu dros y misoedd nesaf.

16:54

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A key aspect of the 'Working Smarter' agenda is to reduce the regulation burden, to enable diversification. Do you think that the agenda that you seek goes against the key principles of that report? What is the rationale for believing that creating an agricultural wages board, or similar, for Wales will not create further problems for a diversified farming business, where employees engage in non-agricultural work, which could be subject to an Order from any board and the minimum wage?

Un agwedd allweddol ar agenda 'Hwyluso'r Drefn' yw lleihau'r baich rheoleiddio, i alluogi arallgyfeirio. A ydych chi'n meddwl bod yr agenda yr ydych yn ei cheisio yn mynd yn groes i egwyddorion allweddol yr adroddiad hwnnw? Beth yw'r rhesymeg dros greu na fyddid, yn sgil creu bwrdd cyflogau amaethyddol, neu gyffelyb, ar gyfer Cymru, yn creu mwy o broblemau ar gyfer busnes ffermio wedi'i arallgyfeirio, lle mae gweithwyr yn cymryd rhan mewn gwaith nad yw'n amaethyddol, a allai fod yn destun Gorchymyn gan unrhyw fwrdd a'r isafswm cyflog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:55

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad that the Member referred to the 'Working Smarter' project, which I launched some 18 months ago. Through that process, Gareth Williams spoke to many hundreds of people throughout the agriculture industry. He spoke to people on all sides, and from all parts, of that community. At the beginning of this year, he returned to those stakeholders and spoke to them again about regulation and the burden of administration within agriculture. What was striking was that nobody—nobody at all—referred to the Agricultural Wages Board in the terms that you and your colleagues have mentioned this afternoon. Nobody said to Gareth Williams, 'The Agricultural Wages Board needs to be abolished in order to provide us with the freedom to invest more in our people and our industry'. Nobody suggested that to him during his first review, and nobody suggested that to him in his second review.

Rwyf yn falch bod yr Aelod wedi cyfeirio at y prosiect 'Hwyluso'r Drefn', a lanswyd gennyf tua 18 mis yn ôl. Drwy'r broses honno, siarodd Gareth Williams â rhai cannoedd o bobl ledled y diwydiant amaeth. Siarodd â phobl ar bob ochr, ac o bob rhan o'r gymuned honno. Ar ddechrau'r flwyddyn hon, dychwelodd at y rhanddeiliaid hynny a siarad â nhw eto am reoleiddio a'r baich gweinyddol o fewn amaethyddiaeth. Yr hyn a oedd yn drawiadol oedd na wnaeth neb—neb o gwbl—gyfeirio at y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn y termau yr ydych chi a'ch cydweithwyr wedi eu crybwyll brynawn heddiw. Ni ddywedodd unrhyw un wrth Gareth Williams, 'Mae angen i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gael ei ddiddymu er mwyn rhoi i ni'r rhyddid i fuddsoddi mwy yn ein pobl a'n diwydiant'. Nid awgrymodd neb hynny iddo yn ystod ei adolygiad cyntaf, ac nid awgrymodd neb hynny iddo yn ei ail adolygiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will go further than that. I meet with representatives of the farming industry and the agricultural community week in, week out, month in, month out, and I have done so for the last two years as a Minister in this field, and I have to say to you that nobody has said to me that the abolition of the Agricultural Wages Board will enhance the agricultural industry and develop the rural economy. Nobody has said that. Nobody from the NFU has said that, and nobody from the FUW has said that. Nobody from the Young Farmers Clubs has said that. Nobody from any organisation has said that. They do not say it.

Af ymhellach na hynny. Rwyf yn cwrdd â chynrychiolwyr y diwydiant ffermio a'r gymuned amaethyddol o wythnos i wythnos, o fis i fis, ac rwyf wedi gwneud hynny am y ddwy flynedd ddiwethaf fel Gweinidog yn y maes hwn, ac mae'n rhaid i mi ddweud wrthyfch nad oes neb wedi dweud wrthyf y bydd diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn gwella'r diwydiant amaethyddol ac yn datblygu'r economi wledig. Nid oes neb wedi dweud hynny. Nid oes neb o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, na neb o Undeb Amaethwyr Cymru, wedi dweud hynny. Nid oes neb o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc wedi dweud hynny. Nid oes neb o unrhyw sefydliad wedi dweud hynny. Nid ydynt yn dweud hynny.

I speak to county meetings of both unions month in, month out. I listen to what is being said, and I have conversations with the industry in that way; nobody, from Anglesey down to Monmouthshire, has suggested that the Agricultural Wages Board is a regulatory burden that they need removed. Nobody has said that to me on a single occasion. I say to the Conservatives: you are out of touch on this one.

Rwyf yn siarad â chyfarfodydd sir y ddau undeb o fis i fis. Rwyf yn gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac yn cael sgyrsiau â'r diwydiant yn y modd hwnnw; nid oes neb, o Ynys Môn i lawr i Sir Fynwy, wedi awgrymu bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn faich rheoleiddio y mae angen ei ddileu. Nid oes neb wedi dweud hynny wrthyf ar unrhyw achlysur. Dywedaf wrth y Ceidwadwyr: nid ydych yn deall y sefyllfa hon o gwbl.

Datganiad: Colli Swyddi yn Rowecord yng Nghasnewydd

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I want to update Members today on the recent announcement that Rowecord Engineering has entered into administration. Rowecord is one of the UK's leading steelwork contractors and a niche fabricator operating across the manufacturing, energy and environment and construction sectors, delivering major projects in areas such as bridge building, stadia and process-plant facility construction. The company is a well-known and respected Welsh manufacturing company and, as a regionally important company in Wales, we have a long-established relationship with it, indeed going back nearly 10 years.

This relationship has manifested itself in financial and property assistance to aid expansion plans, as well as training and apprenticeship support to help develop the workforce. Therefore, this is obviously very disappointing news, not only for the Welsh economy, but for the company's employees and their families. The 430 potential redundancies at Rowecord Engineering will impact staff at the sites in Newport and Baglan and at the maintenance team within Tata, Port Talbot.

I understand that it is the company's intention to protect the other companies in the group. Over the last few years, the industry across the UK has been experiencing difficulties, and the company's market is believed to have reduced by up to 40%. This has placed considerable financial pressure on suppliers and has resulted in competitors leaving the industry.

While we were able to help the company to successfully resolve a recent issue with contracts, sadly these wider financial pressures and challenges in the industry have meant that the company itself has had to take the decision to enter into administration. We have offered assistance to the maximum level allowable within state-aid rules to the company. However, this offer was not taken up by the company, because of its worsening financial and competitive position. Clearly, we were offering a short-term to medium-term remedy to the company's management. In the longer term, full recovery lies with a significant improvement in market conditions. In particular, we will continue to encourage the UK Government to put a greater emphasis on major infrastructure projects.

Statement: Job Losses at Rowecord in Newport

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am y cyhoeddiad diweddar fod Rowecord Engineering wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Rowecord yw un o gontractwyr gwaith dur mwyaf blaenllaw'r DU ac mae'n wneuthurwr arbenigol sy'n gweithredu ar draws y sectorau gweithgynhyrchu, ynni a'r amgylchedd ac adeiladu. Mae'r cwmni'n darparu prosiectau mawr mewn meysydd megis adeiladu pontydd, stadiymau a ffatrioedd prosesu. Dyma gwmni gweithgynhyrchu Cymreig sy'n adnabyddus ac yn uchel ei barch, ac yn gwmni rhanbarthol pwysig yma yng Nghymru, ac mae gennym berthynas ag ef ers bron i 10 mlynedd.

Datblygwyd y berthynas hon drwy roi cymorth ariannol a chymorth eiddo i gynorthwyo â chynlluniau'r cwmni i ehangu, ynghyd â chymorth drwy hyfforddiant a phrentisiaethau i ddatblygu'r gweithlu. Felly, wrth gwrs, mae hyn yn newyddion siomedig iawn, nid yn unig i economi Cymru, ond hefyd i weithwyr y cwmni a'u teuluoedd. Bydd y 430 o ddiswyddiadau posibl yn Rowecord Engineering yn effeithio ar staff yn y safleoedd yng Nghasnewydd ac ym Maglan ac yn y tîm cynnal a chadw yn Tata ym Mhort Talbot.

Rwyf ar ddeall mai bwriad y cwmni yw gwarchod y cwmnïau eraill yn y grŵp. Bu trafferthion yn y diwydiant ledled y DU dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a chredir bod marchnad y cwmni wedi gostwng hyd at 40%. Mae hyn wedi rhoi pwysau ariannol sylweddol ar gyflenwyr ac wedi peri i gystadleuwyr adael y diwydiant.

Er ein bod yn ddiweddar wedi llwyddo i helpu'r cwmni i ddatrys mater yn ymwneud â chontractau, yn anffodus, oherwydd y pwysau a'r heriau ariannol ehangach hyn yn y diwydiant, mae'r cwmni ei hun wedi gorfod penderfynu mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Rydym wedi cynnig cymaint o gymorth i'r cwmni ag a ganiateir o fewn y rheolau cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, penderfynodd y cwmni dderbyn y cynnig hwnnw, a hynny oherwydd bod ei sefyllfa ariannol a chystadleuol yn gwaethygu. Wrth gwrs, ateb tymor byr neu ganolig yr oeddem yn ei gynnig i reolwyr y cwmni. Yn y tymor hwy, bydd yn rhaid i amgylchiadau'r farchnad wella'n sylweddol er mwyn sicrhau adferiad llwyr. Yn benodol, byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU i roi mwy o bwyslais ar brosiectau seilwaith mawr.

The company's senior management has thanked the Welsh Government for our offer of support and for the speed and flexibility with which we responded. However, it has reluctantly decided that it is in the best interests of its employees and partners to file for administration when a buyer for the business may be identified. We will now work with the administrators, Grant Thornton, to explore all options for securing the future of the company and we will, of course, discuss packages of support with any potential buyers. We will also ensure that as much support as possible is made available to the employees, including through the ReAct programme, to help them through these difficult times.

Mae uwch reolwyr y cwmni wedi diolch i Lywodraeth Cymru am gynnig cymorth ac am ymateb mor gyflym ac mewn modd mor hyblyg. Fodd bynnag, maent wedi penderfynu o'u hanfodd mai'r hyn sydd orau i'r gweithwyr a'r partneriaid yw mynd i ddwylo'r gweinyddwyr a chwilio am brynwr i'r cwmni. Byddwn yn awr yn gweithio gyda'r gweinyddwyr, Grant Thornton, i edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer sicrhau dyfodol y cwmni a byddwn, wrth gwrs, yn trafod pecynnau cymorth ag unrhyw ddarpar brynwyr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cymaint o gefnogaeth ag y bo modd yn cael ei gynnig i'r gweithwyr, gan gynnwys drwy'r rhaglen ReAct, i'w helpu drwy'r cyfnod anodd hwn.

17:00

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, thank you for your statement. May I say on behalf of the Welsh Conservative opposition that we share your sentiments that Rowecord entering administration is a matter of great concern? Our thoughts are with the employees and their families at this challenging time. Rowecord has been a staple feature of the industrial landscape of Newport and south-east Wales for over 40 years, as you said. Also, as you said, it is a well-known and respected brand. It has worked on a plethora of well-known steel projects, including, to name a few, the Millennium Stadium, the Liberty Stadium and the Olympic aquatic centre—major projects. This has come as a great shock to everyone involved because of the company's previous success. Many people have asked me over the last few days when did people realise that this was coming and what has changed between its work on projects such as the Millennium Stadium and now.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad. A gaf i ddweud ar ran gwrthblaid y Ceidwadwyr Cymreig ein bod ninnau, fel chithau, o'r farn fod gweld Rowecord yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn destun pryder mawr? Mae'r gweithwyr a'u teuluoedd yn ein meddyliau yn y cyfnod anodd hwn. Mae Rowecord yn rhan annatod o dirlun diwydiannol Casnewydd a de-ddwyrain Cymru ers dros 40 mlynedd, fel y dywedwch. Hefyd, fel y dywedwch, mae'n frand sy'n adnabyddus ac yn uchel ei barch. Mae wedi gweithio ar lu o brosiectau dur adnabyddus, yn eu plith Stadiwm y Mileniwm, Stadiwm Liberty a'r ganolfan campau dŵr Olympaidd—prosiectau mawr, pob un. Bu hyn yn sioc fawr i bawb oherwydd llwyddiant y cwmni yn y gorffennol. Mae llawer o bobl wedi gofyn imi dros yr ychydig ddyddiau diwethaf pryd y sylweddolodd pobl fod hyn yn dod a beth sydd wedi newid rhwng gwaith y cwmni ar brosiectau megis Stadiwm y Mileniwm a nawr.

You say that the Welsh Government had offered the maximum assistance but that it was not taken up because of the company's worsening financial position. Will you outline what type of assistance was offered? Was there anything that Rowecord asked for that you were unable to provide? You mentioned the problems within state aid rules for providing assistance. Was anything specifically asked for that you were not able to give?

Rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymaint o gymorth â phosibl, ond na dderbyniodd y cwmni'r cymorth hwnnw oherwydd bod ei sefyllfa ariannol yn gwaethygu. A wnewch chi amlinellu pa fath o gymorth a gynigiwyd? A ofynnodd Rowecord am rywbeth nad oeddech yn gallu ei ddarparu? Soniasoch am broblemau'n ymwneud â rheolau cymorth gwladwriaethol. A ofynnwyd am rywbeth yn benodol nad oedd modd ichi ei roi?

I heard that you are working with the administrators to explore all the options for the future of the company and that is very welcome. We are pleased that you are doing that. How are you intending to work with the administrators, over what timescale and what sort of packages of support are you considering for future companies that might be considered to take over Rowecord? It strikes me that if you offered everything that you could to the previous owners within state aid rules and that was not enough, how can you be confident that the packages you will be able to offer over the months and years ahead will be enough to safeguard the jobs and manufacturing base that we would like to see? This is very sad news, Minister, as you said in your statement. Hopefully, we can all do what we can to try to make sure that alternative employment is found for those people who will be badly in need of it once these cutbacks are made.

Clywais eich bod yn gweithio gyda'r gweinyddwyr i edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer dyfodol y cwmni ac mae croeso mawr i hynny. Rydym yn falch eich bod yn gwneud hynny. Sut rydych chi'n bwriadu gweithio gyda'r gweinyddwyr, beth yw'r amserlen a pha fath o becynnau cymorth yr ydych chi'n eu hystyried ar gyfer cwmnïau y gellid yn y dyfodol eu hystyried o safbwynt cymryd awenau Rowecord? Mae'n fy nharo i, os bu ichi gynnig popeth o fewn eich gallu i'r perchnogion blaenorol yn unol â'r rheolau cymorth gwladwriaethol ac nad oedd hynny'n ddigon, sut allwch chi fod yn ffyddiog y bydd y pecynnau y byddwch yn gallu eu cynnig dros y misoedd a'r blynnydoedd i ddod yn ddigon i ddiogelu'r swyddi a'r sylfaen weithgynhyrchu yr hoffem eu gweld? Dyma newyddion trist iawn, Weinidog, fel y dywedasoch yn eich datganiad. Rwyf yn mawr obeithio y gallwn i gyd wneud ein gorau glas i geisio gwneud yn siŵr bod modd dod o hyd i swyddi eraill i'r bobl hynny y bydd dirfawr angen gwaith arnynt unwaith y gwneir y toriadau hyn.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the opposition Member for that contribution. We are all agreed that it is a very sad day for the employees and their families. All job losses are deeply regrettable at this difficult time. The Welsh Government, as I have indicated, has been very supportive of the company. We made a very substantial offer to help with the company's financial difficulties. We are in contact with the administrators and we are exploring opportunities for securing a rescue package with an alternative buyer. Our recent history with Vion and how we dealt with the 2 Sisters Food Group gives an illustration of how proactive we are as a Government in these circumstances.

I can only confirm in broad terms the nature of the financial assistance. The offer was made via a commercial loan, but I cannot go into specific disclosure. The company had no additional assets to support a larger loan from the Welsh Government. Under state aid rules, we are unable to provide support under repayable business finance—because the business was in difficulty, there were issues around state aid. It did not take it up and that is a matter for the company. It felt that its position was worsening financially and the maximum offer that we could make was not sufficient for the company at that time. We did not just look at state aid, we looked creatively at how we could help and assist the company. We looked at what we could do with its property and the space it utilises and everything like that. We did not restrict ourselves. We looked at all support within the limit of the law and state aid regulations. We want to be clear that the limitation of state aid regulations was not the reason why the company went into administration; there were other factors.

We have also helped Rowecord's customers where we can. That matter is commercial in confidence. We have had discussions. In terms of its worsening position, I would say that its position worsened during April. It felt that the lack of investment in construction was not helping. The company had tried to reduce its margins, but there is a limit to how long any company can survive on no margins or very low margins. There were also cashflow issues. It is a very difficult position.

In terms of the apprentices at Rowecord, my colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology, is ensuring that they are taken on elsewhere as they are already part way through their training. We will continue to explore with the company what we can do to help and assist at this very difficult time.

Diolch i Aelod yr wrthblaid am y cyfraniad hwnnw. Rydym i gyd yn gytûn fod hwn yn ddiwrnod trist iawn i'r gweithwyr a'u teuluoedd. Mae colli swyddi bob amser yn destun gofid ar yr adeg anodd hon. Mae Llywodraeth Cymru, fel y dywedais, wedi bod yn gefnogol iawn i'r cwmni. Rydym wedi cynnig cymorth sylweddol iawn i helpu ag anawsterau ariannol y cwmni. Rydym mewn cysylltiad â'r gweinyddwyr, ac rydym yn archwilio cyfleoedd i drefnu pecyn achub gyda phrynwr arall. Mae ein hanes diweddar o ran Vion a'r ffordd y bu inni ymdrin â Grŵp Bwyd 2 Sisters yn dangos pa mor rhagweithiol ydym ni fel Llywodraeth yn yr amgylchiadau hyn.

Braslun yn unig y gallaf ei roi ichi o natur y cymorth ariannol. Gwnaed y cynnig drwy fenthyciad masnachol, ond ni allaf ddatgelu'r manylion. Nid oedd gan y cwmni asedau ychwanegol i gefnogi benthyciad mwy gan Lywodraeth Cymru. O dan reolau cymorth gwladwriaethol, ni allwn ddarparu cymorth o dan gyllid busnes ad-daladwy—oherwydd bod y busnes mewn trafferthion, roedd materion i'w hystyried yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol. Ni dderbyniwyd y cynnig, a mater i'r cwmni yw hynny. Roedd o'r farn bod ei sefyllfa ariannol yn gwaethygu, ac nad oedd y cynnig mwyaf y gallem ei wneud yn ddigon i'r cwmni ar y pryd. Nid dim ond cymorth gwladwriaethol a ystyriwyd; buom yn edrych yn greadigol ar ffyrdd o helpu a chynorthwyo'r cwmni. Buom yn edrych ar yr hyn y gallem ei wneud ag eiddo'r cwmni a'r lle y mae'n ei ddefnyddio a phob dim arall. Ystyriwyd hyn heb gyfyngiadau. Ystyriwyd yr holl gymorth o fewn terfyn y gyfraith a'r rheolau cymorth gwladwriaethol. Rydym am nodi'n glir nad oherwydd cyfyngiadau'r rheoliadau cymorth gwladwriaethol yr aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr; roedd ffactorau eraill.

Rydym hefyd wedi helpu cwsmeriaid Rowecord lle bo modd. Mae'r mater yn fasnachol gyfrinachol. R ydym wedi cynnal trafodaethau. O ran y dirywiad yn ei sefyllfa, byddwn yn dweud bod ei sefyllfa wedi gwaethygu yn ystod mis Ebrill. Roedd y cwmni o'r farn nad oedd y diffyg buddsoddiad ym maes adeiladu'n help yn hynny o beth. Roedd y cwmni wedi ceisio lleihau ei orsymiau, ond dim ond am hyn a hyn o amser y gall cwmni ddal ati heb elw neu gydag elw isel iawn. Roedd materion hefyd yn ymwneud â llif arian. Mae'n sefyllfa anodd iawn.

O ran y prentisiaid yn Rowecord, mae fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, yn sicrhau eu bod yn cael lle mewn busnesau eraill gan eu bod eisoes ran o'r ffordd drwy eu hyfforddiant. Byddwn yn parhau i drafod â'r cwmni yr hyn y gallwn ei wneud i helpu a chynorthwyo ar yr adeg anodd iawn hon.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, like every Member here, I agree that the loss of jobs in Newport is a blow that the city does not need at this time. I offer my sympathies to all the workers involved. This is, in fact, the latest in a series of bad economic news stories.

Weinidog, fel pob Aelod yma, rwyf innau'n cytuno bod colli'r swyddi hyn yng Nghasnewydd yn ergyd nad oes ei hangen ar y ddinas ar hyn o bryd. Estynnaf fy nghydymdeimlad i'r holl weithwyr hynny. Yn wir, dyma'r ddiweddaraf mewn cyfres o straeon newyddion economaidd drwg.

Minister, I appreciate that you may not be able to answer this question, but I, like many colleagues here, would like to know more of the details of how this company came to find itself in such difficulty. What happened to result in the firm rejecting assistance from your department when it clearly needed it? I would have thought that it was forewarned some months ago by its own financial records, and I would like to think that a responsible company would have come here, not necessarily for a handout, but for a hand-up. Are you able to tell us how you plan to ensure that other high-value engineering and manufacturing firms that may also be struggling do not fall into the same situation? Have you seen the order books for this company? Has a workers' co-operative been considered? I know that this is a very skilled workforce, but has retraining for alternative employment also been considered?

Weinidog, sylweddolaf efallai na fyddwch yn gallu ateb y cwestiwn hwn, ond hoffwn i, fel llawer o'm cydweithwyr yma, gael gwybod mwy am sut y cafodd y cwmni ei hun yn y trafferthion hyn. Beth ddigwyddodd i beri i'r cwmni wrthod cymorth gan eich adran pan oedd yn amlwg ei angen arno? Byddwn yn tybio y byddai cofnodion ariannol y cwmni wedi rhybuddio am hyn rai misoedd yn ôl, a hoffwn feddwl y byddai cwmni cyfrifol wedi dod yma, nid o reidrwydd i gael cardod, ond i gael cymorth. A allwch ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu sicrhau na fydd cwmnïau peirianeg a gweithgynhyrchu gwerth uchel eraill a allai fod mewn trafferth yn syrthio i'r un fagl? A ydych wedi gweld llyfrau archebion y cwmni hwn? A ystyriwyd cwmni cydweithredol yn nwylo'r gweithwyr? Gwn fod hwn yn weithlu crefftus iawn, ond a ystyriwyd hefyd ailhyfforddi ar gyfer swyddi eraill?

17:06

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I indicated in my statement, the ReAct programme is available to offer assistance. The overriding reason for Rowecord's decline has been a lack of investment in construction in recent years; that was the whole position—probably a figure of around 40%. The company had tried to reduce its margins, but reducing margins all the time is almost impossible if you do not get the work. The company had the cashflow difficulties that I mentioned, and over the last few weeks these longer term issues had really started to come to a head. The company, therefore, reluctantly wanted to file for administration in respect of this part of the group. I cannot go into the matter any further than that.

Fel y nodais yn fy natganiad, mae'r rhaglen ReAct ar gael i gynnis cymorth. Y rheswm pennaf dros ddirywiad Rowecord yw'r diffyg buddsoddiad yn y diwydiant adeiladu dros y blynyddoedd diwethaf; dyna'r sefyllfa yn ei chyfanrwydd—tua 40% yn ôl pob tebyg. Roedd y cwmni wedi ceisio lleihau ei orsymiau, ond mae bron yn amhosibl lleihau'r gorsymiau drwy'r amser os nad ydych yn cael y gwaith. Roedd gan y cwmni anawsterau'n ymwneud â llif arian fel y dywedais, a thros yr ychydig wythnosau diwethaf roedd y materion tymor hwy wedi cyrraedd penllanw. Penderfynodd y cwmni, felly, o'i anfodd, fynd i ddwylo'r gweinyddwyr o safbwynt y rhan yma o'r grŵp. Ni allaf fanylu ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, I say to anyone who is looking to speak to Grant Thornton about a workers' buy-out or a management buy-out that my officials are always ready to assist if we can help to negotiate anything in that regard. We are already having discussions with other groups about other issues affecting whether there can be a workers' buy-out or a management buy-out to ensure that we keep the jobs. If I have any further information that I feel that I can make available, Deputy Presiding Officer, I will certainly write to Assembly Members. However, at this time, I think that it is important that we keep up the maximum engagement with the administrators to see what we can salvage from this situation. Rowecord is an excellent company—it is world-renowned in terms of its products. It also has an exceptionally skilled workforce, and it is unimaginable that it does not have any projects on which to work.

Fodd bynnag, dywedaf wrth unrhyw un sydd am siarad â Grant Thornton am gynllun i'r gweithwyr neu i'r rheolwyr brynu'r cwmni fod fy swyddogion bob amser yn barod i gynorthwyo os gallwn helpu i drafod hynny o beth. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau â grwpiau eraill am faterion eraill sy'n effeithio ar p'un a all y gweithwyr neu'r rheolwyr brynu'r cwmni er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r swyddi hyn. Os daw rhagor o wybodaeth i law y credaf y gallaf ei dosbarthu, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn sicr yn ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, credaf ei bod yn bwysig inni gadw mewn cysylltiad â'r gweinyddwyr hyd eithaf ein gallu i weld beth y gallwn ei adfer o'r sefyllfa hon. Mae Rowecord yn gwmni rhagorol, a'i gynnyrch yn fyd-enwog. Mae ganddo hefyd weithlu eithriadol o grefftus, ac mae'n annod dirnad nad oes ganddo ddim prosiectau i weithio arnynt.

17:08

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for bringing this statement forward so quickly after the announcement, which I know will be appreciated by other Members in the Chamber. First, I echo the thoughts of others here who, quite rightly, say that at a time like this our thoughts are with the workforce and their families. It must be an incredibly difficult time for them, and there must be a huge amount of uncertainty.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn mor fuan ar ôl y cyhoeddiad, a gwn y bydd yr Aelodau eraill yn y Siambwr yn gwerthfawrogi hynny. Yn gyntaf, hoffwn ategu teimladau Aelodau eraill yma sydd, yn gwbl briodol, wedi dweud bod y gweithwyr a'u teuluoedd yn ein meddyliau ar adeg fel hyn. Mae'n rhaid ei bod yn adeg hynod anodd iddynt, a rhaid bod llawer iawn o ansicrwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, we also need to remember and keep in our thoughts those who are employed in the supply and distribution chains for this company who may also feel the impact. I wonder, Minister, whether you could tell us what assessment you have made of the impact on the local economy of the Rowecord plant no longer being a customer and supplier.

Fodd bynnag, mae angen inni gofio hefyd a meddwl am y rhai sy'n cael eu cyflogi yng nghadwyni cyflenwi a dosbarthu'r cwmni hwn a allai hefyd fod yn teimlo'r effaith. Tybed, Weinidog, a allwch ddweud wrthym pa asesiad yr ydych wedi'i gynnal o'r effaith ar yr economi leol oherwydd na fydd ffatri Rowecord mwyach yn gwsmer nac yn gyflenwr.

I think that Rowecord has been a source of immense pride, not only to Newport but to Wales, in terms of the quality of the work that it has done on amazing projects such as the Olympics. I pay tribute to the staff for their craftsmanship. On that basis, I genuinely hope that a positive solution can still be found for them. I wonder whether you can confirm, Minister, when you became aware of the severity of the difficulties that the company was facing, and how much time you had to respond.

You also talked about the assistance that you have been able to offer to Rowecord in the past to help it to expand. I wonder what other support was given in terms of things like business planning, marketing and financial planning, and whether ongoing support was given after the initial assistance with the expansion.

Finally, and echoing the points made by Lindsay Whittle, if the administrators are not successful in keeping the business operating in a similar field that will be able to utilise the skills of these highly skilled craftsmen, what opportunities do you think there might be in the new University of South Wales to provide the kind of high-level skills training that will allow them to enter employment not only in any field, but with the same level of skills and craftsmanship that they have shown at Rowecord?

Credaf fod Rowecord wedi bod yn destun balchder aruthrol, nid yn unig i Gasnewydd ond i Gymru, o ran ansawdd y gwaith y mae wedi'i wneud ar brosiectau anhygoel fel y Gemau Olympaidd. Rwyf yn talu teyrnged i'r staff am eu crefft. Ar sail hynny, rwyf yn gobeithio'n ddifffuant y gellir dod o hyd i ateb cadarnhaol iddynt o hyd. Tybed a allwch gadarnhau, Weinidog, pryd y cawsoch wybod pa mor ddifrifol oedd y trafferthion yr oedd y cwmni'n eu hwynebu, a faint o amser a gawsoch i ymateb.

Soniwyd hefyd am y cymorth yr ydych wedi gallu ei gynnig i Rowecord yn y gorffennol i helpu'r cwmni i ehangu. Tybed pa gymorth arall a roddwyd o ran materion megis cynllunio busnes, marchnata a chynllunio ariannol, ac a roddwyd cymorth parhaus ar ôl y cymorth cychwynnol i ehangu.

Yn olaf, a chan ategu'r pwyntiau a wnaed gan Lindsay Whittle, os na fydd y gweinyddwyr yn llwyddo i sicrhau y gall y busnes barhau i weithredu mewn maes tebyg a fydd yn gallu defnyddio sgiliau'r crefftwyr medrus iawn hyn, pa gyfleoedd allai Prifysgol newydd De Cymru eu cynnig, yn eich barn chi, i ddarparu'r math o hyfforddiant sgiliau lefel uchel a fydd yn golygu y gallant gael swyddi, nid mewn unrhyw faes, ond â'r un lefel o sgiliau a chreffft ag y maent wedi'u dangos yn Rowecord?

17:10

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member, particularly for those last comments, which is an area that we will have to explore. I very much hope that, because of the quality of the workforce and the product that Rowecord had, we will find somebody to purchase parts of the business. We have to recognise that this is a difficult situation, as you have indicated, for the supply chain. We have offered support to the administrators to ensure the best possible outcome for Rowecord employees and its suppliers, and we will have to work with the supply chain to identify new opportunities for it. Supply-chain work is intrinsic in the development work.

In terms of knowing about Rowecord, we have had a relationship with it for 10 years. We have been involved with Rowecord when it came to us to have discussions on money, property and what it wanted to do. So, we have always known what was going on in Rowecord all the way through. As I indicated, it came to a head in terms of the seriousness of it in April this year, although we were aware of some of the issues that we had helped it to get through in terms of its relationships with other companies, and to help and assist it. I do not want to go into too much detail in public on some of the matters that were dealt with, which are commercially confidential.

I think that it is important for us to recognise that it is going to be hard for those individuals involved; there have already been redundancies in the Risca part of the business. It is having an impact not only in Newport, but in Tata Steel. The job of work for us to do is to keep a close relationship with the administrators, look for what opportunities there are and use our contacts in industry and manufacturing to see whether there is any interest out there in any elements of Rowecord's business and particularly in taking on those employees.

Diolch i'r Aelod, yn enwedig am y sylwadau diwethaf, sydd yn faes y bydd yn rhaid inni edrych arno. Gobeithiaf yn fawr y byddwn yn dod o hyd i rywun i brynu rhannau o'r busnes, oherwydd ansawdd y gweithlu a'r cynnyrch yr oedd Rowecord yn ei ddarparu. Mae'n rhaid inni gydnabod bod hon yn sefyllfa anodd, fel y dywedwch, i'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi cynnig cymorth i'r gweinyddwyr i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer gweithwyr Rowecord a chyflenwyr y cwmni, a bydd yn rhaid inni weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i ddod o hyd i gyfleoedd newydd iddi. Mae gwaith gyda'r gadwyn gyflenwi'n rhan hanfodol o'r gwaith datblygu.

O ran gwybod am Rowecord, mae gennym berthynas â'r cwmni ers 10 mlynedd. Byddem yn ymwneud â Rowecord pan fyddai'n dod atom i drafod arian, eiddo a'r hyn yr oedd am ei wneud. Felly, roeddem yn gwybod beth oedd yn digwydd yn Rowecord ers y cychwyn. Fel y dywedais, cyrhaeddodd difrifoldeb y sefyllfa benllanw ym mis Ebrill eleni, er ein bod yn ymwybodol o rai o'r materion yr oeddem wedi helpu'r cwmni i ymdopi â hwy o ran ei berthynas â chwmnïau eraill, er mwyn ei gynorthwyo. Nid wyf am roi gormod o fanylion yn gyhoeddus am rai o'r materion yr ymdriniwyd â hwy, gan eu bod yn fasnachol gyfrinachol.

Credaf ei bod yn bwysig inni gydnabod y bydd yn anodd i'r unigolion dan sylw; bu diswyddiadau eisoes yn y rhan o'r busnes sydd yn Rhisga. Mae'n cael effaith yn Tata Steel yn ogystal ag yng Nghasnewydd. Ein gwaith ni nawr yw cynnal perthynas agos â'r gweinyddwyr, edrych ar ba gyfleoedd sydd ar gael a defnyddio ein cysylltiadau ym myd diwydiant a gweithgynhyrchu i weld a oes diddordeb yn unrhyw elfennau o fusnes Rowecord, ac yn enwedig mewn rhoi gwaith i'r gweithwyr hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:12

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your prompt statement, Minister, following Friday's announcement. I echo the views and comments of my colleagues in the Chamber on the worries and concerns that we have for the families and workers and the uncertainties that they face. Thank you for also identifying the fact that Rowecord does not only affect Newport; it has expanded across south Wales, particularly in the Tata works in my area in Port Talbot, and it also has subsidiaries located in my area.

Minister, I am disappointed when I hear the Secretary of State for Wales attempt to link the situation at Rowecord with claims of over-regulation in the construction sector in Wales. Can you confirm that there is no truth in that, so that we can reassure other businesses that there are opportunities here and that we are still good for business? Can you also expand on the detail of the subsidiary companies that you mentioned? There are several subsidiary companies that have good contracts here in Wales and that have viable operations. Finally, I have also heard comments on blast furnace No. 4 being linked to the consequences. Do you have any information as to whether that is a contributing factor to the situation that Rowecord finds itself in?

Diolch ichi am eich datganiad prydlon, Weinidog, yn sgil y cyhoeddiad ddydd Gwener. Ategaf farn a sylwadau fy nghyd-Aelodau yn y Siambr ynghylch ein pryder a'n gofid dros y teuluoedd a'r gweithwyr a'r ansicrwydd sy'n eu hwynebu. Diolch ichi hefyd am nodi na ar Gasnewydd yn unig y mae Rowecord yn effeithio; mae wedi ehangu ar draws de Cymru, yn enwedig yng ngweithfeydd Tata yn fy ardal i ym Mhort Talbot, ac mae ganddo hefyd is-gwmnïau yn fy ardal i.

Weinidog, rwyf yn siomedig pan glywaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n ceisio cysylltu'r sefyllfa yn Rowecord â honiadau bod y sector adeiladu yng Nghymru'n cael ei or-reoleiddio. A allwch gadarnhau nad oes gwirionedd yn hynny, fel y gallwn roi sicrwydd i fusnesau eraill bod cyfleoedd yma a'n bod yn dal yn lle da i gynnal busnes? A allwch chi hefyd ymhelaethu ar fanylion yr is-gwmnïau a grybwyllwyd gennych? Mae gan nifer o is-gwmnïau gcontractau da yma yng Nghymru ac maent yn hyfyw yma. Yn olaf, rwyf hefyd wedi clywed sylwadau bod ffwrnais rhif 4 yn gysylltiedig â'r canlyniadau. A oes gennych wybodaeth ynghylch a yw hynny'n ffactor sydd wedi cyfrannu at sefyllfa Rowecord?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:13

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I indicated in my statement, I confirm that Rowecord made its decision based purely on what the market is at the moment and on the difficulties that it had in the market. There is much speculation about the reasons; I understand that there was speculation over the weekend by the Secretary of State, but at this time, my thoughts are with the company and the workforce, and it is important to recognise that we have done everything that we can as a Government. This has nothing to do with over-regulation. I say to David Rees that this is to do with the nature of the business and the problems that it faced in its business. You are quite right that the group has chosen for Rowecord to go into administration, but not other companies in the group, and I would be more than happy to update Members on anything that we might know about any other elements of this in due course.

Fel y dywedais yn fy natganiad, rwyf yn cadarnhau mai unig ystyriaeth Rowecord wrth wneud ei benderfyniad oedd sefyllfa'r farchnad ar hyn o bryd a thrafferthion y cwmni yn y farchnad honno. Ceir llawer o ddyfalu am y rhesymau; rwyf ar ddeall y bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn dyfalu dros y penwythnos, ond ar hyn o bryd, mae fy meddyliau i gyda'r cwmni a'r gweithlu, ac mae'n bwysig cydnabod ein bod wedi gwneud popeth a allwn fel Llywodraeth. Nid oes a wnelo hyn â gor-reoleiddio. Dywedaf wrth David Rees fod hyn yn ymwneud â natur y busnes a'r problemau y bu'n eu hwynebu yn y busnes hwnnw. Rydych yn llygad eich lle fod y grŵp wedi dewis i Rowecord, ond nid cwmnïau eraill yn y grŵp, fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a byddaf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw beth y cawn wybod am unrhyw agweddau eraill ar hyn maes o law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her statement. This is very bad news for the workforce, for the economy of south-east Wales and for the economy of Wales as a whole. The knock-on effect will be felt by many small businesses that, until now, were suppliers to Rowecord. Last Friday's announcement came after the board of directors claimed to have exhausted a number of options to keep the business afloat. Minister, when did the Welsh Government first become aware of the difficulties at Rowecord? It is reported that discussions with the Welsh Government over financial support for the company took place, but a deal could not be agreed. Can the Minister advise the Assembly as to how many meetings and discussions took place with the representatives of Rowecord, and over what period? What was the reason for the failure of these discussions to strike a deal to save the company and the jobs of its workforce? Administrators now have the option to sell the business as a whole or to sell off its assets to recover the moneys they owe. What assistance, even at this stage, can the Welsh Government provide to find a buyer for Rowecord as a whole? If these job losses go ahead, what special measures will the Minister introduce to create employment in south-east Wales? I look forward to the Minister's reply.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Mae hyn yn newyddion drwg iawn i'r gweithlu, i economi de-ddwyrain Cymru ac i economi Cymru gyfan. Bydd llawer o fusnesau bach sydd, hyd yma, wedi bod yn cyflenwi Rowecord, yn teimlo effaith hyn. Daeth y cyhoeddiad ddydd Gwener diwethaf ar ôl i fwrdd y cyfarwyddwyr honni eu bod wedi rhoi cynnig ar nifer o opsiynau i gynnal y busnes. Weinidog, pryd y cafodd Llywodraeth Cymru wybod gyntaf am drafferthion Rowecord? Dywedir y cafwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ariannol i'r cwmni, ond na fu modd taro bargaen. A all y Gweinidog roi gwybod i'r Cynulliad faint o gyfarfodydd a thrafodaethau a gynhaliwyd â chynrychiolwyr Rowecord, a thros ba gyfnod? Pam y bu i'r trafodaethau hyn fethu â tharo bargaen i achub y cwmni a swyddi'r gweithlu? Bydd yn rhaid i'r gweinyddwyr ddewis yn awr a ydynt am werthu'r busnes cyfan neu werthu ei asedau i adennill yr arian sy'n ddyledus ganddynt. Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu, er mor hwyr yn y dydd yw hi, i ddod o hyd i brynwr ar gyfer Rowecord yn ei gyfarwydd? Os bydd y swyddi hyn yn cael eu colli, pa fesurau arbennig y bydd y Gweinidog yn eu cyflwyno i greu swyddi yn ne-ddwyrain Cymru? Edrychaf ymlaen at ateb y Gweinidog.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those comments, particularly about the impact that all job losses have on other businesses. We have only to look at the retail sector among others and small businesses across the piece: when someone goes out of employment and money is taken out of the economy, it necessarily has an impact. This goes back to the previous discussion about agricultural wages and the impact, if wage levels change in rural areas, that will have on the local economy and on small businesses.

Diolch ichi am y sylwadau hynny, yn enwedig ynghylch yr effaith a geir bob amser ar fusnesau eraill yn sgil colli swyddi. Nid oes ond raid inni edrych ar y sector manwerthu ymhlith eraill a busnesau bach drwyddi draw: pan fydd rhywun yn peidio â bod mewn swydd ac arian yn cael ei gymryd allan o'r economi, mae hynny o reidrwydd yn cael effaith. Mae hyn yn mynd yn ôl at y drafodaeth flaenorol am gyflogau amaethyddol a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar yr economi ac ar fusnesau bach os bydd lefelau cyflogau'n newid mewn ardaloedd gwledig.

This is a matter that is with the administrators, and we have to keep in very close contact with the administrators. Like you, I feel that it would be nice to sell this as a concern to protect the maximum number of jobs, rather than things being sold off in bits and pieces to try to realise some money back to pay debt. That is quite clear.

Mae'r mater hwn bellach yn nwylo'r gweinyddwyr, ac mae'n rhaid inni gadw mewn cysylltiad agos iawn â'r gweinyddwyr. Rwyf innau, fel chithau, o'r farn y byddai'n braf gwerthu'r cwmni fel busnes gweithredol er mwyn diogelwch cynifer o swyddi ag y bo modd, yn hytrach na gwerthu pethau fesul tipyn i geisio gwneud rhywfaint o arian i dalu'r dyledion. Mae hynny'n ddigon clir.

In terms of our relationship with the company, we have known the company for a long time; when we have a relationship, companies come to us and we go to them all the time. However, I would like to emphasise what I said: the company's senior management has thanked the Welsh Government for our offer of support and for the speed and flexibility with which we responded. That indicates how we responded to it. However, it reluctantly decided that it was in the best interests of its employees and partners to file for administration so that a buyer for the business may be identified. Whatever might be read, said, or done, that is the factual position. We put our heart and soul into trying to help and we will continue to help. When you look at the record that we have had on some things recently and the effort that we have put into Vion and other companies, you can see that we are a Government that is there to help and assist businesses, and they recognise that.

O ran ein perthynas â'r cwmni, rydym yn adnabod y cwmni ers cryn amser; pan fydd gennym berthynas, mae cwmnïau'n dod atom ni ac rydym ninnau'n mynd atynt hwythau drwy'r amser. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio'r hyn a ddywedais: mae uwch reolwyr y cwmni wedi diolch i Lywodraeth Cymru am gynniig cymorth ac am ymateb mor gyflym ac mewn ffordd mor hyblyg. Mae hynny'n dangos sut yr ydym wedi ymateb i hyn. Fodd bynnag, penderfynodd y cwmni o'i anfodd mai'r peth gorau i'r gweithwyr a'r partneriaid oedd mynd i ddwylo'r gweinyddwyr er mwyn gallu dod o hyd i brynwr. Beth bynnag a ddarllenir, a ddywedir, neu a wneir, dyna'r sefyllfa sydd ohoni. Rydym wedi rhoi calon ac enaid i geisio helpu a byddwn yn parhau i helpu. Pan edrychwch ar ein record ar rai pethau yn ddiweddar a'r ymdrech yr ydym wedi'i wneud o ran Vion a chwmnïau eraill, gallwch weld ein bod yn Llywodraeth sydd yno i helpu a chynorthwyo busnesau, ac maent yn cydnabod hynny.

17:17

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement this afternoon. I, too, share the confidence of Members that there will be a successful outcome. Sadly, the company is in administration at the moment, but it is an attractive proposition. There have been some economic challenges, both in terms of current contracts and bad debt, but let us hope that the iconic landmarks have attracted the attention of buyers to what is, I believe, an attractive offer for someone to buy into and take the company forward.

I would like to make a general point, Minister. This is the second company that has turned down Welsh Government assistance in as many weeks. Vion in Anglesey, for example, turned down the Welsh Government's offer when it was looking at options for the factory in Gaerwen, with the potential of 320 jobs, and a substantial number of jobs in south-east Wales have now gone, despite the Welsh Government acting proactively—and I pay credit to you, Minister, and your officials for acting proactively in making the offer but, sadly, the company chose to put itself into administration. It is concerning that there are at least two occasions that we can highlight of substantial job losses despite Welsh Government intervention. Is something going wrong with that intervention, or is there something in the marketplace that means that the offer that you are making is not something that these large companies are interested in taking up?

Weinidog, diolch am eich datganiad brynhawn heddiw. Rwyf innau, hefyd, yn rhannu hyder yr Aelodau y bydd canlyniad llwyddiannus i hyn yn y pen draw. Yn anffodus, mae'r cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar hyn o bryd, ond mae'n gynnig deniadol. Bu rhai heriau economaidd, o ran contractau cyfredol a dyledion drwg, ond gadewch inni obeithio bod yr adeiladau eiconig wedi denu sylw prynwyr at yr hyn sydd, yn fy marn i, yn gynnig deniadol i rywun ei brynu a symud y cwmni yn ei flaen.

Hoffwn wneud pwynt cyffredinol, Weinidog. Dyma'r ail gwmni sydd wedi gwrthod cymorth Llywodraeth Cymru yn yr wythnosau diwethaf. Gwrthododd Vion yn Ynys Môn, er enghraifft, gynnig Llywodraeth Cymru pan oedd yn edrych ar opsiynau ar gyfer y ffatri yn y Gaerwen, gyda 320 o swyddi posibl. Mae nifer sylweddol o swyddi yn ne-ddwyrain Cymru bellach wedi mynd, er i Lywodraeth Cymru weithredu'n rhagweithiol—ac rwyf yn talu teyrnged i chi, Weinidog, ac i'ch swyddogion am fynd ati'n rhagweithiol i wneud y cynnig, ond, yn anffodus, dewisodd y cwmni ei roi ei hun yn nwylo'r gweinyddwyr. Mae'n destun pryder y gallwn gyfeirio at o leiaf ddau achlysur lle y collwyd nifer sylweddol o swyddi er gwaethaf ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. A oes rhywbeth o'i le â'r ymyrraeth honno, neu a oes rhywbeth yn y farchnad sy'n golygu nad yw'r cynnig yr ydych yn ei wneud yn rhywbeth y mae'r cwmnïau mawr hyn awyddus i'w dderbyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:19

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sometimes, you only hear about when people say 'no' and not when they say 'yes' in terms of our dealings. I would like to make it quite clear that there is no comparison between the Gaerwen issues with Vion and Rowecord. The decision by Vion was a decision about a specific plant, and you have to look at the fact that we were able to assist all of the thousands of other employees within that industry and to protect their jobs in St Merryn Foods through the deal that we have done with the 2 Sisters Food Group. No, I do not think that there is anything there. Companies come to a certain stage when they reach their own conclusions about what they think is best. The company probably thought that this was best and that the administrator could find a buyer. We are disappointed, but, at the end of the day, the offers that we have made have been well-received in other areas by companies that we help and assist all the time. Therefore, I do not think that there is any shortfall. However, obviously, I will bear in mind your comments, because I think that they were made in the correct spirit.

Weithiau, ni fyddwch ond yn clywed am yr adegau hynny pan fydd pobl yn dweud 'na', ac nid yr adegau pan fyddant yn dweud 'ie' o ran ein trafodion. Hoffwn ei gwneud yn gwbl eglur nad oes dim cymhariaeth rhwng y materion yn ymwneud â Vion yn y Gaerwen a Rowecord. Roedd penderfyniad Vion yn benderfyniad ynglŷn â ffatri benodol, a rhaid ichi ystyried y ffaith ein bod wedi gallu cynorthwyo pob un o'r miloedd o weithwyr eraill o fewn y diwydiant hwnnw a diogelu eu swyddi yn St Merryn Foods drwy'r cytundeb a wnaethom â Grŵp Bwyd 2 Sisters. Nac ydw, nid wyf yn credu bod dim yno. Daw adeg pan fydd cwmnïau'n gwneud eu penderfyniadau eu hunain am yr hyn sydd orau iddynt yn eu barn hwy. Roedd y cwmni o'r farn, mae'n debyg, mai dyma oedd orau ac y gallai'r gweinyddwr ddod o hyd i brynwr. Rydym yn siomedig, ond, yn y pen draw, mae'r cynigion yr ydym wedi'u gwneud wedi cael croeso mewn ardaloedd eraill gan gwmnïau yr ydym yn eu helpu ac yn eu cynorthwyo drwy'r amser. Felly, nid wyf yn credu bod unrhyw ddiffyg. Ond yn amlwg, cadwaf eich sylwadau mewn cof, oherwydd y credaf ichi eu gwneud yn yr ysbryd cywir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 p.m.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

The meeting ended at 5.20 p.m.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)